Ministry of Defence

ARMED FORCES COVENANT

Canllawiau Statudol ar Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

Yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig

Cyflwynwyd dan adran 343AE(1) Deddf Lluoedd Arfog 2006

Tachwedd 2022

CANLLAWIAU

Mae'r Canllaw hwn wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth y DU, ar y cyd â Gweinyddiaethau Datganoledig Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig, ysgolion, colegau, y GIG, Ymddiriedolaethau'r GIG a byrddau iechyd, asiantaethau a grwpiau comisiynu, elusennau'r Lluoedd Arfog a Ffederasiynau Teuluoedd, arbenigwyr pwnc, ac aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog.

Cynnwys

Gwybodaeth 5

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn 7

Crynodeb Gweithredol 9

1. Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog 12

1A. Beth yw ‘Cyfamod y Lluoedd Arfog’? 12

1B. Beth yw Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog? 13

1C. Cyrff Penodedig y mae’r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt 13

1D. Swyddogaethau Perthnasol yng Nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod 15

1E. Adolygu Gweithrediad y Ddyletswydd ac Ehangu ei Chwmpas 16

1F. Sylw Priodol 16

1G. Rhwymedigaethau a Chyfaddawdau Unigryw 16

1H. Dileu Anfanteision 18

1I. Darpariaeth Arbennig 19

1J. Cymuned y Lluoedd Arfog 20

1K. Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Beth nad yw 24

2. Gofal iechyd 26

Crynodeb 26

2A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau gofal iechyd cyhoeddus 27

2B. Deall anghenion gofal iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog 27

2C. Darparu gwasanaethau 34

2D. Cynllunio a chyllid 38

2E. Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol 39

3. Addysg 40

Crynodeb 40

3A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau addysg a ariennir gan y wlad 41
3B. Adnabod Plant Gwasanaeth 41
3C. Derbyniadau 42
3D. Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm 44
3E. Lles plant 45
3F. Cludiant 48
3G. Presenoldeb 50
3H. Cymorth anghenion ychwanegol 51
3I. Defnyddio cyllid Premiwm Disgybl Gwasanaeth (Lloegr yn unig) 52
4. Tai 54
Crynodeb 54
4A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau tai cyhoeddus 55
4B. Nodi Defnyddwyr Gwasanaeth o Gymuned y Lluoedd Arfog 55
4C. Polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol 56
4D. Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig) 61
4E. Digartrefedd 62
4F. Grantiau Cyfleusterau Anableddau 63
Atodiad 1: Cyrff a swyddogaethau yng nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod 65
Atodiad 2: Sut gall cyrff godi ymwybyddiaeth o faterion y Lluoedd Arfog 72
Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth 74
Atodiad 4: Datrys anghydfodau 76

Gwybodaeth

Cyd-destun y Canllaw hwn

0.1. Diwygiodd Deddf Lluoedd Arfog 2021 y Ddeddf Lluoedd Arfog 2006 ('y Ddeddf') drwy gynnwys adrannau 343AA i 343AF. Mae'r rhain yn rhoi dyletswydd gyfreithiol (y 'Ddyletswydd Cyfamod') ar unigolion a chyrff cyhoeddus penodol ('cyrff penodol'), i roi sylw priodol i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog wrth arfer rhai swyddogaethau statudol penodol ym meysydd gofal iechyd, addysg a thai ('swyddogaethau perthnasol'). Rhestrir y cyrff penodol a'r swyddogaethau perthnasol yn adrannau 343AA i 343AD o'r Ddeddf. Daeth y Ddyletswydd Cyfamod i rym ar 22 Tachwedd 2022.

0.2. Cyflwynir y Canllaw hwn dan adran 343AE o'r Ddeddf, sy'n nodi fod rhaid i'r cyrff penodol roi sylw priodol i'r Canllaw hwn wrth arfer pŵer swyddogaethol.

Diben y Canllaw

0.3. Diben y Canllaw yw cynorthwyo'r cyrff penodol i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, drwy ddarparu gwybodaeth am y Ddyletswydd a'r bobl yng Nghymuned y Lluoedd Arfog sy'n fuddiolwyr y Ddyletswydd. Mae'n amlygu'r materion y gall y bobl hyn eu hwynebu o ganlyniad i fod yn rhan o'r Lluoedd Arfog, ac yn arddangos arfer da ym meysydd gofal iechyd, addysg a thai. Os oes gan gyrff penodol unrhyw gwestiynau am y Canllawiau hyn neu'r Ddyletswydd, dylent geisio cyngor cyfreithiol a/neu gysylltu â Thîm Cyfamod Lluoedd Arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn (gweler Atodiad 3 am fanylion cyswllt).

0.4. Mae'r Canllaw hwn yn ymwneud yn benodol â'r Ddyletswydd Cyfamod. Ceir gwybodaeth am y Cyfamod ehangach yn y ffynonellau a restrir yn Atodiad 3.

Cynulleidfa fwriadedig

0.5. Prif gynulleidfa'r Canllaw hwn yw'r cyrff penodedig ledled y DU y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Bydd y Canllaw hwn o ddiddordeb i staff ym mhob rhan o'r cyrff hyn, ond yn enwedig y rhai sydd ynghlwm wrth lunio polisïau, cynllunio busnes, caffael, darpariaeth a llywodraethu. Mae'r Canllaw hwn hefyd ar gyfer sefydliadau eraill sy'n cyflawni unrhyw rai o'r swyddogaethau penodol ar ran y cyrff penodedig. Bydd y Canllaw hwn hefyd o ddiddordeb i aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog, a sefydliadau eraill sy'n gweithio gyda nhw, megis elusennau.

Cynnwys y Canllaw

0.6. Mae Pennod 1 yn cynnwys trosolwg o'r Ddyletswydd Cyfamod, gan gynnwys beth ydyw, ac i bwy a phryd y mae'n berthnasol. Mae'n disgrifio'n fanwl rhai o rwymedigaethau a

chyfaddawdau unigryw bywyd yn y Lluoedd Arfog, ac yn cyflwyno'r cysyniadau anfanteision a darpariaeth arbennig. Mae'r penodau sy'n weddill yn disgrifio rhai o'r anfanteision y gall aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog eu profi ym meysydd gofal iechyd (pennod 2), addysg (pennod 3), a thai (pennod 4). Darperir astudiaethau achos drwyddi draw i arddangos y ffyrdd y gellid ystyried a chymhwyso egwyddorion y Cyfamod Lluoedd Arfog.

0.7. Mae'r atodiadau'n cynnwys rhestr o'r cyrff penodedig sy'n amodol i'r Ddyletswydd a'r swyddogaethau perthnasol y mae'r Ddyletswydd yn ymwneud â nhw (Atodiad 1), gwybodaeth am sut i ddod yn fwy ymwybodol o faterion Lluoedd Arfog (Atodiadau 2 a 3), a gwybodaeth am sut i ddatrys anghydfodau (Atodiad 4).

Gwybodaeth am gyhoeddi

0.8. Dyma'r unig Ganllaw Statudol ar y Ddyletswydd Cyfamod a fydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Ei Fawrhydi. Ceir rhagor o gyngor ac arweiniad ar Gyfamod y Lluoedd Arfog a'r Ddyletswydd Cyfamod gan y Tîm Cyfamod y Lluoedd Arfog yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

0.9. Mae'r Canllaw hwn hefyd ar gael yn Gymraeg. Os oes angen darparu'r Canllaw hwn ar ffurf ac/neu iaith amgen, cysylltwch â Thîm Cyfamod y Lluoedd Arfog i drafod eich gofynion. Dyma'r fersiwn gyntaf o'r Canllaw, a gyhoeddwyd fis Tachwedd 2022. Gall y ddogfen hon newid yn dibynnu ar unrhyw ddiweddariadau yn y dyfodol. Gallwch anfon unrhyw awgrymiadau o ran cynnwys fersiynau i'r dyfodol at Dîm Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn

I rai sy'n cofrestru, gall gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog dalu ar ei ganfed. Gall gynnig bywyd yn llawn heriau ac antur; cyfle i fagu sgiliau newydd a datblygu dull gwydn wrth ymdrin â bywyd; a chyfle i deithio'r byd, wrth amddiffyn a gwasanaethu eich cenedl.

Wedi dweud hyn, nid yw'n yrfa rhwydd. Mae aelodau'r Lluoedd Arfog yn cyflawni llawer o rwymedigaethau ac yn cyfaddawdu llawer iawn er mwyn cynnal eu dyletswyddau a'n cadw ni i gyd yn ddiogel. Gall y straen a'r pwysau sy'n deillio o'r swydd fod yn enfawr, a gall eu heffaith aros gyda pherson am gyfnod hir iawn wedi iddynt adael y Lluoedd Arfog a dychwelyd i fywyd dinesig.

Oherwydd hyn, prin iawn y mae aelodau'r Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn byw beth all gael ei alw yn fywydau 'normal'. Mae hyn yn golygu y byddant yn aml yn cael profiadau gwahanol wrth ddefnyddio a chael mynediad i wasanaethau cyhoeddus a phreifat bob dydd yn y DU, o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Waeth os yw'n ymwneud â bywyd dinesig anghyfarwydd, neu symudiadau rheolaidd o amgylch y wlad a'r anawsterau yn hyn o beth o ran cynnal rhwydweithiau cymorth, er enghraifft, gall aelodau o'r Lluoedd Arfog ei chael hi'n anodd cael mynediad i nwyddau a gwasanaethau o'r fath.

Dyma pam mae gennym ni'r Cyfamod Lluoedd Arfog. Addewid gan y genedl yw Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n nodi y dylid trin y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ochr yn ochr â'u teuluoedd, yn deg. Mae'n addo na ddylent fod dan anfantais oherwydd eu gwasanaeth. Hefyd, mae'n cydnabod y cyfaddawdau y maent wedi'u gwneud ar ein rhan ni, a'n cyfrifoldebau ni drostynt hwythau i wneud yn iawn am hyn.

Rydym yn ddiolchgar i'r miloedd o sefydliadau ledled y DU sydd wedi arddangos eu cymorth i'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, drwy gofrestru i anrhydeddu'r Cyfamod, drwy waredu anfanteision y byddai Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu fel arall o ganlyniad i'w gwasanaeth, ac, mewn rhai achosion, drwy greu gwasanaethau pwrpasol i gydnabod cyfaddawdau'r rhai sydd wedi rhoi'r mwyaf.

Ond, mae mwy i'w wneud. Mae aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog yn parhau i wynebu anfanteision oherwydd eu cyfnodau yn gwasanaethu. Dyna pam rydym wedi creu ein hymrwymiad maniffesto i gryfhau ymhellach y Cyfamod yn gyfreithiol. Rydym wedi creu ymrwymiad cyfreithiol newydd ar gyfer rhai sefydliadau cyhoeddus lleol penodol, yn gofyn iddynt dalu sylw priodol i'r Cyfamod a'u hegwyddorion, gan ganolbwyntio ar y meysydd allweddol o ofal iechyd, addysg a thai, sy'n sail i fywydau llwyddiannus. Hyderaf y bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth o'r Cyfamod, yn gwella dealltwriaeth o brofiadau'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, ac yn arwain at ddeilliannau gwell i'n pobl. Mae rhoi'r Cyfamod hwn dan statud fel hyn hefyd yn sicrhau ei fod yn para i'r dyfodol, ac yn dod yn rhan sylfaenol o fywyd Prydeinig.

Mae'r Canllaw Statudol hwn yn adnodd allweddol sy'n helpu'r sefydliadau cyhoeddus hyn ddeall y rhwymedigaethau lleol sy'n berthnasol iddynt, y materion yn wynebu ein Lluoedd Arfog a'n teuluoedd, ac yn arddangos llawer o enghreifftiau o arfer da, gan nodi sut beth yw darpariaeth Cyfamod llwyddiannus. Hoffwn eich annog i rannu enghreifftiau pellach o arfer da yn eich maes â'm adran, er mwyn helpu i wella darpariaeth lwyddiannus y Cyfamod.



Y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace AS
– Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn

Tachwedd 2022

Crynodeb Gweithredol

Cyfamod y Lluoedd Arfog

0.10. Addewid yw Cyfamod y Lluoedd Arfog gan y genedl sy'n nodi y dylid trin Cymuned y Lluoedd Arfog yn deg, ac ni ddylent wynebu unrhyw anfanteision wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, gan roi darpariaeth arbennig ar waith mewn achosion priodol i'r rhai sydd wedi cyfaddawdu fwyaf. Sefydlwyd y Cyfamod ar ei ffurf bresennol yn 2011 ac ers hynny, mae miloedd o sefydliadau amrywiol - gan gynnwys busnesau, awdurdodau lleol, prifysgolion ac elusennau - wedi dewis llofnodi'r addewid i anrhydeddu'r Cyfamod a chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. O ganlyniad i hyn, bu llawer o enghreifftiau ledled y DU o arfer da i ddileu, lleddfu neu atal achosion o anfantais rhag digwydd.

Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

0.11. Gan adeiladu ar y cynnydd da hwn, diwygiodd Deddf Lluoedd Arfog 2021 y Ddeddf Lluoedd Arfog 2006 i greu'r rhwymedigaeth gyfreithiol canlynol ar gyrff penodedig ym mhob un o bedair o wledydd y DU. Dyma yw Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog.

> Pan fydd corff penodedig yn arfer swyddogaeth berthnasol, mae'n rhaid iddo dalu sylw priodol i: (a) rhwymedigaethau unigryw, a chyfaddawdau, y Lluoedd Arfog; (b) yr egwyddor ei bod hi'n ddymunol dileu anfanteision i bobl yn y Lluoedd Arfog yn deillio o fod yn aelodau, neu fod yn gyn-aelodau, a (c) yr egwyddor fod modd cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl Gwasanaeth oherwydd yr effeithiau ar bobl sy'n aelodau, neu'n gyn-Aelodau, y Lluoedd Arfog.

Mae'r ymrwymiad cyfreithiol yn berthnasol i gyrff penodedig waeth os ydynt wedi llofnodi addewid y Cyfamod ai peidio. Fe'i heglurir ymhellach isod.

Cyrff penodedig y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt

0.12. Y cyrff penodedig y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt yw'r cyrff a nodir yn adrannau 343AA(3), 343AB(3), 343AC(3) a 343AD(3) o'r Ddeddf. Nhw yw'r cyrff sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau lleol ym meysydd gofal iechyd, addysgu a thai, megis awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, a chyrff y GIG. (Gweler adran 1C)

Swyddogaethau perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod

0.13. Mae swyddogaethau perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd yn swyddogaethau dan neu yn rhinwedd y darpariaethau deddfwriaethol a restrir yn adrannau 343AA(4)-(6), 343AB(4)-(6), 343AC(4)-(6) a 343AD(4)-(6) y Ddeddf wedi'u crynhoi yn is-baragraffau (a) – (c) isod. (Gweler adran 1D)

a. Yn lleoliadau Gofal Sylfaenol y GIG, Gofal Eilradd y GIG, a gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan yr awdurdod lleol, y swyddogaethau canlynol: cynllunio ac ariannu; a chydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol.

b. Mewn lleoliadau addysg gorfodol, y swyddogaethau canlynol: derbyniadau; cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm; lles plant; trafnidiaeth; presenoldeb; cymorth anghenion ychwanegol; ac, ar gyfer Lloegr yn unig, defnydd cyllid Premiwm Disgyblion y Lluoedd Arfog.

c. Y swyddogaethau tai canlynol: dyraniadau polisi ar gyfer tai cymdeithasol; strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig); digartrefedd; a grantiau cyfleusterau i bobl anabl.

Sylw priodol

0.14. Mae'r Ddyletswydd yn ymwneud â phenderfyniadau call, ac mae'n golygu y dylai cyrff penodedig feddwl am a rhoi swm priodol o bwysau ar egwyddorion y Cyfamod Lluoedd Arfog pan fyddant yn ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'r ffordd maen nhw'n cyflawni eu swyddogaethau perthnasol. Nid yw'n nodi'r union gamau gweithredu y dylai cyrff penodedig eu rhoi ar waith er mwyn cydymffurfio ag ymrwymiadau cyfreithiol, ac nid yw'n creu mandad ar gyfer deilliannau darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus penodol. Efallai y bydd cyrff yn awyddus i fanteisio ar eu profiadau a'u hymarfer wrth gydymffurfio â dyletswyddau sylw priodol perthnasol. (Gweler adran 1F)

Rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw

0.15. Mae'r rhain yn cynnwys: perygl; symudedd daearyddol; gwahanu; cyfreithiau a hawliau'r Lluoedd Arfog; bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig; oriau gwaith; a straen. (Gweler adran 1G)

Dileu anfanteision

0.16. Anfantais yw pan fo lefel mynediad aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog i nwyddau a gwasanaethau, neu'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn, yn gymharol is na rhywun mewn sefyllfa debyg nad sy'n aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog, ac mae'r gwahaniaeth hyn yn deillio o un (neu fwy) o rwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw bywyd yn y Lluoedd Arfog. (Gweler adran 1H)

0.17. Ym maes gofal iechyd, mae'n bosibl y bydd cyn-filwyr a theuluoedd y Lluoedd Arfog yn profi mwy o heriau o ran cael mynediad i ofal iechyd, neu fwy o oedi yn derbyn triniaeth o gymharu â chleifion nad ydynt yn rhan o gymuned y Lluoedd Arfog. (Gweler pennod 2)

0.18. Ym maes addysg, mae'n bosibl y bydd plant yng nghymuned y Lluoedd Arfog yn profi tarfu ar eu haddysg, tarfu o ran profiad cymdeithasol, lles meddyliol gwaelach, taith hirach i'r ysgol, neu ddim yn gallu mynd ar wyliau yn ystod cyfnodau gwyliau arferol ysgolion. Mae'n bosibl y bydd plant y Lluoedd Arfog ag anghenion ychwanegol yn profi oedi o ran asesiadau a chynlluniau. (Gweler pennod 3)

0.19. Ym maes tai, mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr, personél y Lluoedd Arfog sy'n gadael y gwasanaeth, a theuluoedd milwyr ddiffyg gwybodaeth am wasanaethau tai, dim digon o 'gysylltiad lleol', peidio â chael eu blaenoriaethu wrth dderbyn tai cymdeithasol, profi diffyg tai cymdeithasol, ei chael hi'n anos cyfathrebu â chyrff tai, bod yn anfodlon ceisio cymorth, neu fod angen addasiadau i'w cartrefi pan fyddant yn adleoli. (Gweler pennod 4)

Darpariaeth arbennig

0.20. Mae darpariaeth arbennig yn golygu rhoi camau ar waith sy'n mynd y tu hwnt i'r gefnogaeth a ddarperir i leihau neu ddileu anfanteision. Mae'n bosibl y bydd modd cyfiawnhau darpariaeth arbennig oherwydd effeithiau'r rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw ynghlwm wrth fywyd yn y Lluoedd Arfog, yn enwedig y rhai sydd wedi cyfaddawdu

fwyaf, megis y rhai mewn profedigaeth neu wedi'u hanafu (waeth os yw'r anaf hwnnw'n gorfforol neu'n feddyliol). (Gweler adran 1I)

Pobl gwasanaeth

0.21. At ei gilydd, diffinnir pobl sy'n elwa ar y Ddyletswydd yn 'Bobl gwasanaeth' yn adran 343B(1) o'r Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys: aelodau o luoedd arferol ac wrth gefn y DU sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd; aelodau o Luoedd Arfog Tiriogaethau Tramor Prydain sy'n amodol ar gyfraith Gwasanaeth y DU sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd; cyn-aelodau lluoedd arferol ac wrth gefn y DU a Lluoedd Tiriogaethau Tramor Prydain, sydd fel arfer yn byw yn y DU ('cyn-filwyr'); ac 'aelodau teulu perthnasol' pobl yn y grwpiau hyn. (Gweler adran 1J)

1. Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

1A. Beth yw 'Cyfamod y Lluoedd Arfog'?

1.1. Addewid gan y genedl yw Cyfamod y Lluoedd Arfog, ar sail rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw y rheiny sy'n gwasanaethu, neu sydd wedi gwasanaethu, yn y Lluoedd Arfog, y dylen nhw a'u teuluoedd gael eu trin yn deg. Dyluniwyd hyn i sicrhau na ddylai'r cyfaddawdau a wneir gan Gymuned y Lluoedd Arfog er budd cenedlaethol ddod ar gost sylweddol wrth geisio cael mynediad i nwyddau a gwasanaethau yn y DU.

1.2. Mae'r Cyfamod wedi bodoli ar ei ffurf bresennol ers 2011, a phob blynedd ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi bod â dyletswydd statudol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyfamod i'r Senedd, sy'n berthnasol i bob un o bedair o wledydd y DU. Mae miloedd o sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat ac elusennol wedi ymrwymo i gefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog drwy lofnodi addewid i anrhydeddu'r Cyfamod,[1] neu gyflawni ymrwymiadau eraill. Mae llywodraethau cenedlaethol a lleol wedi cydweithio â'r cyrff hyn i wella bywydau aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Mae hyn wedi'i wneud drwy wella mynediad i nwyddau a gwasanaethau presennol, ac, mewn rhai achosion, drwy greu gwasanaethau neu lwybrau pwrpasol newydd yn rhan o ddarpariaeth arbennig. Mae casgliad o adnoddau wedi cael ei gyhoeddi i helpu cyrff lleol i gyflawni'r Cyfamod yn eu hardal nhw. Mae'r rhain yn berthnasol i ystod o feysydd polisi, gan gynnwys gofal iechyd, addysg, tai a meysydd sydd y tu allan i gwmpas y Ddyletswydd Cyfamod, gan gynnwys cyflogaeth, coffau a chydnabod, er enghraifft.

1.3. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod cyfraniadau gwerthfawr sefydliadau ledled y DU i gefnogi'r Cyfamod Lluoedd Arfog - ac mae darpariaeth arbennig i Gymuned y Lluoedd Arfog wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad i hyn. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, nid yw cyflawniad y Cyfamod yn gyson, ac mae rhai aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dal yn ei chael hi'n anodd a dan anfantais o ganlyniad. O achosion sy'n dwyn sylw'r Weinyddiaeth Amddiffyn, elusennau Gwasanaeth, ac ombwdsmyn, mae'n ymddangos y gall diffyg ymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog fod yn ffactor sylweddol mewn rhai achosion o anfantais. Arweiniodd hyn at greu Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2021. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio Deddf Lluoedd Arfog 2021 i fewnosod y Ddyletswydd i Ddeddf Lluoedd Arfog 2006. Felly, drwy gydol y Canllaw hwn, mae cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Ddyletswydd yn cyfeirio at Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 ('y Ddeddf').

[1] Pwy sydd wedi llofnodi'r cyfamod?

1B. Beth yw Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog?

1.4. Y rhwymedigaeth gyfreithiol ganlynol yw Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog. Pan fydd corff penodedig yn arfer swyddogaeth berthnasol, mae'n rhaid rhoi sylw priodol i:[2]

a. *rwymedigaethau unigryw, a chyfaddawdau, y lluoedd arfog;*

b. *yr egwyddor ei bod hi'n ddymunol dileu anfanteision i bobl Gwasanaeth yn deilio o fod yn aelod, neu'n gyn-aelod, o'r lluoedd arfog; ac,*

c. *yr egwyddor y gellid cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl Gwasanaeth oherwydd yr effeithiau yn deillio o fod yn aelodau, neu'n gyn-aelodau, y lluoedd arfog.*

1.5. Mae is-baragraffau (a) i (c) yn grynodeb o'r Cyfamod Lluoedd Arfog. Mae'r Ddyletswydd yn adeiladu ar - ond yn wahanol i - yr addewid Cyfamod gwirfoddol sy'n bodoli eisoes. **Mae'r rhwymedigaeth cyfreithiol hwn yn berthnasol i bob corff penodedig, wrth arfer swyddogaethau perthnasol, waeth os yw'r corff hwnnw wedi llofnodi addewid y Cyfamod neu beidio.**

1.6. Nod y Ddyletswydd Cyfamod yw codi ymwybyddiaeth o egwyddorion y Cyfamod, y rhesymau drosto, ac yn ei dro, gwella'r penderfyniadau a wneir mewn perthynas â Chymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n golygu bod angen gwneud penderfyniadau am ddatblygiad a chyflawniad gwasanaethau penodol gan ystyried yn ofalus anghenion aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn y cwmpas hwnnw.

1.7. Mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol i'r DU i gyd. Fodd bynnag, mae cyrff penodedig o fewn pedair cenedl y DU yn destun fframweithiau cyfreithiol a gweithdrefnau gweinyddol amrywiol sy'n sail i'r swyddogaethau perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd. Mae'r Ddyletswydd yn gweithio yn unol â'r system gyfreithiol ble mae'r corff yn weithredol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y rhestr o gyrff a swyddogaethau yng nghwmpas pob un o wledydd y DU, fel sydd wedi'i nodi ym mhennod 1, yn adrannau 1C a 1D. Disgrifir pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ychwanegu at y cyrff a'r swyddogaethau yn adran 1E.

1.8. Dilynir hyn gan esboniadau o'r termau allweddol yn y Ddyletswydd: 'sylw priodol' yn adran 1F; 'rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw' yn adran 1G; 'dileu anfanteision' yn adran 1H; 'darpariaeth arbennig' yn adran 1I; a 'Phobl gwasanaeth' yn adran 1J. Mae adran 1K yn disgrifio'r hyn sydd y tu hwnt i gwmpas y Ddyletswydd.

1C. Cyrff Penodedig y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt

1.9. Rhestrir y cyrff penodedig y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt yn y Ddeddf[3] ac yn Atodiad 1 o'r Canllaw hwn, ac maent wedi'u crynhoi yn Nhabl 1 isod. Roedd

[2] Bu i Ddeddf Lluoedd Arfog 2021 fewnosod y Ddyletswydd sylw priodol i adran 343AA(1) Deddf Lluoedd Arfog 2006 o ran Lloegr, adran 343AB(1) o ran Cymru, adran 343AC(1) o ran yr Alban, ac adran 343AD(1) o ran Gogledd Iwerddon.

[3] Bu i Ddeddf Lluoedd Arfog 2021 fewnosod y Ddyletswydd sylw priodol i adran 343AA(1) Deddf Lluoedd Arfog 2006 o ran Lloegr, adran 343AB(1) o ran Cymru, adran 343AC(1) o ran yr Alban, ac adran 343AD(1) o ran Gogledd Iwerddon.

llawer o'r astudiaethau achos darluniol ym mhenodau 2-4 yn cynnwys cydweithio rhwng cyrff amrywiol.

1.10. Nid yw'r sector preifat a'r trydydd sector yn berthnasol i'r cwmpas (er y mae'n bosibl y bydd gan rai cyrff perthnasol, megis academïau, statws elusennol). Fodd bynnag, pan fydd swyddogaethau perthnasol wedi'u contraction i gwmnïau preifat neu sefydliadau trydydd sector, mae angen i'r corff cyhoeddus penodedig sy'n gyfrifol am y swyddogaeth honno sicrhau bod unrhyw drydydd parti sy'n arfer swyddogaethau â'r Ddyletswydd Cyfamod, a gwneud hynny yn ymarferol. Felly, mae'n bosibl y bydd y corff cyhoeddus cyfrifol yn awyddus i adlewyrchu'r Ddyletswydd yn ei gontractau gyda chontractwyr sy'n arfer swyddogaethau perthnasol ar ei ran. Felly, bydd y Canllaw hwn o ddiddordeb i rai cyrff sector preifat a thrydydd sector, yn enwedig os ydyn nhw'n cyflawni unrhyw swyddogaethau perthnasol ar ran corff cyhoeddus.

Lloegr	• Awdurdodau lleol • Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach • Perchnogion Academïau • Ysgolion arbennig nas gynhelir a sefydliadau ôl-16 arbennig • GIG Lloegr, byrddau gofal integredig, Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sylfaen y GIG
Cymru	• Awdurdodau lleol • Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir • Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Yr Alban	• Awdurdodau lleol a landlordiaid yr awdurdod lleol • Awdurdodau integreiddio, Byrddau Iechyd, Byrddau Iechyd Arbennig a'r Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin ar gyfer Gwasanaeth Iechyd yr Alban • Unigolion neu gyrff y mae angen eu help dan adran 23 Deddf Addysg (Cymorth Dysgu Ychwanegol) (Yr Alban) 2004
Gogledd Iwerddon	• Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon • Awdurdod Addysg a Bwrdd Llywodraethu ysgol sy'n cael cymorth grant • Yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon), ond dim ond wrth arfer y swyddogaethau gofal iechyd perthnasol dan gwmpas y Ddyletswydd a gafodd ei harfer gan y cyn-Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol cyn iddo gael ei ddiddymu[4] • Grwpiau Comisiynu Lleol, ac Ymddiriedolaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Tabl 1. Crynodeb o Gyrff Penodedig y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt

[4] Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Gogledd Iwerddon yn rhestr y cyrff sydd wedi'u nodi yn adran 343AD(3) y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Cafodd y Bwrdd hwn ei ddiddymu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2022, a ddaeth i rym yn 1 Ebrill 2022, gyda'i swyddogaethau'n trosglwyddo i'r Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon). Dan ddarpariaethau trawsnewid Deddf 2022, bydd y Ddyletswydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r swyddogaethau perthnasol a gafodd eu harfer gynt gan y Bwrdd, fel sydd bellach yn cael eu harfer gan yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon).

1D. Swyddogaethau Perthnasol yng Nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod

1.11. Mae'r swyddogaethau perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod yn swyddogaethau dan neu yn rhinwedd y darpariaethau deddfwriaethol a restrir yn y Ddeddf[5] ac Atodiad 1 o'r Canllaw hwn. Maent wedi'u crynhoi yn Nhabl 2 isod. Mae'n rhaid cydymffurfio â'r Ddyletswydd pan fydd corff penodedig yn gwneud penderfyniad ynghylch y materion yn Nhabl 2, megis pan mae'n datblygu, gweithredu a/neu yn adolygu polisi perthnasol, neu'n gwneud penderfyniadau ar ei ddarpariaeth o wasanaethau perthnasol.

Gofal iechyd	• Darpariaeth gwasanaethau • Cynllunio ac ariannu • Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol Mae'r swyddogaethau gofal iechyd hyn dan gwmpas y Ddyletswydd yn y lleoliadau canlynol: • Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y GIG, gan gynnwys ymarfer cyffredinol (meddygon teulu), fferyllfeydd cymunedol, deintyddiaeth y GIG, gwasanaethau optometreg y GIG a gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd. • Gwasanaethau Gofal Eilradd y GIG, gan gynnwys gofal brys ac argyfwng, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gofal arbenigol, gwasanaethau iechyd meddwl, a gwasanaethau anghenion ychwanegol (fel sy'n briodol). • Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol, a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
Addysg	• Derbyniadau • Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm • Lles plant • Trafnidiaeth • Presenoldeb • Cymorth anghenion ychwanegol • Defnydd o gyllid Premiwm y Gwasanaeth Disgyblion (Lloegr yn unig) Mae'r swyddogaethau addysg hyn yng nghwmpas y Ddyletswydd mewn lleoliadau addysg gorfodol, hynny yw, addysg gynradd, uwchradd, ac ar gyfer Lloegr yn unig, addysg bellach orfodol. Nid yw'r Ddyletswydd yn berthnasol i addysg feithrin (addysg y blynyddoedd cynnar), addysg uwch, neu leoliadau addysg gwirfoddol eraill i oedolion.
Tai	• Polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol • Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig) • Digartrefedd • Grantiau Cyfleusterau Anableddau

Tabl 2. Crynodeb o'r Swyddogaethau Perthnasol yng Nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod

[5] Cyflwynodd Deddf Lluoedd Arfog 2021 y darpariaethau deddfwriaethol hyn yn Neddf Lluoedd Arfog 2006, yn adran 343AA(4-6) o ran Lloegr, adran 343AB(4-6) o ran Cymru, adran 343AC(4-6) o ran yr Alban, ac adran 343AD(4-6) o ran Gogledd Iwerddon.

1.12. Y swyddogaethau perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd yw'r swyddogaethau a restrir ym meysydd gofal iechyd, addysg a gwasanaethau tai. Mae'r rhain yn feysydd allweddol lle mae anfanteision i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog wedi dod i'r amlwg yn rheolaidd. Mae ffocws y ddeddfwriaeth ar ddarpariaeth leol - ac, fel sy'n briodol, rhanbarthol, o'r gwasanaethau hyn.

1E. Adolygu Gweithrediad y Ddyletswydd ac Ehangu ei Chwmpas

1.13. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ehangu, drwy reoliadau, cwmpas y Ddyletswydd i gynnwys cyrff a swyddogaethau ychwanegol.[6] Y rheswm dros hyn yw fel bod modd addasu'r Ddyletswydd i fodloni anghenion newidiol Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinyddiaethau Datganoledig a rhanddeiliaid priodol eraill cyn cyflwyno rheoliadau dan y pŵer hwn.[7] Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i adolygu gweithrediad y Ddyletswydd a gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid y Cyfamod.

1F. Sylw Priodol

1.14. Nid yw'r Ddeddf yn nodi beth sy'n rhaid i gorff ei wneud er mwyn talu sylw priodol. Felly, mae'r ffordd y mae corff yn bodloni'r Ddyletswydd Cyfamod, a sut mae'r Ddyletswydd wedi'i hadlewyrchu mewn polisïau neu weithdrefnau perthnasol, yn faterion i'r corff dan sylw eu hystyried. Mae'n ymwneud â phenderfyniadau call, ac mae'n golygu y dylai cyrff penodedig feddwl am a rhoi pwysau priodol ar egwyddorion y Cyfamod Lluoedd Arfog wrth ystyried yr holl ffactorau sy'n berthnasol i'r ffordd y maen nhw'n cyflawni swyddogaethau perthnasol. Felly, dylai cyrff penodedig sicrhau bod mecanweithiau ar waith sy'n ysgogi llunwyr penderfyniadau i asesu sut gall eu penderfyniadau effeithio ar eu defnyddwyr gwasanaeth o Gymuned y Lluoedd Arfog dan gwmpas y Ddyletswydd. Efallai y bydd cyrff yn awyddus i ddefnyddio eu profiad a'u hymarfer wrth gydymffurfio â dyletswyddau sylw priodol tebyg.

1.15. Bydd cadw cofnodion ysgrifenedig o'r ffordd y mae penderfyniadau a pholisïau allweddol wedi'u llunio, ac yn nodi'r ffactorau a ystyriwyd ym mhob penderfyniad, yn helpu cyrff i arddangos eu bod wedi talu sylw priodol i egwyddorion y Cyfamod, os cânt eu herio.

1G. Rhwymedigaethau a Chyfaddawdau Unigryw

Sylw priodol i rwymedigaethau unigryw, a chyfaddawdau, y lluoedd arfog.

1.16. Mae bod yn rhan o'r Lluoedd Arfog yn cynnig heriau ac antur, gan roi llawer i rai sy'n gwasanaethu o ran sgiliau a phrofiad, yn ogystal â'r cyfle i amddiffyn a gwasanaethu eu gwlad. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gwneud hynny gyda sgiliau, yn weithgar iawn, ac ymagwedd gwydn at fywyd. Fodd bynnag, er mwyn ateb y

[6] Bu i Ddeddf Lluoedd Arfog 2021 fewnosod y pŵer hwn i adran 343AF(1) Deddf Lluoedd Arfog 2006.
[7] Bu i Ddeddf Lluoedd Arfog 2021 fewnosod y gofyniad hwn i adran 343AF(7) Deddf Lluoedd Arfog 2006.

galw sydd ar eu hysgwyddau, mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn wynebu rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw. Disgrifir rhai o'r rhain isod.

1.17. Mae aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn profi'r rhwymedigaethau a'r cyfaddawdau hyn i raddau amrywiol ac ar adegau gwahanol drwy gydol, ac mewn rhai achosion, ar ôl eu gyrfa yn y Lluoedd Arfog, gan y gall amgylchiadau personol amrywio.

1G1. Perygl

1.18. Gall aelodau presennol y Lluoedd Arfog fod yn agored i ystod helaeth o fygythiadau o drais, a bod yn agored i amgylcheddau sy'n anniogel yn gorfforol am resymau naturiol, dynol neu wleidyddol, gyda pherygl o farwolaeth, neu anaf byrdymor neu hirdymor i iechyd corfforol a/neu feddyliol. Er y gallai rhai anafiadau fod yn rhai dros dro, gall rhai eraill ddirwyn i ben gyrfaoedd neu newid bywydau yn barhaol. Hefyd, gall teulu'r unigolyn yn y Lluoedd Arfog ddioddef yn sylweddol mewn amgylchiadau o'r fath.

1G2. Symudedd Daearyddol

1.19. Mae angen i aelodau presennol y Lluoedd Arfog fod yn symudol iawn yn ddaearyddol ac yn barod i symud, yn dibynnu ar angen y Gwasanaeth. Weithiau mae hyn mewn ymateb i weithrediad milwrol byw. Mae llawer o symudiadau eraill yn rhai rheolaidd, ac yn adleoliadau rheolaidd ledled y wlad a'r byd er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol y Lluoedd Arfog. Yn yr achos hwn, yn aml mae aelodau'r teulu yn symud gyda'r unigolyn sy'n gwasanaethu. Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn y lluoedd arfog a'i deulu'n profi newid mawr i'w fywyd, a lleihad yn argaeledd strwythurau cymorth wrth iddynt symud oddi wrth teulu a ffrindiau ehangach. Mae'n debygol nad oes gan yr unigolyn ddewis o ran amseriad a lleoliad, ac weithiau bydd yn digwydd ar fyr rybudd. Mae'r gofyniad hwn i adleoli yn debygol o ddigwydd sawl gwaith yn ystod gyrfa Gwasanaeth, ac mae amlder symudiadau yn aml yn uwch i bobl yn y Fyddin o gymharu ag eraill.

1G3. Gwahanu

1.20. Mae'n bosibl y bydd aelodau presennol y Lluoedd Arfog yn gorfod treulio cyfnodau sylweddol o amser oddi wrth eu teuluoedd, am wythnosau neu fisoedd, er enghraifft, os bydd yn cael ei symud tramor ar weithrediadau. Mae'n golygu y bydd gofynion gweithredol yn golygu na fydd rhai aelodau'r Lluoedd Arfog (yn enwedig aelodau'r Llynges, megis tanforwyr) yn gallu cysylltu â'u teuluoedd am fisoedd, sy'n gwneud y broses o fod ar wahân yn anodd iawn. Neu, os oes angen i'r unigolyn symud o fewn y DU neu weithio dramor, efallai y bydd y teulu'n penderfynu aros gartref. Er bod hyn yn helpu'r teulu i fagu gwreiddiau a rhwydweithiau cymorth lleol - sy'n lleddfu rhai heriau - mae hefyd yn golygu y gall teuluoedd fod ar wahân ar sail hirdymor, neu yn ystod yr wythnos waith, oddi wrth yr unigolyn. Mae'r Ffederasiwn Teuluoedd Llyngesol wedi cyhoeddi rhagor o wybodaeth am effaith absenoldeb rhieni.

1G4. Cyfreithiau a Hawliau Gwasanaeth

1.21. Fel arfer, disgwylir i aelodau'r Lluoedd Arfog gyflawni isafswm tymor o wasanaeth. Ymhellach i hyn, mae parodrwydd gweithredol yn golygu fod angen i bersonél fod yn ddisgybledig ac yn drefnus tu hwnt. Yn hyn o beth, mae personél y Gwasanaeth yn dod yn amodol ar system ychwanegol o gyfreithiau (cyfreithiau Gwasanaeth). Mae hyn yn hanfodol

i sicrhau gweithrediad effeithiol y Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, mae'n golygu cyfaddawdau personol. Er enghraifft, ni all personél optio allan yn syml o symudiad os yw'n anghyfleus iddyn nhw. Gan fod angen iddynt wasanaethu cyfnodau ymgysylltiad penodol, mae'n rhaid cael caniatâd i adael yn gynnar, yn hytrach na chael hawl i roi rhybudd. Hefyd, ni chaniateir i aelodau'r Lluoedd Arfog fod yn weithredol yn wleidyddol, na streicio. Mae'r hawliau hyn ar gael i ran fwyaf y cyhoedd ehangach, ond nid i aelodau presennol y Lluoedd Arfog.

1G5. Bod yn anghyfarwydd â Bywyd Dinesig

1.22. Oherwydd gofynion Gwasanaeth, mae'r Lluoedd Arfog yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol, gan gynnwys llety, gofal iechyd, hyfforddiant, chwaraeon, dillad a thrafnidiaeth. Mae hefyd System Gyfiawnder Gwasanaeth ar wahân. Felly, ar ôl treulio cyfnodau hir o amser mewn amgylchedd Lluoedd Arfog, mae'n bosibl y bydd gan aelodau - a'u teuluoedd sydd wedi bod gyda nhw - ddiffyg gwybodaeth neu brofiad o fywyd dinesig. Efallai nad ydynt yn gwybod pa wasanaethau sydd ar gael iddyn nhw, neu sut i gael mynediad iddynt, neu synnwyr o ddatgysylltiad cyffredinol o ran cymdeithas ddinesig.

1G6. Oriau Gwaith

1.23. Nid yw personél y Lluoedd Arfog rheolaidd a'r Lluoedd Wrth Gefn gweithredol yn derbyn manteision llawn deddfwriaeth oriau gwaith. Mae gofyn iddynt fod ar gael ar gyfer gwaith 24 awr y dydd a 365 dydd y flwyddyn. Efallai y bydd angen iddynt weithio oriau hir neu anghymdeithasol. Ymhellach i hyn, efallai na fyddant yn gallu manteisio ar eu hawl lawn i gael gwyliau, neu efallai y bydd gwyliau wedi'i drefnu ymlaen llaw yn cael ei ganslo ar fyr rybudd.

1G7. Straen

1.24. Mae'n bosibl y bydd aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn profi straen o ganlyniad i rwymedigaethau a chyfaddawdau eraill bywyd Gwasanaeth. I bersonél y Lluoedd Arfog, gall hyn fod yn waeth oherwydd pwysau'r gwaith ei hun, gan gynnwys gorfod cyflawni gweithrediadau mewn ystod o amgylcheddau anghyfarwydd, peryglus neu sy'n peri straen, a phwysigrwydd y gwaith o ran amddiffyn eu gwlad. Gall cael eu trefnu tramor fod yn anodd ar aelodau'r teulu, a all brofi teimladau megis unigrwydd neu bryder am ddiogelwch anwyliaid pan fyddant dramor. Mae'n bosibl y bydd teuluoedd hefyd yn profi'r baich o fod yn rhiant sengl pan fydd yr aelod o'r Lluoedd Arfog dramor. Hefyd, efallai y bydd angen i deuluoedd ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol yn achos anaf neu brofedigaeth. Mae'n bosibl y bydd aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dioddef yn dawel, ac yn ceisio ymdopi â phethau ar eu pennau eu hunain, oherwydd teimladau o stigma am siarad allan, neu gred na fydd pobl y tu allan i'r Lluoedd Arfog yn deall eu profiadau.

1H. Dileu Anfanteision

Sylw priodol i'r egwyddor ei bod hi'n ddymunol dileu anfanteision y mae pobl Gwasanaeth yn eu profi oherwydd aelodaeth, neu gyn-aelodaeth, o'r Lluoedd Arfog.

1.25. Anfantais yw pan fo lefel mynediad aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog i nwyddau a gwasanaethau, neu'r gefnogaeth y mae'n ei derbyn, yn gymharol is na rhywun mewn sefyllfa debyg nad sy'n aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog, a phan fo'r gwahaniaeth hwn yn

deillio o un (neu fwy) o rwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw bywyd yn y Lluoedd Arfog.[8]

1.26. Mae'r egwyddor hon yn nodi ei bod hi'n ddymunol dileu pob anfantais o'r fath i bob aelod o Gymuned y Lluoedd Arfog o fewn cwmpas y Ddyletswydd (wedi'i ddiffinio yn adran 1J). Fodd bynnag, ni ddylid cymryd yn ganiataol fod pawb ynghlwm wrth Gymuned y Lluoedd Arfog yn profi anfanteision oherwydd bywyd Gwasanaeth. Roedd ymchwil a gomisiynwyr gan yr Ymddiriedolaeth Forces in Mind a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn cynnwys arolwg o Gymuned y Lluoedd Arfog. Daeth yr arolwg i'r casgliad fod 38% o ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi profi anfantais o leiaf unwaith o ganlyniad y fywyd Gwasanaeth, sy'n awgrymu bod llawer yn teimlo i'r gwrthwyneb. Mae rhai aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn fwy tebygol o brofi anfantais nag eraill. Er enghraifft, mae'n bosibl fod aelodau presennol a'u teuluoedd, oherwydd eu symudedd daearyddol uwch, yn fwy tebygol o brofi anfanteision perthnasol na chyn-filwyr sydd wedi setlo yn eu cymunedau.

1.27. Mae'r penodau canlynol yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y gall Cymuned y Lluoedd Arfog brofi anfanteision ym meysydd gofal iechyd (pennod 2), addysg (pennod 3), a thai (pennod 4). Nodir y rhwymedigaethau a'r cyfaddawdau unigryw sydd ynghlwm wrth fywyd Gwasanaeth sy'n sail i bob anfantais. Ers 2011, pan sefydlwyd y Cyfamod ar ei ffurf bresennol, mae llawer o enghreifftiau o arfer gorau i ddileu, lleddfu neu atal achosion o anfantais rhag digwydd. Disgrifir rhai o'r astudiaethau achos hyn yn y penodau gofal iechyd, addysg, a thai. Nid yw'r astudiaethau achos hyn yn awgrymu camau gweithredu sy'n rhaid eu cymryd, ond maent wedi'u cynnwys er mwyn darparu enghreifftiau a syniadau o'r math o ymddygiad a chamau gweithredu sydd wedi arwain at brofiadau gwell i Gymuned y Lluoedd Arfog.

1I. Darpariaeth Arbennig

Sylw priodol i'r egwyddor y gellid cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl Gwasanaeth oherwydd yr effeithiau ar bobl o'r fath oherwydd aelodaeth, neu gyn-aelodaeth, o'r lluoedd arfog.

1.28. Golyga darpariaeth arbennig rhoi camau gweithredu ar waith sy'n mynd y tu hwnt i'r gefnogaeth a ddarperir i leihau neu dileu anfantais. Camau gweithredu yw'r rhain sy'n arwain at ddarparu rhywbeth pwrpasol, neu rywbeth nad yw fel arfer ar gael i'r cyhoedd a Chymuned y Lluoedd Arfog.

1.29. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl cyfiawnhau darpariaeth arbennig oherwydd effeithiau rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw bywyd Gwasanaeth, yn arbennig ar gyfer y rhai sydd wedi cyfaddawdu fwyaf, megis y rhai mewn profedigaeth a'r rhai sydd wedi'u hanafu (waeth os yw'r anaf yn un corfforol neu feddyliol). Mae hyn yn groes i'r egwyddor flaenorol â'r nod o ddileu anfanteision, sydd er budd Cymuned y Lluoedd Arfog yn ei chyfanrwydd. Mae hyn oherwydd nid yw'r Cyfamod Lluoedd Arfog yn ymwneud â rhoi triniaeth freintiedig i Gymuned y Lluoedd Arfog fel mater o gwrs (gweler adran 1K).

[8] Sylwch nad oes rhaid i'r anfanteision fod wedi'u profi'n unigryw gan y Lluoedd Arfog i fod yn rhan o'r cwmpas. Er enghraifft, mae rhai plant nad ydynt yn rhan o'r Lluoedd Arfog hefyd yn symud yn ystod y flwyddyn ysgol.

1.30. Mae ffyrdd gwahanol o gynnig darpariaeth arbennig, lle bo'n briodol, gan gynnwys y canlynol.

a. Gweithredu datrysiad pwrpasol i leddfu anfantais sydd wedi'i nodi, er budd grŵp neu unigolyn sydd wedi cyfaddawdu fwyaf, lle mae'r datrysiad yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddarperir i'r cyhoedd yn gyffredinol a rhan fwyaf o aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog.
b. Cynnig rhywbeth ychwanegol i grwp neu unigolyn yng Nghymuned y Lluoedd Arfog sydd wedi cyfaddawdu fwyaf, nid er mwyn lleddfu'n uniongyrchol anfantais wedi'i nodi, ond i gydnabod yn gyffredinol Gwasanaeth penodol gyfaddawdol i'r wlad. Enghraifft o hyn yw'r Fframwaith Integredig Comisiynu Personol ar gyfer Cyn-filwyr, a ddisgrifir yn adran 2C7.
c. Pennu polisïau neu weithdrefnau gwahanol, er budd grwp neu unigolyn yng Nghymuned y Lluoedd Arfog sydd wedi cyfaddawdu fwyaf. Enghraifft o hyn yw'r ymrwymiad triniaeth â blaenoriaeth a ddisgrifir yn adran 2C1.

1J. Cymuned y Lluoedd Arfog

1.31. Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i'r aelodau canlynol o Gymuned y Lluoedd Arfog, sydd at ei gilydd yn cael eu diffinio yn y Ddeddf fel 'Pobl gwasanaeth':[9]

a. aelodau'r lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn;
b. aelodau o luoedd tiriogaethau tramor Prydain y mae cyfreithiau Gwasanaeth yn berthnasol iddynt;
c. cyn-aelodau o unrhyw un o luoedd Ei Fawrhydi sy'n byw yn y DU fel arfer; ac,
d. aelodau perthnasol o'r teulu [rhai yn (a) i (c) uchod].

1.32. Felly, dyma'r grwpiau o bobl y mae'n rhaid eu hystyried wrth gydymffurfio â'r Ddyletswydd. Disgrifir y pedwar o grwpiau hyn isod. Defnyddir y term 'Cymuned y Lluoedd Arfog' yn fwy aml na 'Phobl gwasanaeth' yng nghyd-destun y Cyfamod. Felly, mae'r Canllaw hwn yn defnyddio'r term 'Cymuned y Lluoedd Arfog', neu 'y Gymuned' i olygu'r pedwar grwp o bobl. Sylwch, gallai'r swyddogaethau a gynhelir gan gyrff penodedig effeithio'r Gymuned yn ei chyfanrwydd, neu grwpiau neu aelodau unigol ohoni.

1J1. Aelodau'r lluoedd rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn

1.33. Dan y Ddeddf, y 'lluoedd rheolaidd' yw'r Llynges Frenhinol, Môr-filwyr Brenhinol, y Fyddin rheolaidd a'r Llu Awyr Brenhinol. Felly, mae'r gwrp hwn yn cynnwys pob aelod presennol y lluoedd hyn. Gall dinasyddion rhai gwledydd eraill ymuno â'r lluoedd hyn, ac maen nhw wedi'u cynnwys yn y grwp.

1.34. Mae'r grwp hwn hefyd yn cynnwys pob aelod presennol o un o'r lluoedd wrth gefn gwirfoddol (Llynges Brenhinol Wrth Gefn, Môr-filwyr Brenhinol Wrth Gefn, y Fyddin Wrth Gefn a'r Llu Awyr Brenhinol Ategol) neu'r lluoedd wrth gefn rheolaidd gynt. Mae'r lluoedd wrth gefn gwirfoddol yn bennaf yn cynnwys unigolion â swyddi dinesig, sy'n gwirfoddoli i fod yn aelod wrth gefn, sy'n cynnwys hyfforddi gyda'r nosau ac ar benwythnosau, a mewn gwersylloedd hyfforddiant blynyddol. Mae'r lluoedd wrth gefn rheolaidd gynt yn cynnwys cyn-aelodau'r lluoedd arferol, sydd â swyddi dinesig ond sydd angen bod yn aelod o lu wrth gefn am gyfnod penodol, ac sydd o bosibl yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant i gynnal neu

[9] Diffinnir y pedwar grwp uchod at ei gilydd yn 'Bobl gwasanaeth' yn adran 343B(1) o Ddeddf Lluoedd Arfog 2006 at ddibenion Rhan 16A o'r Ddeddf honno (Cyfamod y Lluoedd Arfog).

addasu eu sgiliau. Mae aelodau wrth gefn yn agored i gael eu dadleoli ar sail orfodol am gyfnodau penodol o wasanaeth llawn amser. Mewn achosion o'r fath, gallent gael eu lleoli yn yr un ffordd ag aelodau arferol; yn ymarferol, mae aelodau wrth gefn yn cael eu dewis i gael eu lleoli os ydynt wedi cytuno i hyn ymlaen llaw. Mae aelodau wrth gefn yn cyflawni gwasanaeth gweithredol ochr yn ochr ag aelodau rheolaidd, fel arfer pan fyddant yn gwasanaethu dan fathau penodol o ymrwymiad, neu os ydynt wedi'u lleoli.

1.35. Mae'r Canllaw hwn yn defnyddio'r termau 'Lluoedd Arfog y DU', 'Person gwasanaeth' neu 'Personél gwasanaeth' i ddisgrifio pobl yn y grwp hwn. Felly, sylwch fod y term 'personél gwasanaeth' yn golygu rhywbeth gwahanol i 'Bobl gwasanaeth'. Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i bobl yn y grwp hwn ble bynnag y maent wedi'u lleoli - yn y DU neu dramor. Mae hyn yn wahanol i gyn-filwyr y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt os ydynt fel arfer yn byw yn y DU (gweler adran 1J3).

1J2. Aelodau o Luoedd Tiriogaethau Tramor Prydeinig y mae cyfreithiau Gwasanaeth yn berthnasol iddynt

1.36. Mae 'Llu Tiriogaeth Tramor Prydeinig' yn 'unrhyw un o luoedd Ei Fawrhydi a drefnir dan gyfraith Tiriogaeth Tramor Prydeinig'.[10] Felly, mae'r grwp hwn yn cynnwys **aelodau presennol Lluoedd Arfog Tiriogaethau Tramor Prydain**. Er enghraifft, aelod o Gatrawd Brenhinol Bermuda neu Lu Amddiffyn Montserrat Brenhinol. Nid yw pobl yn y grwp hwn yn aelodau o Luoedd Arfog y DU. Hefyd, ni ddylent eu drysu nhw â Lluoedd Prydeinig Tramor, sy'n aelodau o Luoedd Arfog y DU sydd wedi'u lleoli mewn gwledydd eraill.

1.37. Mae pobl yn y grwp hwn dan gwmpas y Ddyletswydd pan **fo cyfraith Gwasanaeth y DU yn berthnasol iddynt**. Mae hyn yn berthnasol pan fyddant 'yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd gyda llu rheolaidd neu wrth gefn [y DU], neu ar hyfforddiant gyda nhw'.[11] Weithiau, bydd aelod o Lu Tiriogaeth Tramor Prydeinig yn cael ei leoli yn y DU am gyfnod o amser, er enghraifft, er mwyn cynnal hyfforddiant â Lluoedd Arfog y DU. Efallai y bydd aelodau o'u teuluoedd hefyd yn dod gyda nhw, yn dibynnu ar hyd y lleoliad. Mae Lluoedd Arfog y DU yn gofalu am bersonél Tiriogaethau Tramor Prydeinig pan fyddant yn y DU.

1.38. Er mai prin iawn y bydd cyrff penodedig yn y DU yn dod ar draws personél fel hyn, dylai cyrff penodedig ystyried Lluoedd Tiriogaethau Tramor Prydeinig y mae cyfreithiau Gwasanaeth yn berthnasol iddynt yn rhan o Gymuned y Lluoedd Arfog o ran y Ddyletswydd Cyfamod.

1J3. Cyn-aelodau o luoedd Ei Fawrhydi sydd fel arfer yn byw yn y DU

1.39. Dan y Ddeddf, mae 'lluoedd Ei Fawrhydi' yn golygu'r lluoedd rheolaidd ac wrth gefn yn y DU a Lluoedd Arfog Tiriogaethau Tramor Prydeinig. Felly, yn y grwp hwn mae: **cyn-aelodau lluoedd rheolaidd ac wrth gefn y DU**, hynny yw, cyn-aelodau o'r lluoedd a restrir dan adran 1J1. Sylwch fod hyn yn cynnwys y rhai a wnaeth wasanaethu yn rhan o Luoedd Arfog y DU yn rhan o Orfodaeth Filwrol a Gwasanaeth Cenedlaethol; a **chyn-aelodau Lluoedd Arfog Tiriogaethau Tramor Prydeinig**. Mae cyn-aelod o unrhyw rai o'r lluoedd hyn yn rhywun sydd wedi gwasanaethu am o leiaf diwrnod. Nid yw'r term 'lluoedd Ei

[10] Adran 343B(4) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006
[11] Adran 369 o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006

Fawrhydi', fel y'i defnyddir yn y Ddeddf, yn cynnwys Lluoedd Arfog unrhyw rai o wledydd eraill y Gymanwlad neu grwpiau ehangach megis y Llynges Fasnachol. Felly, nid yw cyn-aelodau o'r grwpiau hyn yn dod o dan cwmpas y Ddyletswydd. (Er hyn, gellid ystyried rhai dan y Cyfamod ehangach, gweler adran 1J5.)

1.40. Mae'r Ddyletswydd hon yn berthnasol i bobl yn y grwp uchod os ydyn nhw **fel arfer yn byw yn y DU**. Nid yw'r Ddeddf yn darparu gwybodaeth bellach o ran diffiniad 'fel arfer yn byw yn y DU'.

1.41. Mae'r unigolion hyn hefyd yn cael eu hadnabod yn 'gyn-filwyr' neu 'gyn-bersonél y Lluoedd Arfog', ac mae'r Canllaw hwn yn defnyddio'r term 'cyn-filwyr' ar gyfer y grwp hwn. Roedd astudiaeth yn 2017 yn amcangyfrif fod 2.4 miliwn o gyn-filwyr ym Mhrydain Fawr, sy'n cynrychioli amcangyfrif o 5% o breswylwyr aelwydydd 16+ oed,[12] bod cyn-filwyr yn wrywaidd yn bennaf (89%) a/neu 65+ oed (60%), er bod y rhinweddau hyn yn newid wrth i'r boblogaeth gyn-filwyr ddod yn ieuengach ac yn fwy amrywiol.

1.42. Mae llawer o resymau pam y gallai rhywun adael y Lluoedd Arfog, megis contract yn dod i ben, diswyddo, rhesymau meddygol a thosturiol, a chamymddwyn. Ni waeth y rheswm, mae pob cyn-filwr yn elwa ar y Ddyletswydd Cyfamod.

1J4. Aelodau perthnasol o'r teulu

1.43. At ddibenion y Ddyletswydd, mae diffiniad 'aelodau perthnasol o'r teulu' wedi'i nodi yn Rheoliadau'r Lluoedd Arfog (Cyfamod) 2022.[13] Sylwch, mewn mannau eraill yn y Canllaw hwn, defnyddir y term 'Teuluoedd gwasanaeth' er mwyn ei gwneud hi'n haws cyfeirio atynt, felly, mae cyfeiriadau at deuluoedd Gwasanaeth yn gyfeiriadau at 'aelodau perthnasol o'r teulu'.

1.44. Mae bywyd gwasanaeth yn bennaf yn effeithio ar aelodau'r teulu o ganlyniad i fod yn byw gyda, neu ddibyniaeth ar, aelod neu gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog. Y cysylltiad hwn felly yw sail y diffiniad. Gall swyddogaethau a gynhelir gan gyrff penodedig effeithio ar grwpiau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n bosibl y bydd gan rai swyddogaethau y potensial i effeithio ar rai categorïau o aelodau'r teulu yn fwy nag eraill neu ddim o gwbl.

1.45. Mae'r bobl ganlynol yn cael eu diffinio yn y Rheoliadau fel aelodau perthnasol o'r teulu. Maen nhw'n aelodau o deulu y bobl yn y tri grwp arall o ran y Ddyletswydd, a defnyddir y term 'Aelodau'r gwasanaeth' ar gyfer pawb yn y grwpiau eraill hyn.[14] Hynny yw, **'aelodau gwasanaeth' yw'r aelodau presennol (personél sy'n gwasanaethu) a ddisgrifir yn adran 1J1 ac adran 1J2, a'r cyn-aelodau (cyn-filwyr) a ddisgrifir yn adran 1J3**. Mae cyfeiriadau isod at aelodau gwasanaeth yn cynnwys cyfeiriadau at gyn-aelodau Gwasanaeth.

a. **Partneriaid:** Mae hyn yn cynnwys gwyr/gwragedd presennol a chynt aelodau Gwasanaeth, ac unrhyw berson y mae ei berthynas ag aelod Gwasanaeth, neu yr

[12] Mae'r cyfrifiadau yn Lloegr, Cymru a'r Alban bellach yn gofyn i ymatebwyr os ydyn nhw wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU o'r blaen. Bydd y data hwn yn hwyluso dealltwriaeth fwy cywir o faint a dosraniad y poblogaethau cyn-filwyr yn Lloegr, Cymru a'r Alban.
[13] Cyflwynir Rheoliadau'r Lluoedd Arfog (Cyfamod) 2022 dan adran 343B(4) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006.
[14] Dyma'r term a ddefnyddir ar gyfer y tri grŵp hwn dan y Rheoliadau ac yn Adran 343B(4) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006.

oedd ei berthynas ag aelod Gwasanaeth 'yn debyg i berthynas rhwng gwyr/gwragedd a phartneriaid sifil', megis cwpl yn byw gyda'i gilydd mewn perthynas bwysig. Dylid cofio y gallai fod angen i aelodau Gwasanaeth fyw oddi wrth eu partner ar leoliad am gyfnod sylweddol o amser (gwelwer adran 1G), ond ni ddylid ystyried hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar berthynas o'r fath. Mae'r grwp hwn yn cynnwys cyn-bartneriaid, oherwydd mae'n bosibl y byddan nhwythau yn dal i deimlo effaith bywyd Gwasanaeth yn dilyn perthynas yn chwalu rhyngon nhw ac aelod Gwasanaeth, yn enwedig os oes ganddynt blant. Mae cynnwys cyn-bartneriaid yn sicrhau y gallent gael ystyriaeth briodol wrth iddynt ddod yn annibynnol o'r aelod Gwasanaeth, er enghraifft, i ystyried adleoliad cyntaf y cyn-bartner ar ôl diwedd y berthynas. Mae'r Canllaw hwn yn defnyddio'r term 'Partneriaid gwasanaeth' ar gyfer y grwp hwn.

b. **Plant:** Mae hyn yn cynnwys plant (gan gynnwys plant wedi'u mabwysiadu) dan 18 oed sy'n blant i aelodau Gwasanaeth neu bartneriaid gwasanaeth, ac unrhyw blant eraill dan 18 oed sydd fel arall yn gyfrifoldeb i'r aelodau Gwasanaeth neu bartneriaid Gwasanaeth. Mae plentyn yn gyfrifoldeb i aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth os oes gan yr aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth gyfrifoldeb rhiantu dros y plentyn, os yw'r plentyn yn llwyr neu'n bennaf ariannol ddibynnol ar yr aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth, neu os yw'r plentyn yn rhywun y mae'r aelod Gwasanaeth neu'r partner Gwasanaeth wedi meithrin cyfrifoldebau gofalu rheolaidd a sylweddol ar ei gyfer (megis plentyn maeth). Mae'r Canllaw hwn yn defnyddio'r term 'Plant gwasanaeth' ar gyfer y grwp hwn.

   Er y gallai effeithiau bywyd Gwasanaeth ar blant aelodau presennol o'r Lluoedd Arfog fod yn haws eu nodi, mae plant cyn-filwyr wedi'u cynnwys hefyd, gan y gallent brofi anfanteision yn deillio o fywyd Gwasanaeth ar ôl i'w rhiant/rhieni adael y Gwasanaeth. Gallai hyn fod yn anfantais sy'n parhau, a brofwyd gyntaf tra roedd eu rhiant/rhieni yn y Gwasanaeth, neu'n anfantais newydd a brofir oherwydd y teulu'n adsefydlu o'r Lluoedd Arfog i fywyd dinesig.

   Sylwch, er bod pob plentyn Gwasanaeth dan 18 oed yn dod o dan ddiffiniad aelod perthnasol o'r teulu drwy'r categori 'Plant' hwn, ar ôl troi'n 18 oed, byddant yn parhau i fodloni diffiniad aelod perthnasol o'r teulu fel 'Perthynas' os ydyn nhw'n bodloni unrhyw rai o dri o feini prawf y categori hwnnw (i)-(iii) (hynny yw, os oes ganddynt ddibyniaeth ar yr aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth).

c. **Perthnasoedd:** Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd (gan gynnwys drwy fabwysiadu) aelodau Gwasanaeth neu bartneriaid Gwasanaeth sy'n:
   (i) **byw yn yr un aelwyd** â'r aelod Gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen i aelodau Gwasanaeth fyw yn rhywle arall ar sail dros dro, naill ai am gyfnod penodol o amser neu yn ystod yr wythnos waith, oherwydd lleoliadau neu ddadleoliadau (gweler adran 1G). Mewn achosion o'r fath, lle byddai'r perthynas fel arall yn byw gyda'r aelod Gwasanaeth (ond am y ffaith fod yr aelod Gwasanaeth i ffwrdd am resymau Gwasanaeth) maen nhw'n dal i gael eu hystyried yn aelod o aelwyd yr aelod Gwasanaeth; neu
   (ii) **yn llwyr neu'n bennaf ddibynnol yn ariannol** ar yr aelod Gwasanaeth neu'r partner Gwasanaeth; neu

(iii) rywun y mae'r aelod Gwasanaeth neu'r partner Gwasanaeth **wedi meithrin cyfrifoldebau gofalu rheolaidd a sylweddol ar ei gyfer**, megis y rhai ag anghenion ychwanegol a fyddai fel arall yn methu â gofalu am eu hunain.

Mae'r term 'perthynas' yn golygu:
(a) rhiant, llys-riant, mab, merch, llysfab, llysferch, nain/taid, llys-nain/taid, hen nain/daid, llys-hen nain/daid, wyrion, llys-wyrion, hen-wyrion, neu lys-hen-wyrion;
(b) brawd, chwaer, ewythr, hen ewythr, modryb, hen fodryb, nith, hen-nith, nai, hen-nai neu gefnder cyntaf (waeth os yw'n berthynas llawn neu hanner, neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil);
(c) unrhyw unigolyn o leiaf 18 oed a oedd yn gyfrifoldeb i'r aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth fel plentyn. Mae bod yn gyfrifoldeb aelod Gwasanaeth neu bartner Gwasanaeth yn golygu'r un peth â'r categori 'Plant' uchod. Mae hyn yn sicrhau y bydd y grwp yn parhau i fod aelodau teulu perthnasol pan fyddant yn oedolion lle mae lefel o ddibyniaeth.

d. **Aelodau o'r teulu mewn profedigaeth:** Pan fydd aelod Gwasanaeth wedi marw, mae hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn a oedd yn aelod teulu perthnasol dan un o'r categorïau uchod ar unwaith cyn marwolaeth yr aelod Gwasanaeth.

1J5. Grwpiau nad yw'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt

1.46. At ddibenion y Ddyletswydd, mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn cynnwys y pedwar grwp uchod yn unig. Ar gyfer materion Cyfamod nad ydynt yn rhan o'r Ddyletswydd hon, mae'n bosibl y bydd Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael ei diffinio'n ehangach. Felly, yn ysbryd y Cyfamod, er nad oes angen iddynt wneud oherwydd y Ddyletswydd, mae'n bosibl y bydd cyrff penodedig hefyd yn awyddus i ystyried anghenion yr unigolion yn y grwpiau ehangach hyn os yw'r amgylchiadau unigol yn caniatáu. Mae aelodau'r Llynges Fasnachol wedi'u cynnwys yn y grwpiau hyn, sydd wedi gwasanaethu ar weithrediadau milwrol diffiniedig, ac aelodau'r teulu ehangach nad ydynt yn dod o dan ddiffiniad 'aelodau perthnasol o'r teulu' uchod.

1.47. Nid yw rhai grwpiau'n dod o dan cwmpas y Ddyletswydd na'r Cyfamod ehangach. Nid yw Lluoedd Arfog gwledydd eraill, megis gwledydd NATO a'r Gymanwlad, yn dod o dan cwmpas y Ddyletswydd na'r Cyfamod ehangach (yr unig wledydd eraill sy'n berthnasol yw Tiriogaethau Tramor Prydeinig).. Hefyd, nid yw Cadetiaid a Gwirfoddolwyr sy'n Oedolion mewn Lluoedd Cadetiaid yn aelodau o Luoedd Arfog y DU, ac nid ydynt yn dod o dan cwmpas y Ddyletswydd na'r Cyfamod ehangach.

1K. Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog: Beth nad yw

1.48. Nid yw'r Ddyletswydd Cyfamod yn rhagnodol o ran y dull y dylai corff penodedig ei roi ar waith er mwyn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol. Hefyd, nid yw'n nodi fod angen dod i unrhyw gasgliadau penodol neu gyflawni deilliannau cyflawni gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i'r ystyriaeth honno. Bydd y camau gweithredu a'r deilliannau y mae cyrff yn eu hystyried yn briodol yn amrywio ledled y wlad yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

1.49. Nid yw'r Ddyletswydd Cyfamod yn dirymu na'n disodli addewidion Cyfamod presennol nac ymrwymiadau eraill. Bydd cyrff cyhoeddus a phreifat yn dal i gael eu hannog

i anrhydeddu'r rhain. Yn debyg i hyn, bydd yr addewid Cyfamod yn parhau ar agor i gyrff newydd gofrestru ar ei gyfer, os hoffent wneud hynny, gan fod materion yng nghwmpas y Cyfamod ehangach nad ydynt yn rhan o'r Ddyletswydd cyfreithiol, gan gynnwys yr hyn a ganlyn.

a. Mae'r Ddyletswydd ond yn berthnasol i swyddogaethau penodol ym maes gofal iechyd, addysg a thai. Nid yw swyddogaethau eraill yn y tri o feysydd hyn, a swyddogaethau mewn meysydd eraill nad ydynt yn berthnasol yn rhan o gwmpas y Ddyletswydd, er y gallai fod yn berthnasol i'r Cyfamod ehangach.
b. Mae'r Ddyletswydd ond yn berthnasol i gyrff penodedig. Felly, mae llawer o sefydliadau sydd wedi llofnodi'r addewid Cyfamod ehangach y tu hwnt i gwmpas y Ddyletswydd gyfreithiol.
c. Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol i grwpiau penodol yng Nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n bosibl y bydd grwpiau eraill yn y Gymuned wedi'u cynnwys o ran dibenion y Cyfamod ehangach.

1.50. Nid yw rhai materion sydd ynghlwm wrth Gymuned y Lluoedd Arfog yn berthnasol i'r Cyfamod, ac felly ni allant fod o dan cwmpas y Ddyletswydd. Diben y Cyfamod yw mynd i'r afael â phrofiadau negyddol Cymuned y Lluoedd Arfog, yn deillio o fywyd Gwasanaeth, yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus a masnachol. Nid yw llawer o faterion sy'n effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog yn rhan o'r categori hwn.

1.51. Nid yw'r Ddyletswydd Cyfamod yn disodli na'n dirymu unrhyw ofyniad statudol arall. Mae'n rhaid i'r rhai y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt gydbwyso gofynion y Ddyletswydd gyda'r angen i gyflawni gwasanaethau yn fwy cyffredinol, a'r angen i fodloni unrhyw ofynion statudol eraill, megis Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn Lloegr, yr Alban a Chymru, neu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau cyhoeddus ynghylch cyfle cyfartal yn a. 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

1.52. Nid yw triniaeth freintiedig fel mater o gwrs yn dod o dan cwmpas y Ddyletswydd, megis cynnig gostyngiadau i bawb drwy'r Gwasanaeth Disgowntiau Amddiffyn, neu i grwp eang drwy'r Cerdyn Rheilffyrdd i Gyn-filwyr. Fodd bynnag, mae cyrff yn gallu gweithredu cynlluniau o'r fath yn rhan o'u cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog. Yn debyg iawn, nid yw'r Ddyletswydd yn rhoi hawl awtomataidd i unrhyw unigolyn gael y tŷ gorau, yr ysgol orau, neu symud i'r tu blaen mewn ciw. Fodd bynnag, weithiau gellid darpariaeth arbennig (gweler adran 1I).

2. Gofal iechyd

Crynodeb

2.1. Rhennir y ddarpariaeth o ofal iechyd i bersonél Gwasanaeth amser llawn rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GIG. Fel arfer, mae milwyr wrth gefn, cyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth yn derbyn gofal iechyd drwy'r GIG, ac mae gan gyn-filwyr fynediad i rai gwasanaethau cymorth ymroddgar a phwrpasol (adran 2A). Yn bennaf, mae gan Gymuned y Lluoedd Arfog lefelau tebyg o iechyd i'r boblogaeth gyffredinol, er bod gan rai cyn-filwyr anghenion gofal iechyd penodol yn deillio o'r Gwasanaeth. Mae'n debygol y bydd anfanteision yn deillio o rwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw bywyd Gwasanaeth yn cael eu profi gan deuluoedd Gwasanaeth a chyn-filwyr. Maen nhw'n cynnwys yr hyn a ganlyn.

a. **Heriau o ran cael mynediad i ofal iechyd, neu'r math cywir o ofal iechyd.** Efallai y bydd teuluoedd gwasanaeth a chyn-filwyr yn ei chael hi'n anoddach na chleifion nad ydynt yn rhai Gwasanaeth i gael mynediad i'r gofal iechyd sydd ei angen arnynt, os:
   (1) oes diffyg ymwybyddiaeth ymysg cyrff gofal iechyd o gyfansoddiad Gymuned y Lluoedd Arfog Lleol a'u hanghenion gofal iechyd (adran 2B1);
   (2) nid yw gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gwybod pa rai o'u cleifion sy'n gyn-filwyr (adran 2B2);
   (3) nid yw gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn deall yn llawn, na'n cael profiad o drin, cyflyrau iechyd yn deillio o'r Gwasanaeth (adran 2B3);
   (4) nid yw gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir ar gyfer cyn-filwyr gan y GIG, awdurdodau lleol a'r trydydd sector (adran 2B3);
   (5) mae teuluoedd Gwasanaeth yn adleoli am resymau Gwasanaeth ac yn colli mynediad i wasanaethau a dderbyniwyd yn y lleoliad blaenorol (adran 2C5);
   (6) mae teuluoedd Gwasanaeth yn adleoli am resymau Gwasanaeth ac yn profi diffyg gwybodaeth am y gofal iechyd a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt yn eu hardal leol newydd (adran 2C5); neu
   (7) mae teuluoedd Gwasanaeth yn adleoli am resymau Gwasanaeth ac yn colli mynediad i weithwyr proffesiynol gofal iechyd yr oedd ganddynt berthynas dda â nhw, ac sydd â phrofiad o'u trin ac yn deall eu hanghenion gofal iechyd unigol (adran 2C6).

b. **Oedi o ran derbyn triniaeth.** Efallai y bydd angen i deuluoedd Gwasanaeth aros am gyfnodau sylweddol hirach am driniaeth os oes angen iddynt adleoli am resymau Gwasanaeth, ac:
   (1) ar ôl treulio cyfnod sylweddol o amser ar restr aros yn eu lleoliad blaenorol, maen nhw'n cael eu rhoi ar ddiwedd rhestr aros yn eu lleoliad newydd (adran 2C2);
   (2) mae'n rhaid iddynt ymuno â rhestr aros i barhau â thriniaeth yr oeddent wedi'i dechrau yn y lleoliad blaenorol (adran 2C3);
   (3) mae gweithwyr proffesiynol iechyd yn y lleoliad newydd yn penderfynu cynnal ail-asesiad (adran 2C4);
   (4) mae oedi o ran cymorth i blant Gwasanaeth ag anghenion ychwanegol (adrannau 2C4 a 3H);
   (5) mae diffyg eglurder o ran pa drefniadau cyllid sy'n berthnasol mewn lleoliad newydd (adran 2D); neu
   (6) mae gwybodaeth annigonol wedi'i rhannu rhwng systemau iechyd a staff gofal iechyd, neu oedi wrth rannu gwybodaeth (adran 2E).

2A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau gofal iechyd cyhoeddus

2.2. Rhennir y cyfrifoldeb am ofal iechyd **personél Gwasanaeth llawn amser** rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r GOG. Mae Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn MOD yn darparu ystod o wasanaethau gofal iechyd i bersonél Gwasanaeth yn y DU a thramor, gan gynnwys gofal sylfaenol a gofal iechyd meddwl. Mae gofal eilradd megis atgyfeiriadau arbennig, derbyniadau i ysbyty a gofal brys fel arfer yn cael ei ddarparu gan y GIG.[15]

2.3. Yn bennaf, mae **cyn-filwyr** yn derbyn eu gwasanaethau gofal iechyd gan y GIG, a hefyd yn cael mynediad i rai gwasanaethau cymorth penodol a phwrpasol. Mae gan y rhan fwyaf o gyn-filwyr lefelau iechyd tebyg i'r boblogaeth gyffredinol, ond mae lleiafrif bach angen gofal parhaus oherwydd effeithiau Gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd gan cyn-filwyr ofynion gofal iechyd yn deillio o Wasanaeth, neu efallai fod ganddynt faterion iechyd oedd yn bodoli eisoes, a gafodd eu gwaethygu gan Wasanaeth.

2.4. Bydd **milwyr wrth gefn** a gaiff eu trefnu ar gyfer cyfnod o Wasanaeth llawn amser yn derbyn cyngor a gofal iechyd galwedigaethol gan Wasanaethau Meddygol Amddiffyn. Pan na fyddant yn cyflawni Gwasanaeth llawn amser, y GIG sy'n bennaf gyfrifol am eu hanghenion gofal iechyd.

2.5. Fel arfer, mae **teuluoedd Gwasanaeth** yn derbyn gofal iechyd drwy'r GIG yn yr un ffordd â theuluoedd nad ydynt yn rhai Gwasanaeth, er y gallent weithiau dderbyn gofal gan y Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn. Felly, mae teuluoedd Gwasanaeth sy'n byw ac yn symud gyda'r unigolyn Gwasanaeth fel arfer angen cofrestru gyda meddyg teulu'r GIG, a chael triniaeth gan ddeintydd, ym mhob lleoliad.

2.6. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y gall Cymuned y Lluoedd Arfog brofi anfantais ym meysydd gofal iechyd. Nid yw' materion a ddisgrifir yn rhestr gynhwysfawr, gan y gallai problemau eraill ddod i'r amlwg am resymau amrywiol.

2.7. Rydym wedi cynnwys astudiaethau achos mewn bocsys testun fel ffordd ddefnyddiol o ddangos rhai o'r ffyrdd y mae cyrff wedi helpu lleddfu'r anfanteision hyn neu, lle bo'n briodol, wedi cynnig darpariaeth arbenigol. **Nid yw'r astudiaethau hyn yn nodi camau gweithredu gorfodol,** ond maent wedi'u cynnwys i roi enghreifftiau a syniadau o'r math o ymddygiad a chamau gweithredu sydd wedi arwain at brofiad gwell i Gymuned y Lluoedd Arfog, ac a allai cyrff fod eisiau eu hystyried wrth gydymffurfio â'r Ddyletswydd.

2B. Deall anghenion gofal iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog

2.8. Bydd angen i gyrff gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol ddeall anghenion gofal iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog lleol. Heb hyn, mae'n bosibl y bydd Cymuned y Lluoedd Arfog yn profi **heriau o ran cael mynediad i ofal iechyd, neu'r math cywir o ofal iechyd.**

[15] I gael rhagor o wybodaeth, gweler Healthcare for the Armed Forces community: a forward view

2B1. Deall anghenion lleol er mwyn cynllunio darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd

2.9. Mae cyrff gofal iechyd gyda rôl cynllunio neu comisiynu yn ddibynnol iawn ar fod â dealltwriaeth fanwl o ddemograffeg y boblogaeth leol. Gall aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog fyw yn rhywle yn y wlad. Felly, dylai cyrff gofal iechyd fod ag ymwybyddiaeth dda o gyfansoddiad Cymuned y Lluoedd Arfog yn lleol a'u hanghenion gofal iechyd. Gall hyn gynnwys awdurdodau lleol wrth gyflawni rôl yn cynhyrchu Asesiadau Anghenion Strategol ar y Cyd neu Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, sy'n edrych ar anghenion iechyd a gofal presennol a dyfodol poblogaethau lleol.

Ail-asesu Anghenion Lleol

- Yn dilyn cau RAF Cottesmore a sefydlu Gwersyllty Kendrew (lleoliad y Fyddin), nododd Cyngor Sir Rutland yr angen i ail-asesu ei gynnig iechyd i Gymuned y Lluoedd Arfog newydd. Gweithiodd Swyddog Lluoedd Arfog y Cyngor a'r tîm Iechyd y Cyhoedd gydag unedau lleol i gynnal asesiad o anghenion iechyd, er mwyn deall anghenion gwahanol gorsaf RAF o gymharu â lleoliad y Fyddin, sut mae'r anghenion hynny'n wahanol i'r boblogaeth ddinesig leol, ac a allai gwasanaethau iechyd milwrol a dinesig fodloni'r anghenion newydd. Pennodd y boblogaeth leol a'u hanghenion iechyd - yn enwedig y rhai y mae bywyd yn y Lluoedd Arfog yn effeithio arnynt. Defnyddiodd adolygiadau o lenyddiaeth ar gyfer cyflyrau iechyd, adolygiadau polisi, casglu data ansoddol cynradd (ar ffurf cyfweliadau a grwpiau ffocws) a data meintiol. Defnyddiwyd data lleol a chenedlaethol. Cyhoeddwyd adroddiad, a sefydlwyd Bwrdd Iechyd a Lles er mwyn mynd i'r afael ag anghenion iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog. Roedd yr adroddiad yn sail i Asesiad Anghenion Strategol ar y Cyd y Cyngor.

- Codwyd pryderon gan Gymuned y Lluoedd Arfog lleol yng Ngorllewin Norfolk nad oedd darpariaeth gwasanaeth deintyddol digonol ger y lleoliad lleol, RAF Marham. Cafodd barn teuluoedd, wedi'i hategu gan ymchwil Healthwatch Norfolk ar ddarpariaeth iechyd lleol ac anghenion defnyddwyr, ei hadborth i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Iechyd Norfolk, gan sicrhau bod y broses gomisiynu yn adlewyrchu anghenion lleol a rhanbarthol. Dan arweiniad a phrosesau negodi Bwrdd Cyfamod Lluoedd Arfog Norfolk, cydweithiodd sefydliadau partner i ddod o hyd i ddatrysiad i fodloni'r anghenion hynny. Gweithiodd y GIG yn Lloegr yn agos â RAF Marham a'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn er mwyn cau'r bwlch, ac agor y practis deintyddol GIG cyntaf ar safle MOD.

Gwneud Gwaith Ymchwil i Ddeall Anghenion Gofal Iechyd Lluoedd Arfog Lleol

- Mae gan Dîm Arweinyddiaeth Integredig Ardal Harborough gynrychiolwyr o sefydliadau'r sector cyhoeddus a thrydydd sector yn gweithio ar wella profiadau iechyd a lles unigolion drwy gydweithio. Daeth arolwg Awdurdod Lleol a HealthWatch o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog i'r casgliad fod gan lawer o ymatebwyr faterion iechyd meddwl (22%) a chorfforol (29%) yn ymwneud yn uniongyrchol â Gwasanaeth. Nodwyd eu bod o'r farn bod ddiffyg cefnogaeth, mynediad a dealltwriaeth ymysg eu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Ymatebodd Tîm Arweinyddiaeth Integredig yr Ardal i ganfyddiadau'r arolwg, a chysylltwyd â'r GIG er mwyn ceisio gwella'r profiad. Gwnaethant weithio gyda swyddogion y Lluoedd Arfog a gweithwyr achos yn darparu cymorth gofal iechyd i

aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog. Canlyniad hyn oedd gweithdy hyfforddiant ar-lein i wella ymwybyddiaeth ymarferwyr iechyd o fywyd Gwasanaeth a phryderon iechyd cysylltiedig. Dangosodd tystiolaeth anecdotaidd ragor o ymgysylltiad â chleientiaid Cymuned y Lluoedd Arfog ac atgyfeiriadau at ddarparwyr arbenigol.

- Gweithiodd Bwrdd Cyfamod Lluoedd Arfog Swydd Hertford â Healthwatch Swydd Hertford i gynnal arolwg, cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda 100 o gyn-filwyr lleol, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol y GIG, wedi'i ariannu gan Iechyd y Cyhoedd Swydd Hertford. Arweiniodd hyn at gynllun gweithredu, gan gynnwys gweithredu er mwyn cynyddu dealltwriaeth o fywyd Gwasanaeth a Chyfamod y Lluoedd Arfog ymysg ymarferwyr gofal eilradd, hyrwyddo Veteran Aware ymysg ysbytai lleol, a chynllun Meddygfeydd Teulu Cyfeillgar i Gyn-filwyr Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn cael ei gyflwyno i feddygfeydd lleol.

- Arweiniodd Cyngor Sir Rutland ar waith rhwng tri Chyngor (gyda Chynghorau Ardal Harborough a De Kesteven) i gomisiynu HealthWatch i greu arolwg hawdd ei ddefnyddio o'r gymuned filwrol, ar-lein ac ar bapur, dros gyfnod o bedwar mis. Gweithiodd Swyddog Lluoedd Arfog Rutland yn agos â HealthWatch i greu'r arolwg ac annog pobl i'w lenwi ledled y gymuned. Drwy gymorth strategaeth gyfathrebu (cyfryngau cymdeithasol, radio, posteri ac ymweld â lleoliadau), arweiniodd hyn at 700 o ymatebion dilys ac adroddiad a wnaeth gynorthwyo newidiadau polisi.

- Yn 2020, daeth ymchwil gan Veterans Gateway i'r casgliad fod o leiaf 23.27% o chwiliadau ar ei borth ar-lein am wasanaethau iechyd meddwl, allan o'r holl faterion yr oedd y gymuned cyn-filwyr yn eu hwynebu, ac o leiaf 6.75% o chwiliadau ar gyfer materion iechyd corfforol. Yn nhrefn nifer uchaf y chwiliadau, roedd cyn-filwyr yn poeni fwyaf am: cael mynediad i gymorth; grwpiau cymorth; triniaeth; gwasanaethau cyffuriau, alcohol ac adsefydlu; profedigaeth; cymhorthion symudedd cartref a chorfforol; meddygon teulu; dallineb; colli breichiau neu goesau; a gofal diwedd oes.

- Mae adroddiadau hefyd ar gael gan arbenigwyr ehangach ac eiriolwyr y Lluoedd Arfog sy'n nodi materion i gyn-filwyr a theuluoedd, ac sy'n cyflwyno argymhellion o ran sut y gallai cyrff cyhoeddus ymateb. Er enghraifft adroddiadau Comisiynydd Cyn-filwyr yr Alban, Veteran's Health & Wellbeing A Distinctive Scottish Approach ac Are We Getting It Right?

2B2. Nodi defnyddwyr gwasanaeth ymysg Cymuned y Lluoedd Arfog

2.10. Bydd ymwybyddiaeth ymysg cyrff penodedig o bwy sy'n defnyddio eu gwasanaethau gofal iechyd sy'n aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn helpu i wella'r ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni. Er bod llawer o gyn-filwyr yn siarad yn agored am eu hanes milwrol a'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu, gan ei gwneud hi'n haws i weithwyr proffesiynol gofal iechyd argymell llwybrau triniaeth, nid yw hyn yn wir bob tro. Mae'n bosibl y bydd rhai cyn-filwyr yn llai tebygol o geisio gwasanaethau cymorth, a gallent fod yn amharod datgelu eu bywyd blaenorol yn y Lluoedd Arfog, ac yn llai agored am natur eu hanafiadau. Gall hyn fod oherwydd:

a. Maen nhw'n teimlo stigma o ran cael mynediad i gymorth, naill ai gan eu bod nhw'n teimlo y gallai cael mynediad i gymorth godi cywilydd arnynt neu'r uned yr oeddent yn rhan ohoni, neu'n credu nad oes ganddynt hawl i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
b. Maen nhw'n credu na fydd darparwyr gofal iechyd dinesig yn eu deall neu'n eu cefnogi.
c. Mae ganddynt ddiffyg ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael y mae ganddynt hawl iddi.
d. Efallai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn gyn-filwyr, er enghraifft os gwnaethant wasanaethu am gyfnod byr iawn o amser, neu os ydyn nhw'n ystyried eu hamser yn y Lluoedd Arfog fel swydd yn y gorffennol, ac nid yn rhywbeth sy'n effeithio ar eu bywyd yn y presennol.
e. Gall fod problemau yn yr ardal leol sy'n ei gwneud hi'n anodd cael mynediad i gefnogaeth. Er enghraifft, bydd cyn-filwyr yn rhannau o Ogledd Iwerddon o bosibl yn arbennig o amharod i rannu gwybodaeth a chael mynediad i gymorth pwrpasol, gan ofni stigma a/neu gwrthgyhuddiad.

Felly, mae'n bosibl na fydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn gwybod pa rai o'u cleifion sy'n gyn-filwyr, gan ei gwneud hi'n llai tebygol y byddant yn cael y math cywir o ofal iechyd.

Gwella'r Broses o Adnabod Cyn-filwyr ar Systemau'r GIG

- Yn 2018, mewn ymateb i ddata a oedd yn amlygu mai dim ond mewn 7.9% o achosion o gleifion cyn-filwyr yr oedd y cod cyn-filwyr yn cael ei ddefnyddio, creodd yr Athro Alan Finnegan astudiaeth i ddod o hyd i ffyrdd i gymell cyn-filwyr i roi gwybod i staff gofal sylfaenol am eu statws cyn-filwyr neu gofrestru gyda meddyg teulu, a gwella dealltwriaeth staff gofal sylfaenol o faterion iechyd cyn-filwyr. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad, ar ôl cyfnod ymyrraeth o chwe wythnos ar sail ymgyrch hysbysebu, cynyddodd nifer y cleifion gyda chod cyn-filwyr gan 200% (180 i 537 yn Swydd Gaerhirfryn).

- Nododd Rhwydwaith Lluoedd Arfog Gateshead mai prin iawn oedd nifer y cyn-filwyr a oedd wedi cofrestru a chodio mewn meddygfeydd teulu yn Gateshead, a chytunodd Grwp Comisiynu Clinigol Gateshead (CCG) i gynnal prosiect i gynyddu'r nifer. O 2014-15, roedd y prosiect yn gweithio â CCG gan gynnwys nodi cyn-filwyr yn un o'i Ddangosyddion Ansawdd y gallai practisau ddewis canolbwyntio arno. Yn ystod 2016-17, cafodd adnabod cyn-filwyr ei ychwanegu i dempledi meistr CCG a'i osod ar bob system clinigol y practis. Ar ddechrau'r prosiect, dim ond 368 o gyn-filwyr oedd wedi cofrestru, eu hadnabod a'u codio yn Gateshead. Erbyn Chwefror 2019 roedd hyn wedi cynyddu i dros 7000. O ganlyniad i hyn, gall meddygfeydd teulu yn Gateshead adnabod yn well cyn-filwyr â chyflyrau hirdymor a allai fod yn deillio o Wasanaeth. Mae hyn yn golygu bod modd cyfeirio'r cyn-filwyr at y gwasanaeth priodol yn y GIG, a allai fod yn benodol i gyn-filwyr. Mae'r CCG hefyd wedi bod yn gweithio i rannu ymhellach ac ymestyn arfer gorau ar draws Newcastle, a Fforwm Lluoedd Arfog y Gogledd-ddwyrain (sy'n cynnwys 12 o ardaloedd awdurdod lleol).

2B3. Gwybodaeth gweithwyr proffesiynol gofal iechyd o faterion gofal iechyd sy'n berthnasol i Gymuned y Lluoedd Arfog

2.11. Gall y rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw megis *perygl a straen*[16] arwain at aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog (gan gynnwys cyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth) angen triniaeth am anafiadau corfforol neu feddyliol yn deillio o Wasanaeth, neu ar gyfer materion oedd yn bodoli eisoes a gafodd eu gwaethygu gan Wasanaeth. Gall gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog arwain at nifer o gyflyrau, gan gynnwys:

a. Anhwylderau synhwyrol (megis colli clyw).
b. Anafiadau cyhyrysgerbydol megis torri esgyrn, datgymaliadau a chyflyrau eraill.
c. Trychiadau, clwyfau, creithio ac anafiadau oerni nad ydynt yn rhewi (NFCI).
d. Anhwylderau meddylio (megis straen, gorbryder, iselder, anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD), neu anaf foesegol). Efallai y bydd rhai cyn-filwyr yn dioddef o Ddiagnosis Deuol, yn cynnwys anhwylder meddyliol yn ymwneud â Gwasanaeth a achoswyd gan drawma a brofwyd yn ystod Gwasanaeth, a hunanddosio sylweddau i reoli hyn.

2.12. Efallai na fydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn deall yn llawn y cyflyrau iechyd a all ddeillio o Wasanaeth, neu efallai na fydd ganddynt brofiad yn eu trin nhw. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr proffesiynol gofal iechyd hefyd yn anymwybodol o'r gwasanaethau a ddarperir i Gymuned y Lluoedd Arfog gan y GIG, awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Gall y materion hyn arwain at aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn methu â chael mynediad i ofal iechyd, neu'r math cywir o ofal iechyd. Gall sicrhau bod gan staff gofal iechyd ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau gofal iechyd sydd ar gael, a bod nhw a'u sefydliadau'n cyfeirio Cymuned y Lluoedd Arfog at y gwasanaethau hyn, arwain at ddeilliannau iechyd gwell.

Gwella Ymwybyddiaeth Meddygon Teulu o Anghenion Gofal Iechyd eu Cyn-filwyr Lleol

- Mewn ymateb i bryderon a nodwyd gan Gymuned y Lluoedd Arfog a grwpiau cysylltiedig, cynhaliodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP) a Llywodraeth y DU waith ymchwil yn edrych ar ffyrdd i rymuso'n well meddygon teulu gyda'r wybodaeth i wasanaethu'r gymuned cyn-filwyr a'u teuluoedd yn eu hardaloedd lleol. Nododd ymchwil ei bod hi'n anodd adnabod a rheoli cyn-filwyr a'u teuluoedd, a oedd yn eu hatal nhw rhag nodi materion iechyd a'u cyfeirio nhw at gymorth priodol fel bo angen. Nododd hefyd bod angen rhagor o ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth yn y rhan fwyaf o achosion, o fewn y GIG ac yn allanol. Creodd yr RCGP a Llywodraeth y DU achrediad cyfeillgar i gyn-filwyr. Menter wirfoddol yw hon. Ar hyn o bryd, mae achrediad ar agor i bractisau meddygon teulu yn Lloegr. Er hyn, mae'r RCGP yn gweithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ehangu'r rhaglen. Mae achrediad yn para tair blynedd ac yn gofyn i bractisau meddygon teulu wneud y canlynol:
    - Gofyn i gleifion sy'n cofrestru yn y feddygfa a ydyn nhw erioed wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain.
    - Codio hynny ar system gyfrifiadurol y feddygfa.
    - Pennu arweinydd clinigol ar gyfer cyn-filwyr yn y feddygfa er mwyn mynd ar hyfforddiant penodol, meddu ar wybodaeth gyfredol am ymchwil ac arloesedd diweddar, sicrhau bod y practis yn bodloni ymrwymiadau iechyd y

[16] Eglurir y rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw mewn ffont *italig* yn y bennod hon yn adran 1G.

Cyfamod Lluoedd Arfog, a rhoi cyngor i gydweithwyr, yn ogystal â gweld y cyn-filwyr eu hunain o bosibl.
    - Dylai practisau fod â sgôr Comisiwn Ansawdd Gofal 'da' neu uwch.

- Mae gan feddygfa Westfield yn Leominster, Swydd Hertford, achrediad cyfeillgar i gyn-filwyr. Drwy fynd drwy'r broses achredu, mae wedi gallu cefnogi cleifion y Lluoedd Arfog mewn ffordd na fyddai'n bosibl fel arall. Mae ganddo arweinydd clinigol penodol ar gyfer iechyd cyn-filwyr. Mae wedi cefnogi nifer o gleifion drwy gyflymu triniaeth ar gyfer anaf filwrol, ac wedi gallu rhoi cyn-filwyr unig mewn cyswllt â rhai cysylltiadau cymdeithasol priodol. Mae wedi pennu cysylltiadau gydag elusennau milwrol lleol ac asiantaethau cymorth. Mae wedi llwyddo i annog cyn-filwyr i adnabod eu hunain felly ar systemau'r feddygfa, er enghraifft, mae'r neges ar y ffôn yn gofyn i gleifion sy'n gyn-filwyr roi gwybod i'r feddygfa am hynny. Drwy hyfforddi staff yn barhaus, mae'n parhau i wella ei ymwybyddiaeth o anghenion penodol Cymuned y Lluoedd Arfog, gan alluogi'r broses o ddilyn llwybrau cymorth neu ofal cywir.

<u>Creu Pecyn Cymorth i Feddygon Teulu Wella Gwasanaethau i Gyn-filwyr</u>

- Gweithiodd yr RCGP mewn partneriaeth â GIG Lloegr a Gwella'r GIG, gan ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Amddiffyn a rhanddeiliaid eraill, i gynnal a chasglu ymchwil ar anghenion iechyd cyn-filwyr a'u teuluoedd. Cyhoeddodd yr RCGP ei ganfyddiadau ar ffurf pecyn cymorth a all gael ei ddefnyddio gan feddygon teulu i helpu i fodloni anghenion gofal iechyd cyn-filwyr. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys y canlynol:
    - Gwybodaeth ar Gyfamod y Lluoedd Arfog a Chyfansoddiad y GIG.
    - Rhestr o wasanaethau penodol i gyn-filwyr a gwybodaeth gyswllt, y tu mewn a'r tu allan i'r GIG.
    - Gwybodaeth ar natur anafiadau corfforol ac iechyd meddwl cyn-filwyr.
    - Gwybodaeth ar wneud cais am gofnodion meddygol cyn-filwr gan y Lluoedd Arfog.
    - Adnoddau dysgu, megis gweminarau, podlediadau a fideos.

<u>Hyfforddi Staff Gofal Iechyd am Faterion y Lluoedd Arfog</u>

- Nododd Addysg y GIG yn yr Alban ddiffyg ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr iechyd rheng-flaen o ran sut mae bywyd Gwasanaeth yn effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog. Cysylltodd â'r GIG yr Ucheldiroedd a'r Adran Iechyd Meddwl Cymunedol i ddatblygu a threialu sesiwn hyfforddiant ar-lein, am 4 awr, ar Gymuned y Lluoedd Arfog i feddygon teulu dan hyfforddiant yn eu blwyddyn olaf. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys taith person Gwasanaeth drwy'r systemau meddygol Amddiffyn a GIG, y rhwystrau a'r heriau y mae cyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth o bosibl yn eu hwynebu, ac yn cyflwyno'r Cyfamod Lluoedd Arfog. Roedd wedi'i ategu gan sesiynau Holi ac Ateb. Roedd yr hyfforddiant hefyd yn cynnwys pecyn cymorth i feddygon teulu, dolennu at hybiau ymchwil a phapurau ar faterion gofal iechyd Cymuned y Lluoedd Arfog, megis NFCI. Roedd yr adborth yn galonogol, gyda hyfforddeion yn nodi nad oedd wedi'i drafod mewn hyfforddiant yr ysgol feddygol neu hyfforddiant i feddygon teulu.

- Mae Prifysgol St John Efrog wedi cynnal cyrsiau hyfforddiant i weithwyr gwasanaethau cyhoeddus mewn awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd, a oedd wedi nodi diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fywyd Gwasanaeth. Derbyniodd y cyfranogwyr adnoddau a hyfforddiant gan y Brifysgol a BLESMA (Elusen Filwrol ar gyfer Cyn-filwyr sydd wedi colli Breichiau neu Goesau) i gefnogi'n well cyn-filwyr a'u teuluoedd. Roedd yr hyfforddiant yn fuddiol i bobl ym maes therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, cwnsela a seicoleg.

- Mae Rhwydwaith Lluoedd Arfog Sussex, Caint a Medway (GIG) yn cynnal ei Hyfforddiant Hyrwyddwyr Gwasanaeth arobryn ag achrediad DPP i fynychwyr o'r GIG a sefydliadau eraill megis awdurdodau lleol. Mae oddeutu 50 o bobl yn mynd ar yr hyfforddiant bob mis. Caiff ei gyflawni ar y cyd â milwyr wrth gefn lleol, cyn-filwyr, ac elusennau milwrol. Mae wedi'i ddylunio ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn gweld y gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig yn canolbwyntio mwy ar y Lluoedd Arfog. Drwy'r hyfforddiant, mae rhwydwaith cymorth o hyrwyddwyr Gwasanaeth yn cael ei greu i helpu i ddatblygu ymhellach gwybodaeth a sgiliau mewn sawl sefydliad gwahanol.

- Mae rhai cyrff iechyd yn defnyddio dulliau cyfathrebu mewnol i hyrwyddo materion Cymuned y Lluoedd Arfog a'r Cyfamod Lluoedd Arfog ymysg staff. Yng Nghymru, mae hyn wedi'i wireddu, yn rhannol, gan Gylchlythyr Iechyd Cymru – cyfarwyddyd manwl i bob bwrdd iechyd a staff yng Nghymru sy'n amlinellu gwybodaeth allweddol ar bynciau megis adnabod cyn-filwyr, y Cyfamod, iechyd meddwl, y porth i Gyn-filwyr, colli breichiau neu goesau ac addasiadau.

- Mae GIG Lloegr hefyd wedi datblygu cylchlythyr mewnol, sy'n cael ei rannu ddwywaith y flwyddyn, am ofal iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog, gan ddarparu diffiniadau (e.e. beth yw cyn-filwr), cyfeirlyfr o gysylltiadau defnyddiol, a digwyddiadau sydd ar ddod. Mae hefyd wedi datblygu safle mewnrwyd gydag adnoddau, offer a gwybodaeth.

Rhannu Arfer Da Rhwng Darparwyr Gofal Iechyd

- Yn 2014, dadansoddodd Adroddiad Chavasse y gofal a ddarperir i'r Lluoedd Arfog a chyn-filwyr i ddod o hyd i ffyrdd o wella gofal wrth godi safonau'r GIG. Un o'i argymhellion oedd creu rhwydwaith cymorth o ysbytai. Arweiniodd hyn at greu Cynghrair Gofal Iechyd Cyfamod Cyn-filwyr a'r rhaglen achrediad Ymwybodol o Gyn-filwyr, a'r wyth safon maniffesto y mae darparwyr gofal iechyd yn eu defnyddio i geisio gwella gofal iechyd y mae cyn-filwyr, a'r Gymuned yn ehangach, yn ei dderbyn gan y GIG. Mae'r Cynghrair yn gweithio'n agos â Gwella'r GIG, GIG Lloegr, elusennau Gwasanaeth a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Nod y Gynghrair yw arddangos gofal iechyd cyn-filwyr o safon uchel, a chefnogi Ymddiriedolaethau'r GIG i ddysgu gan ei gilydd drwy rannu arfer da. Mae hyn yn cynnwys ymrwymo i Gyfamod y Lluoedd Arfog, codi ymwybyddiaeth ymysg staff o anghenion gofal iechyd cyn-filwyr, a phennu cysylltiadau clir ag elusennau Gwasanaeth a darparwyr cymorth lleol.

2C. Darparu gwasanaethau

2C1. Triniaeth â blaenoriaeth

2.13. Mae'n bosibl y bydd aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dioddef anafiadau corfforol neu feddyliol oherwydd rhwymedigaethau unigryw a chyfaddawdau *perygl* a *straen*. Mae blaenoriaethu eu gofal gan ddarparwyr iechyd bob amser yn amodol ar anghenion clinigol, a bydd penderfyniad clinigol yn cael ei wneud yn hyn o beth. Nid oes gan aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog hawl i neidio'r ciw o flaen rhywun ag anghenion clinigol uwch. Fodd bynnag, mae ymrwymiad y bydd cyn-filwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu hystyried o bosibl am fynediad â blaenoriaeth i wasanaethau'r GIG sy'n darparu triniaeth â ffocws am gyflyrau'n deillio o'r Gwasanaeth, o gymharu â chleifion nad ydynt yn rhai Gwasanaeth gyda'r un lefel o anghenion clinigol. Y meddyg perthnasol fydd yn penderfynu ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am flaenoriaethu, a gwasanaethau penodol i gyn-filwyr drwy'r GIG, ar gael ar gyfer Lloegr, Cymru ac Yr Alban.

2C2. Rhestrau aros cyn dechrau ar driniaeth

2.14. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl y bydd teuluoedd Gwasanaeth sydd ar restr aros am driniaeth, neu wasanaethau iechyd eraill, mewn un ardal yn gorfod symud i ardal arall cyn cael triniaeth. Os ydyn nhw'n cael eu rhoi ar ddiwedd y rhestr aros newydd, mae'n bosibl y bydd y teulu Gwasanaeth yn profi **oedi cyn derbyn triniaeth,** ac efallai y bydd angen iddynt aros yn sylweddol hirach am driniaeth o gymharu â theuluoedd nad ydynt yn rhai Gwasanaeth sy'n gallu aros mewn un lle. Os yw'r cyfnodau aros hyn yn cael eu gwaethygu oherwydd symudiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd y teulu Gwasanaeth yn aros blynyddoedd am driniaeth.

2.15. Er fod egwyddor sylfaenol y GIG o ran triniaeth ar sail angen clinigol yn hanfodol bwysig, dylai staff gofal iechyd gadw mewn cof y gallai cleifion o Gymuned y Lluoedd Arfog fod wedi aros cyfnod sylweddol hirach am driniaeth mewn ardal arall, ac efallai nad ydynt wedi dewis symud. Yn hyn o beth, efallai y bydd staff gofal iechyd am ystyried cyfanswm yr amser a dreuliwyd ar restrau aros, y tu mewn a'r tu allan i'r ardal leol, a sicrhau bod y teulu Gwasanaeth yn cadw ei le ar y rhestr aros yn yr ardal newydd lle bo'n bosibl.

2.16. Bydd cyrff penodedig hefyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol ystyried os oes modd trosglwyddo rhwng rhestrau aros darparwyr i sicrhau bod safleoedd ar restrau aros yn cael eu cadw. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n bosibl y bydd rhannu llythyrau apwyntiad a chyflwyno ceisiadau penodol i gadw lleoedd ar restrau aros yn helpu'n sylweddol.

2.17. Os mai dim ond gyda gwybodaeth a ddarperir gan glinigwr blaenorol yw'r unig ffordd o wneud penderfyniadau ar restrau aros, yna gall darparu gwybodaeth ar hyd yr amser y mae'r claf eisoes wedi bod yn aros helpu clinigwr newydd y claf yn y broses flaenoriaethu.

Gwneud yn Iawn am Amser a Dreuliwyd ar Restrau Aros Blaenorol

- Mae un plentyn Gwasanaeth wedi profi oedi i'w driniaeth orthodonteg sawl gwaith gan fod y teulu wedi gorfod symud. Roedd pob adleoliad ar ôl iddo symud yn agos at dop y rhestr aros yn ei ardal flaenorol. Archwiliodd GIG Lloegr bryderon y teulu,

a chytunodd i gysylltu â'r gwasanaeth gofal sylfaenol GIG lleol i sicrhau bod amser triniaeth newydd y plentyn Gwasanaeth yn adlewyrchu'r amser yr oedd eisoes wedi aros.

2C3. Rhestrau aros i barhau â thriniaeth

2.18. Mae rhai cyflyrau iechyd neu driniaeth yn para'n hir, ac efallai y bydd angen i'r teulu Gwasanaeth symud yng nghanol derbyn cwrs o driniaeth, neu wasanaethau iechyd eraill. Yn yr achos hwn, mae modd tarfu ar y driniaeth os oes angen iddynt ymuno â rhestr aros arall i barhau â thriniaeth yn y lleoliad newydd. Bydd cyrff gofal iechyd yn ei chael hi'n ddefnyddiol i ystyried sut mae modd parhau â chynlluniau triniaeth heb lawer o darfu, a sut mae modd cynnal parhad gofal ar ôl symud.

2C4. Ail-asesiadau

2.19. Os yw teulu Gwasanaeth yn symud i ardal newydd oherwydd rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl y bydd y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn y lleoliad newydd yn penderfynu ail-asesu cyflwr yr aelod o'r teulu. Dylai gweithwyr proffesiynol iechyd fod yn ymwybodol bod yr aelod o'r teulu eisoes wedi profi cyfnod aros hir am driniaeth, ac felly gallai unrhyw benderfyniad i gynnal asesiad newydd, neu 'fynd yn ôl i'r cam cyntaf', **arwain at oedi ychwanegol o ran triniaeth, neu achosi straen ychwanegol.** Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yr aelod o'r teulu Gwasanaeth yn gorfod symud eto cyn bod modd dechrau neu barhau â thriniaeth.

2.20. Gall hyn fod yn bryder arbennig i blant Gwasanaeth ag anghenion ychwanegol. Gall oedi o ran asesiadau neu ail-asesiadau ynghlwm wrth awdurdodi cynlluniau statudol arwain at blant Gwasanaeth ag anghenion yn profi **oedi o ran darpariaeth cymorth** (gweler adran 3H).

2C5. Amrywioldeb lleol mewn gwasanaethau gofal iechyd

2.21. Mae darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd yn amrywio yn lleol ac ar draws gwledydd cartref y DU, i adlewyrchu dulliau lleol o ran gofal iechyd, ac anghenion a blaenoriaethau amrywiol. Felly, pan fydd angen i aelodau'r Gymuned symud, gallent symud i ardal â gwasanaethau gofal iechyd amrywiol neu feini prawf mynediad gwahanol. Gallai hyn arwain at **ddiffyg mynediad i wasanaethau arbenigol,** megis Therapi Iaith a Lleferydd, Therapi Galwedigaethol, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, a oedd yn cael eu darparu i'r teulu Gwasanaeth yn y lleoliad blaenorol.

2.22. Hefyd, gall yr amrywioldeb lleol mewn gwasanaethau, ochr yn ochr â'r posibilrwydd o *fod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig*, arwain at **ddiffyg gwybodaeth** ymysg Cymuned y Lluoedd Arfog o'r gwasanaethau gofal iechyd a chymorth sydd ar gael yn eu hardal leol newydd, a fydd yn y pen draw yn effeithio ar eu gallu i gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd lleol.

Cyfeirio i Wasanaethau

- Mae Forces Connect yn ap symudol am ddim sy'n cyfeirio cyn-filwyr, personél y Lluoedd Arfog, milwyr wrth gefn a'u teuluoedd i gymorth a chyngor ar ystod o

faterion pwysig gan gynnwys iechyd, tai ac addysg yn eu hardal leol. Cafodd ei ddatblygu gan Forces Connect South East, partneriaeth traws-ffiniol yn cynnwys awdurdodau lleol yn rhanbarth y de-ddwyrain, cynrychiolaeth Lluoedd Arfog lleol, elusennau Gwasanaeth, a Rhwydweithiau Lluoedd Arfog y GIG lleol, gyda chyllid cychwynnol gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae gwerthusiad wedi dangos fod yr ap, sy'n cael ei ddefnyddio gan 11,000 o bobl ar hyn o bryd gan gynnwys y Lluoedd Arfog, wedi cynyddu hyder staff a'u gallu i helpu Cymuned y Lluoedd Arfog.

- Gan nodi diffyg ymwybyddiaeth o wasanaethau iechyd lleol ymysg Cymuned y Lluoedd Arfog a gweithwyr proffesiynol iechyd, creodd Grwp Cyfamod Suffolk dudalen we ar eu gwefan Cyfamod Milwrol Suffolk sy'n cynnwys rhestr o wasanaethau iechyd sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog yn y GIG a'r sectorau elusennol. Mae gwasanaethau prif-ffrwd (Samariaid, y GIG), a gwasanaethau pwrpasol ac unigryw (Op COURAGE) wedi'u rhestru, gydag esboniadau a dolenni clir.

- Mae Cyngor Sir Rutland a Chyngor Ardal Harborough yn rhannu 'Swyddog Lluoedd Arfog' penodedig, a'i rôl yw cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog lleol. Gall y swyddog helpu gyda mynediad i ofal iechyd, yn ogystal ag addysg a lleoliadau ysgol, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, a mynediad i dai a llety.

- Mae'r Rhwydwaith Lluoedd Arfog a darparwyr y GIG yng Nghaint a Sussex hefyd wedi nodi angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog gyda gwybodaeth neu rwystrau iaith, ac wedi creu pecyn cymorth gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y gymuned Gurkha.

2C6. Perthynas â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd

2.23. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl y bydd angen i deuluoedd Gwasanaeth adael lleoliad ble mae ganddynt berthynas sefydledig â'u gweithwyr proffesiynol gofal iechyd lleol. Er y gallai teuluoedd Gwasanaeth barhau i weld yr un gweithiwr proffesiynol gofal iechyd ar ôl symud, yn ymarferol, mae hyn yn afrealistig, ac fel arfer bydd angen iddynt gael gofal gan aelod staff newydd gofal iechyd, a chofrestru â meddygfa newydd. Os dyma yw'r achos, er bod cofnodion meddygol wedi'u trosglwyddo rhwng darparwyr gofal iechyd, gall y teulu Gwasanaeth **golli mynediad i weithwyr proffesiynol gofal iechyd y mae ganddynt berthynas sefydledig â nhw, ac sydd â phrofiad o'u trin a deall eu hanghenion gofal iechyd unigol**. Pe bydden nhw'n symud yn ôl i'r ardal, efallai y byddant yn cael gwybod na allent ail-gofrestru gyda'u meddygfa wreiddiol os yw'r gofrestr yn llawn.

2C7. Darpariaeth gwasanaethau wedi'u teilwra

2.24. Weithiau, mae'n bosibl y bydd gwasanaethau gofal iechyd pwrpasol neu lwybrau gofal wedi'u cyfiawnhau i fodloni anghenion unigryw Cymuned y Lluoedd Arfog. Fel arall, efallai y bydd yn fuddiol teilwra cyngor iechyd i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog er mwyn ystyried rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw bywyd Gwasanaeth.

Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd Pwrpasol y GIG

- Op COURAGE yw llwybr triniaeth iechyd meddwl pwrpasol GIG Lloegr i gyn-filwyr. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Pontio a Chydgysylltu Iechyd Meddwl, Gwasanaeth Dwyster Uchel a Gwasanaeth Triniaeth Gymhleth. Mae Op COURAGE yn gynllun cenedlaethol lle mae staff y GIG yn gweithio yn y sector elusennau Gwasanaeth i ddarparu therapi, gwasanaethau adsefydliad ac, mewn achosion eithafol, gofal cleifion mewnol i gannoedd o filwyr bob blwyddyn. Mae'r rhai sydd angen cymorth brys yn derbyn atgyfeiriadau ar yr un diwrnod. Mae gweithio gydag elusennau yn helpu staff y GIG i ddeall y profiadau a'r problemau y mae cyn-filwyr yn eu hwynebu. Mae hefyd yn darparu llwybr clir i gyn-filwyr i fynediad ac yn helpu i integreiddio cyn-filwyr ag iechyd meddwl gwael i fywyd bob dydd.

- Mae Rhwydwaith Trawma Cyn-filwyr GIG Lloegr yn cefnogi cyn-filwyr gydag anafiadau a salwch yn ymwneud â Gwasanaeth i gael mynediad i ofal priodol. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio ochr yn ochr ag Op COURAGE. Mae'r Rhwydwaith yn darparu triniaeth bersonol o fewn y GIG, ac mae clinigwyr milwrol a dinesig yn gweithio yno sy'n deall yr amgylchedd milwrol ac sy'n arbenigo mewn gofal iechyd milwrol, ac yn cynorthwyo teuluoedd a gofalwyr cyn-filwyr â phroblemau iechyd corfforol i gael mynediad i wasanaethau cymorth priodol. Mae GIG Cymru hefyd yn gweithredu Rhwydwaith Trawma i Gyn-filwyr.

- Mae gwasanaeth Cyn-filwyr GIG Cymru yn wasanaeth arbenigol â blaenoriaeth i gyn-filwyr yng Nghymru sy'n profi anawsterau iechyd meddwl yn deillio o'u hamser yn y Lluoedd Arfog. Cafodd y gwasanaeth ei sefydlu mewn ymateb i anghenion penodol a datblygedig cyn-filwyr. Nid yn unig y mae'r gwasanaeth yn taclo'r anfanteision yn deillio o'u hamser yn y Lluoedd Arfog, mae hefyd yn darparu llwybrau triniaeth penodol ar gyfer cyflyrau unigryw. Mae Veterans First Point yn darparu gwasanaeth tebyg i gyn-filwyr sy'n byw yn yr Alban.

Darpariaeth Gwasanaethau Pwrpasol yn y Gymuned

- Mae Fframwaith Comisiynu Personol Integredig ar gyfer Cyn-filwyr (IPC4V) yn ddull gofal personol ar gyfer nifer fach o gyn-filwyr gyda chyflyrau corfforol cymhleth a pharhaus, niwrolegol ac iechyd meddwl yn deillio o anafiadau yn y Gwasanaeth. Mae'r gofal pwrpasol y maent yn ei dderbyn yn sicrhau eu bod nhw'n cael cefnogaeth effeithiol wrth iddynt bontio i fywyd dinesig a thu hwnt.

- Yn Tameside, mae prosiect darparu rhandiroedd yn cynnig cyfle i gyn-filwyr ag anghenion iechyd meddwl, dibyniaeth neu deimladau unig i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol wrth gael rhwydwaith o gymorth. Yn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg, sefydlwyd noson ffilmiau am ddim i gyn-filwyr a'u teuluoedd i gefnogi'r rhai â PTSD a oedd yn dioddef o glywed tân gwyllt yn lleol. Bu i'r ddau gyngor sicrhau cyllid allanol i alluogi cyn-filwyr sy'n dioddef o unigrwydd, a gafodd eu hatal rhag mynd i'w grwpiau cymorth lleol yn ystod Covid-19, i brynu llechi cyfrifiadurol. Darparwyd hyfforddiant i ddefnyddio'r llechi, ac roedd y llechi'n gysylltiedig â chalendr digwyddiadau byw.

- Mae gwasanaethau galw heibio Veterans First Point ar gael mewn chwe ardal iechyd yn Lloegr, a ddatblygwyd gan gyn-filwyr a chlinigwyr i gyn-filwyr. Mae hyn yn cynnig 'siop un stop' am gymorth a chyngor i gyn-filwyr a'u teuluoedd, ni waeth beth allant fod, nid yn unig o ran materion corfforol neu iechyd meddwl, ond ar gyfer tai, cymdeithasu, addysg, cyflogaeth a materion eraill. Gall cyn-filwyr gael mynediad i ganolfannau cymorth ac mewn rhai achosion, mae gweithiwr cymorth cyfoedion yn cael ei aseinio iddynt a all argymell therapïau, atgyfeirio, llywio gwasanaethau cymorth i gyn-filwyr neu gefnogi gyda chamau ymarferol i helpu cyn-filwyr i adsefydlu.

- Gweithiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Surrey gyda phartneriaid i sefydlu hwb misol yng Ngwasanaeth Tân Surrey. Mae'r hwb yn darparu lle diogel i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog i ddod at ei gilydd, rhannu straeon, gwneud ffrindiau a chael mynediad i gymorth perthnasol (yn enwedig o ran iechyd a lles). Mae'r hwb yn chwarae rhan sylweddol o ran pennu rhwydwaith o gyn-filwyr tebyg sydd nid yn unig wedi elwa ar gyfeillgarwch rheolaidd a rhyngweithio cyfeillgar, ond ar sawl achlysur hefyd wedi derbyn cymorth achub bywyd, swydd newydd a help i gael llety.

2D. Cynllunio a chyllid

2.25. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl y bydd teuluoedd Gwasanaeth yn cael eu lleoli tramor. Os yw darpariaeth gwasanaeth lleol tramor yn annigonol, mae'n bosibl y bydd teuluoedd Gwasanaeth tramor yn cael cynnig gofal iechyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, drwy Wasanaethau Meddygol Amddiffyn. Os nad yw'r ddarpariaeth gwasanaeth lleol yn ddigonol, mae'n bosibl y bydd cytundebau rhyngwladol ar waith o ran gwasanaethau gofal iechyd am ddim neu ar ddisgownt i'r Lluoedd Arfog a'u teuluoedd.

2.26. Pan fydd teuluoedd Gwasanaeth tramor yn cael eu lleoli nôl yn y DU, efallai y byddant yn profi **oedi o ran derbyn triniaeth, neu wrthod triniaeth,** os nad yw'n glir pa drefniadau cyllid a allai fod yn berthnasol iddyn nhw. Gall y rheolau o ran pa wasanaethau sydd ar gael, a phwy sy'n gymwys iddynt, amrywio mewn ardaloedd gwahanol, a rhwng pedair cenedl y DU.

Claf sydd yng nghanol Triniaeth yn Dychwelyd o Dramor

- Mae plentyn Gwasanaeth wedi bod yn derbyn triniaeth orthodonteg tra'n byw yn Saudi Arabia. Pan ddychwelodd i'r DU, roedd pum neu fwy o driniaethau dal heb eu cyflawni. Gan fod y mowldiau gwreiddiol ar goll, doedd dim modd pennu a fyddai wedi bodloni meini prawf Mynegai Anghenion Triniaeth Orthodonteg y GIG ar gyfer triniaeth. Heb y dystiolaeth hon, gwrthododd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG gymeradwyaeth ar gyfer triniaeth y GIG. Hefyd, doedd dim modd i Ofal Iechyd Sylfaenol Amddiffyn gynnig unrhyw ddatrysiad. Aeth y teulu at ddau bractis orthodonteg a ddywedodd nad oedd hi'n bodloni meini prawf triniaeth y GIG. Gellid disgwyl hyn gan ei bod hi eisoes yn derbyn triniaeth. Bu Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin yn gweithio gyda GIG Lloegr a thîm Comisiynu Lluoedd Arfog Gwella'r GIG a chomisiynwyr deintyddol, ble y cytunwyd y gellid cwblhau'r gwaith orthodonteg dan gyllid y GIG.

2E. Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol

2.27. Os na chaiff gwybodaeth ddigonol ei rhannu rhwng systemau iechyd a staff gofal iechyd pan fydd teuluoedd Gwasanaeth yn gorfod symud, neu os oes oedi o ran rhannu gwybodaeth, gall hyn achosi straen, effeithio ar barhad gofal, ac achosi **oedi o ran derbyn triniaeth,** neu efallai y bydd angen i'r teulu Gwasanaeth ddechrau o'r dechrau.

2.28. Ar gyfer personél sy'n pontio allan o Wasanaeth, mae platfform digidol integredig y Gwasanaeth Meddygol Amddiffyn, 'CORTISONE', sy'n dal i gael ei ddatblygu, yn galluogi cofnodion meddygol i gael eu trosglwyddo'n ddiogel rhwng Gwasanaethau Meddygol Amddiffyn a'r GIG. Bydd hyn yn helpu ymarferwyr i ddarparu safon gofal cyson ac effeithiol, i sicrhau bod asesiadau'n adlewyrchu'n well hanesion cleifion, a lleihau tarfu o bosibl ar fynediad i ofal meddygol wrth adael y Lluoedd Arfog.

2.29. Yn yr Alban, dan adran 23 o'r Ddeddf Addysg (Cymorth Dysgu Ychwanegol) (Yr Alban) 2004, gall awdurdodau addysg ofyn am help gan asiantaethau wrth arfer eu swyddogaethau dan y Ddeddf honno. Mae'n bosibl y bydd Byrddau Iechyd yn yr Alban yn derbyn cais i gefnogi awdurdodau addysg fel hyn. Rhennir rhagor o wybodaeth ar hyn yn adran 3H.

3. Addysg

Crynodeb

3.1. Mae plant Gwasanaeth fel arfer yn cael eu haddysg mewn ysgolion a ariennir gan y wlad yn yr un ffordd â phlant nad ydynt yn rhai Gwasanaeth. Fel arfer, nid yw personél Gwasanaeth, a bron bob cyn-filwr a milwyr wrth gefn, yn ymgysylltu â'r sector addysg a ariennir gan y wlad, oni bai fod yr unigolyn yn rhiant i blentyn mewn ysgol o'r fath (adran 3A). Bydd llawer o blant Gwasanaeth yn ffynnu, ond gall yr anfanteision canlynol yn ymwneud ag addysg ddod i'r amlwg i blant Gwasanaeth.

a. Gall **addysg gohiriedig** ddod i'r amlwg os yw teulu Gwasanaeth yn derbyn cais gan y Lluoedd Arfog i adleoli, ac nid yw'r symudiadau rhwng ysgolion yn cael eu rheoli'n dda (adran 3C), neu os yw'r plentyn yn cael ei leoli mewn ysgol newydd sy'n defnyddio cwricwla gwahanol neu fyrddau arholiad gwahanol, neu os ydyn nhw'n profi sawl symudiad ar gamau pwysig yn ystod eu haddysg. Gall cyrhaeddiad addysgol plentyn hefyd gael ei effeithio os oes rhaid iddynt helpu i ofalu am aelodau eraill o'r teulu tra bod rhiant yn gwasanaethu yn cael ei leoli, ac os yw eu lles meddyliol wedi'i effeithio (gweler isod). (Adran 3D)

b. Gall **profiad cymdeithasol gohiriedig** ddod i'r amlwg os oes angen i deulu Gwasanaeth symud, ar gais y Lluoedd Arfog. Bydd hyn yn arwain at y plentyn yn gorfod gwneud ffrindiau newydd mewn ysgol newydd. Os na fydd y plentyn yn gallu cael ei leoli mewn ysgol yn y gymuned leol, efallai y byddant yn ei chael hi'n anos gwneud ffrindiau y tu allan i'r ysgol, neu fynediad i weithgareddau trawsgwricwlaidd yn yr ysgol. (Adran 3E)

c. Gall **lles meddyliol gael ei effeithio** gan brofiad cymdeithasol gohiriedig a'r anfanteision eraill, drwy golli mynediad i strwythurau cymorth megis ffrindiau ac athrawon, oherwydd adleoliad, neu os na allant gael eu lleoli yn yr un ysgol newydd â'u brodyr a chwiorydd. Mae cael eu gwahanu oddi wrth riant sy'n gwasanaethu, a phryderon am eu diogelwch, hefyd yn effeithio ar les. (Adran 3E)

d. Gall **taith hirach i'r ysgol, neu daith anos,** ddod i'r amlwg os oes angen i deulu Gwasanaeth symud y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol, ac ni all y plentyn gael lle mewn ysgol yn agos at ei gartref newydd. (Adran 3F)

e. **Methu â mynd ar wyliau gyda rhieni yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol arferol** os yw'r rhiant ar wasanaeth ond yn gallu dychwelyd adref yn ystod y tymor ysgol (Adran 3G)

f. **Oedi o ran cymorth i blant Gwasanaeth ag anghenion ychwanegol**. (Adrannau 2C4 a 3H)

3.2. Efallai y bydd rhaid i bartner Gwasanaeth **ysgwyddo beichiau** megis mynd â'r plentyn i'r ysgol, ac efallai y bydd yn profi anfanteision megis ei chael hi'n anos parhau â chyflogaeth. (Adran 3F)

3.3. Bydd gwybodaeth am ba blant yn eu hysgol(ion) sy'n blant Gwasanaeth yn ategu ymatebion llwyddiannus i'r materion hyn gan gyrff addysg penodedig (adran 3B). Yn Lloegr, mae'r Gwasanaeth Premiwm Disgyblion ar gael i helpu hefyd (adran 3I).

3A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau addysg a ariennir gan y wlad

3.4. Fel arfer, nid yw **personél Gwasanaeth llawn amser, milwyr wrth gefn** a **chyn-filwyr** yn ymgysylltu â sector addysg a ariennir gan y wlad, oni bai eu bod yn rhiant i blentyn mewn ysgol a ariennir gan y wlad. Er hyn, gan fod cymhwysedd i ymuno â Gwasanaethau Wrth Gefn yn dechrau ar 15 a 9 mis oed,[17] mae'n bosibl y bydd rhai Milwyr Wrth Gefn mewn addysg wladol. Hefyd, yn Lloegr, lle mae dyletswydd statudol i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant nes pen-blwydd rhywun yn 18 oed, mae'n bosibl y bydd cyn-filwyr angen addysg a ariennir gan y wlad os byddant yn cael eu rhyddhau o'r Gwasanaeth cyn troi'n 18 oed.

3.5. Fel arfer, bydd **plant Gwasanaeth** yn cael addysg mewn ysgolion a ariennir gan y wlad yn yr un ffordd â phlant nad ydynt yn rhai Gwasanaeth. Mae llawer yn ffynnu, ond gallant ddioddef ystod o anfanteision addysgol o ganlyniad i fywyd Gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen i blant Gwasanaeth symud ysgol sawl gwaith, wrth iddynt symud gyda'u rhieni/rhiant gwasanaeth. Mae ystadegau'n dangos fod plant Gwasanaeth ar gyfartaledd yn symud yn amlach na'u cyfoedion nad ydynt yn rhai Gwasanaeth yn ystod eu gyrfa addysgol. Gall symudiadau ysgol ddigwydd yng nghanol blwyddyn academaidd, y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol. Er y gallai teuluoedd nad ydynt yn rhai Gwasanaeth wynebu materion tebyg wrth symud, mae teuluoedd Gwasanaeth yn debygol o symud yn amlach, ac o ganlyniad i ofyniad gorfodol o Wasanaethu eu gwlad.

3.6. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y gall Cymuned y Lluoedd Arfog brofi anfanteision ym meysydd amrywiol addysg. Nid yw'r materion a ddisgrifir yma yn rhestr gynhwysfawr gan y gallai materion eraill ddod i'r amlwg am sawl rheswm. Dylid nodi hefyd y gallai plant Gwasanaeth wynebu nifer o'r anfanteision hyn ar yr un pryd. Er enghraifft, gallai anawsterau o ran derbyn i ysgol newydd ar ôl symud effeithio cyrhaeddiad addysgol a lles y plentyn. **Yn y bennod hon, mae'r gair 'ysgol' yn golygu pob math o sefydliad addysgol yng nghwmpas y Ddyletswydd, fel y'i nodir yn adran 1C.**

3.7. Mae astudiaethau achos mewn bocsys testun wedi'u cynnwys fel ffordd ddefnyddiol o ddangos rhai o'r ffyrdd y mae cyrff wedi helpu i leddfu'r anfanteision hyn neu, lle bo'n briodol, wedi cyflwyno darpariaethau arbennig. **Nid yw'r astudiaethau achos hyn yn nodi camau gweithredu gorfodol**, ond maent wedi'u cynnwys i ddarparu enghreifftiau a syniadau o'r math o ymddygiad a chamau gweithredu sydd wedi arwain at brofiadau gwell i Gymuned y Lluoedd Arfog, yr hoffai cyrff eu hystyried wrth gydymffurfio â'r Ddyletswydd.

3B. Adnabod Plant Gwasanaeth

3.8. Dylai cyrff penodedig fod yn ymwybodol o ba blant yn eu hysgol(ion), neu sydd ar fin symud i'w hysgol(ion), sy'n blant Gwasanaeth. Dylai awdurdodau lleol fod ag ymwybyddiaeth o ba blant yn eu gofal sy'n blant Gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu i wella'r ffordd y mae anghenion y plant hyn yn cael eu bodloni. Fel sydd wedi'i egluro yn adran 1J4, nid yn unig plant personél sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd sy'n blant Gwasanaeth dan gwmpas y Ddyletswydd, ond hefyd plant cyn-filwyr.

[17] Mae modd ymuno â'r RAF Wrth Gefn o 15 blynedd a 9 mis oed, y Llynges Frenhinol Wrth Gefn o 16 oed, a'r Fyddin Wrth Gefn o 18 oed.

Gofyn i Deuluoedd

- Mae gan Gyngor yr Ucheldiroedd grwp pwrpasol, Grwp Cyswllt Milwrol (Addysg), sy'n bartneriaeth o gynrychiolwyr Lluoedd Arfog lleol a darparwyr arbenigol ac arbenigwyr, sydd wedi meithrin perthynas cryf, rhagweithiol ac ymrwymedig, ac sy'n gweithio'n unol â Chynllun Gweithredu Gwella. Mae'r Grwp wedi rhoi newidiadau ar waith i Ffurflenni Ymrestru, Canllawiau i Benaethiaid, a Llawlyfrau Ysgolion, i annog adnabod plant Gwasanaeth. Mae Ffurflenni Ymrestru bellach yn sbarduno teuluoedd i nodi a ydyn nhw'n rhan o'r Lluoedd Arfog, pa Wasanaeth maen nhw'n rhan ohono, ac os ydyn nhw'n Gwasanaethu, yn Filwr Wrth Gefn neu'n gyn-filwr, gyda dolen (neu gopi caled) at daflen 'Why do we want to know?'. Mae'r data hwn yn helpu i sicrhau bod modd rhoi'r gefnogaeth dargedig gywir i'r plentyn neu'r person ifanc ar yr amser iawn. Mae adnabod yn cynyddu'n araf deg, gan greu dealltwriaeth ehangach o anghenion.

Gwneud Gwaith Ymchwil

- Yn 2015, comisiynodd prosiect SSCE Cymru astudiaeth i niferoedd y plant Gwasanaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, ar sail data cyfrifiad 2011. Roedd yr astudiaeth hefyd yn cynnwys arolwg o ysgolion i gyfleu gwybodaeth ar ymwybyddiaeth ysgolion o faterion ac ymarfer presennol i gefnogi plant Gwasanaeth. Mewn ymarfer casglu data dilynol, gweithiodd SSCE Cymru gyda'r awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol yng Nghymru i ddarparu darlun o nifer yr ysgolion yng Nghymru gyda phlant gwasanaeth, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru fel ag yr oedd ym mis Mawrth 2021.

3C. Derbyniadau

3.9. Oherwydd y rhwymedigaeth a'r cyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*,[18] mae'n bosibl y bydd angen i blant Gwasanaeth symud ysgol sawl gwaith. Efallai y byddant yn **profi tarfu o ran eu haddysg** os na reolir symudiadau rhwng ysgolion yn dda iawn. Bydd effeithiolrwydd trosglwyddiad disgybl yn cael ei effeithio gan y cyflymder y byddant yn cael lle mewn ysgol newydd, yr amser y mae'n cymryd i gofnodion gael eu trosglwyddo, ac ansawdd y wybodaeth a gaiff ei chynnwys. Mae trosglwyddo cofnodion ysgol yn amserol (gan gynnwys gwybodaeth ar feysydd o'r cwricwlwm perthnasol a deilliannau a gyflawnir) yn golygu bod gan yr ysgol fynediad i wybodaeth hanfodol am y plentyn a'i gynnydd, ac yn osgoi oedi yn narpariaeth addysgu a dysgu wedi'u gwahaniaethu'n briodol, neu sicrhau bod unrhyw gymorth angenrheidiol ar gael. Gall symud rhwng ysgolion mewn gwledydd gwahanol yn y DU fod yn fwy cymhleth na symud rhwng ysgolion yn yr un gwlad, oherwydd gwahaniaethau i systemau addysg. Gall hyn arwain at drosglwyddiad llai amserol o wybodaeth, ac oedi o ran darpariaeth addysgu a chymorth priodol.

3.10. Gellid lleddfu nifer o anfanteision ynghylch lles plant (adran 3E) a chludiant i'r ysgol (adran 3F) os yw plant yn gallu cael eu lleoli mewn ysgol yn agos at ble maen nhw'n byw, ac os yw brodyr a chwiorydd plant Gwasanaeth yn cael eu lleoli yn yr un ysgol, yn

[18] Eglurir y rhwymedigaethau a'r cyfaddawdau unigryw mewn ffont *italig* yn y bennod hon yn adran 1G.

dibynnu ar ffactorau eraill megis eu hoedrannau, cynradd neu uwchradd, ac os oes lleoedd ar gael. Gellid lleddfu anfanteision ynghylch cyrhaeddiad addysgol (adran 3D) os oes modd lleoli plant mewn ysgol sy'n defnyddio cwricwla tebyg i'r ysgol flaenorol.

3.11. Mae Codau Derbyn i Ysgolion Lloegr a Chymru yn cynnwys gofynion yn ymwneud â phlant personél Gwasanaeth. Mae Cod Lloegr yn gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod 'trefniadau yn eu hardal yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i ddileu anfanteision i blant gwasanaeth'. Mae'r ddau God yn gofyn i awdurdodau derbyn ddynodi lle ysgol i blentyn Gwasanaeth cyn i deulu symud i'r ardal (cyn belled â bod un ar gael), os yw'r cais yn dod i law gyda llythyr swyddogol sy'n nodi dyddiad adleoliad. Ar gais y rhiant, gall awdurdodau derbyn ddefnyddio cyfeiriad uned neu chwarter (neu, yn Lloegr, cyfeiriad preifat) megis cyfeiriad cartref y plentyn wrth ystyried cais. Mae Cod Lloegr yn galluogi'r broses o roi blaenoriaeth mewn meini prawf gordanysgrifio i blant sy'n gymwys ar gyfer y Gwasanaeth Premiwm Disgyblion, ac mae'r ddau God yn caniatáu eithriadau i derfynau maint dosbarthiadau babanod i blant personél Gwasanaeth a dderbynnir y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol.

3.12. Yn yr Alban, awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am osod polisi derbyn i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y gweithdrefnau o ran ymdrin â cheisiadau am leoedd gan rieni sy'n byw yn nalgylch yr ysgol a phobl o ardaloedd eraill. Mae polisi derbyn i ysgolion yr awdurdod lleol yn darparu manylion am unrhyw drefniadau blaenoriaeth. Mae gan rieni yn yr Alban yr hawl i fynegi blaenoriaeth wrth ddewis pa ysgol yr hoffent i'w plant fynd iddi.[19] Mae awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech i fodloni'r cais hwnnw ble bo'n bosibl. Fodd bynnag, mae maint yr ysgol, y gofrestr bresennol, a nifer y plant sydd eisoes yn byw yn y dalgylch, a ffactorau eraill, yn effeithio ar allu'r awdurdod lleol i ganiatáu cais am leoliad.

Cymorth Derbyniadau i Ysgolion

- Mewn ymateb i bryderon teulu Gwasanaeth, mae Cyngor Sir Gaerloyw yn caniatáu i deuluoedd wneud cais dau dymor cyn bod angen y lle yn yr ysgol.

- Caniateir i deuluoedd Gwasanaeth a leolir yn Swydd Gaerloyw ddefnyddio'r garsiwn neu'r safle milwrol fel cyfeiriad am geisiadau ysgolion nes bod cyfeiriad parhaol wedi'i drefnu.

- Wrth apelio i ysgol sydd wedi'i gordanysgrifio am leoliad yn ystod y flwyddyn, mae Cyngor Sir Gaerloyw yn adolygu achos pob teulu Gwasanaeth i weld a oes modd ehangu terfynau derbyn i ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod plant Gwasanaeth yn cael yr un mynediad i ysgolion gwell wrth symud lleoliad.

Darparu Gwybodaeth

- Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yn yr Alban angen am wefan bwrpasol i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau yn benodol ar gyfer teuluoedd Gwasanaeth sy'n symud i, o amgylch ac i ffwrdd o ysgolion yr Alban. Roedd casgliad sylweddol y wybodaeth a oedd ar gael ar wefannau amrywiol yr Alban yn anodd iawn i deuluoedd fynd drwyddo yn rhan o'r broses bontio. Gofynnodd teuluoedd symudol oedd â phrofiad o symudiadau niferus a rheolaidd am borth penodol yn cysylltu ag

[19] Choosing a school: a guide for parents, diwygiwyd mis Tachwedd 2016

awdurdodau lleol a ffynonellau perthnasol o wybodaeth a chymorth, oedd wedi alinio i ddechrau â lleoliadau, cymunedau ac ysgolion lleol. Felly, sefydlwyd gwefan Addysg Plant y Lluoedd, oedd yn darparu porth i'r wybodaeth hon ac yn fan cyswllt cyntaf i deuluoedd Gwasanaeth. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol ac yn darparu gwybodaeth benodol i bob un.

3D. Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm

3.13. Gan fod teuluoedd Gwasanaeth yn symud am resymau Gwasanaeth, mae'n bosibl y bydd angen i blant Gwasanaeth symud ysgol sawl gwaith. Er bod cyrhaeddiad addysgol plant Gwasanaeth fel grwp yn debyg iawn i gyrhaeddiad plant nad ydynt yn rhai Gwasanaeth, **mae'n bosibl y bydd eu cyrhaeddiad addysgol wedi'i effeithio** os ydyn nhw wedi'u lleoli mewn ysgol sy'n defnyddio cwricwlwm neu fyrddau arholi gwahanol, neu os ydyn nhw'n gorfod symud sawl gwaith ar gamau pwysig yn eu haddysg. Efallai y byddant yn profi bylchau dysgu neu'n ailadrodd pynciau yr oeddent eisoes wedi'u dysgu mewn ysgolion blaenorol. Gall nifer y symudiadau y mae'n rhaid i blentyn Gwasanaeth eu cyflawni arwain at effaith gronnol fwy ar eu haddysg nag y byddai plentyn nad yw'n blentyn Gwasanaeth yn ei phrofi. Os bydd cyrhaeddiad addysgol plentyn yn cael ei effeithio, gallai hyn yn ei dro effeithio ar ei gynnydd i'r lefel nesaf o addysg.

3.14. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *gwahanu*, mae'n bosibl y bydd angen i blant Gwasanaeth dreulio wythnosau neu fisoedd, neu'r wythnos waith, oddi wrth y rhiant sy'n gwasanaethu. Yn ei dro, gall yr effaith ar eu lles emosiynol achosi niwed i'w cyrhaeddiad addysgol. Gall bod ar wahân i'r rhiant sy'n gwasanaethu olygu hefyd fod angen i blant helpu i ofalu am eu brodyr a chwiorydd iau neu'r rhiant nad yw'n gwasanaethu, sy'n golygu llai o amser ar waith ysgol, a fydd hefyd yn achosi i'w cyrhaeddiad addysgol ddioddef.

3.15. Os yw gwladolion gwledydd eraill (megis Gurkhas o Nepal) yn ymuno â'r Lluoedd Arfog a'u teulu yn ymuno â nhw yn y DU, gall hyn greu cyrhaeddiad addysgol ychwanegol i blant Gwasanaeth os yw Saesneg yn Iaith Ychwanegol (EAL).

Fforymau

- Daeth Cyngor Sir Rutland i'r casgliad fod cyfran helaeth o'r disgyblion yn yr ardal yn blant Gwasanaeth. Nododd ymgysylltiad ar draws y cyngor, asiantaethau partner, HealthWatch Rutland, timau lles unedau milwrol lleol, ac elusennau Gwasanaeth, bryderon fod rhai o blant Gwasanaeth yn tangyflawni yn addysgol, roedd rhai cyfraddau SEND yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd darlun dryslyd o gefnogaeth ar gael. Cydlynodd y cyngor gyfarfod o bartïon perthnasol i drafod ffyrdd i wella, gan arwain at greu Fforwm Teuluoedd y Lluoedd Arfog. Mae'r fforwm yn cwrdd pum gwaith y flwyddyn gyda mynychwyr o'r sefydliadau hyn yn dod i roi diweddariadau ar bryderon, yn ogystal â siaradwyr gwadd sy'n darparu gwybodaeth dargedig a chysylltiadau cymorth newydd.

Saesneg fel Iaith Ychwanegol

- Nododd ysgol yn Ne Cerney, er bod disgyblion Gwasanaeth yn cyflawni sgoriau Sillafu, Atalnodi a Gramadeg normal, roedd gan y grwp ddiffyg manylder o ran geirfa yn Saesneg. Roedd cyfran fawr o'r plant Gwasanaeth yn dod o Nepal, ac er eu bod nhw'n siarad Saesneg yn rhugl, roedd ganddynt ddiffyg arbenigedd technegol ac anffurfiol yn yr iaith. Cyfarfu'r ysgol â'r rhieni drwy Swyddog Lles y safle milwrol, i drafod y mater o Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Nid oedd llawer o rieni wedi nodi fod gan eu plentyn ofyniad EAL, gan gredu fod gan y plentyn afael da ar yr iaith - cafodd y mythau eu chwalu, a rhoddwyd sicrwydd i'r rhieni y byddai plant EAL yn cael rhagor o gefnogaeth, nid y byddai disgwyl llai ohonynt. Cytunodd yr ysgol i ganolbwyntio ar eirfa gyda disgyblion EAL i sicrhau y gallent gyflawni eu llawn botensial.

3E. Lles plant

3E1. Lles

3.16. Os oes angen i blant Gwasanaeth symud ysgol, efallai y byddant yn **profi effeithiau cymdeithasol,** ac yn gorfod gwneud ffrindiau newydd. Os yw symudiad yn digwydd y tu hwnt i'r cylch derbyniadau arferol, a does dim modd lleoli plentyn mewn ysgol yn y gymuned leol, efallai y byddant yn ei chael hi'n anos cymdeithasu gyda'u ffrindiau ysgol y tu allan i oriau ysgol, creu cyfeillgarwch yn yr ardal y maent yn byw ynddi, neu gael mynediad i weithgareddau trawsgwricwlaidd yn yr ysgol, megis clybiau ar ôl ysgol, sy'n effeithio ar eu profiad cymdeithasol.

3.17. **Gellid effeithio ar les meddyliol** plant Gwasanaeth os yw'r angen i adleoli yn arwain at y plentyn yn colli mynediad i strwythurau cymorth megis ffrindiau ac athrawon. Os oes gan deuluoedd Gwasanaeth fwy nag un plentyn, gall fod yn anodd dod o hyd i ysgolion a fydd yn derbyn yr holl blant, gan arwain at wahanu'r plentyn oddi wrth ei frodyr/chwiorydd, a straen ychwanegol. Os oes angen i blant Gwasanaeth dreulio wythnosau neu fisoedd, neu'r wythnos waith ar wahân i'r rhiant sy'n gwasanaethu, gall y gwahanu, a'r pryder am ddiogelwch rhiant sydd dramor, effeithio'n sylweddol ar les meddyliol y plentyn. Gall y tarfu ar brofiad ysgol, a'r anfanteision eraill a nodir yn y bennod hon, megis taith hirach i'r ysgol, hefyd effeithio ar les meddyliol.

3.18. Yng Nghymru, mae'r prosiect SSCE Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gydag ysgolion, plant a phobl ifanc, awdurdodau lleol, gweithwyr proffesiynol addysg, teuluoedd y Lluoedd Arfog a sefydliadau cymorth i gasglu barn a phrofiadau, adeiladu rhwydweithiau ledled Cymru a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am brofiadau plant Gwasanaeth.

3.19. Yn yr Alban, mae'r dull GIRFEC (Getting It Right For Every Child) wedi bod ar wait hers 2010. Mae'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth am sefyllfa'r plentyn, gan gynnwys dylanwadau ehangach arnyn nhw wrth feddwl am eu lles. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o effaith pontio, symudedd a dadleoliadau sy'n effeithio ar deuluoedd a phlant Gwasanaeth. Mae'n golygu bod angen gweithio cydlynol, felly mae gwasanaethau

sy'n cefnogi plant yn gweithio mewn ffordd gydlynol i fodloni eu hanghenion penodol a gwella eu lles.

3.20. Yn Ngogledd Iwerddon, cyhoeddodd yr Adran Addysg yn ddiweddar Fframwaith Iechyd a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc, sy'n hyrwyddo ethos mewn lleoliadau addysg sy'n darparu cymorth cynnar i'r plant a'r pobl ifanc hynny sy'n dangos arwyddion o fod angen cymorth ychwanegol i ymdopi ag anawsterau emosiynol a allai godi.

Grwpiau Creu Cyfeillgarwch

- Gweithiodd athrawon yn Ysgol Gynradd Pentref Walbottle ger Newcastle, a oedd yn ceisio sicrhau bod plant Gwasanaeth yn integreiddio i amgylchedd addysgol newydd, gyda phlentyn Gwasanaeth ym Mlwyddyn 2 i greu amgylchedd ble gall plant Gwasanaeth feithrin cyfeillgarwch newydd gyda phlant oedd eisoes yn yr ysgol, i gynorthwyo eu lles a chreu strwythurau cymorth newydd. Canlyniad hyn oedd creu 'grwp creu cyfeillgarwch' sydd wedi galluogi plant Gwasanaeth i wneud ffrindiau am flynyddoedd.

Hyrwyddwyr Disgyblion Gwasanaeth

- Rôl yw Hyrwyddwr Disgyblion Gwasanaeth a grëwyd gan Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog i ddarparu cymorth ychwanegol i'w nifer fawr o blant Gwasanaeth. Mae dau Hyrwyddwr yng Ngogledd Swydd Efrog sy'n gweithio ar gefnogi lles emosiynol a datblygiad cymdeithasol plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 18 oed, yn enwedig yn ystod cyfnodau o wasanaeth actif, ac mewn cyfnodau pontio. Nod yr Hyrwyddwyr yw cryfhau llais y disgybl drwy hyrwyddo a datblygu gwaith Arwyr Clwb Plant Milwrol sydd wedi'i sefydlu eisoes mewn rhai ysgolion yng Ngogledd Swydd Efrog. Mae'r Hyrwyddwyr yn darparu cymorth un i un, gweithdai gorbryder, cymorth cyntaf emosiynol a chefnogaeth i rieni sy'n gwasanaethu, disgyblion, gwybodaeth allgymorth i rieni sy'n gwasanaethu gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, a chyswllt rhwng safleoedd ac ysgolion (er enghraifft, rhybudd ymlaen llaw o deuluoedd Gwasanaeth sy'n symud i mewn).

Clybiau Ar Ôl Ysgol Ychwanegol

- Nododd ysgol yn Ne Cerney nad oedd disgyblion Gwasanaeth yn mynd i glybiau ar ôl ysgol, gan nad oedd yr amserlen fysus yn galluogi plant Gwasanaeth, a oedd yn cymudo i'r safle milwrol lleol, i aros ar ôl ysgol. Cysylltodd yr ysgol â'r safle lleol a sefydlodd clwb ar ôl ysgol (gyda darparwr chwaraeon trydydd parti) ar y safle gan ddefnyddio ei gyfleusterau. Gan gydnabod fod hyn yn broblem i ysgolion lleol eraill gyda phlant Gwasanaeth, cafodd unrhyw leoedd gwag eu cynnig i'r ysgolion hynny. Roedd hyn yn cefnogi'r gymuned, yn gwneud y mwyaf o gyfleusterau ac yn dwyn ynghyd plant Gwasanaeth. Ehangodd y clwb i gynnwys cysylltu â rhieni a oedd yn gwasanaethu, a chynnwys aelodau o'r gymuned i wella perthnasoedd dinesig-milwrol.

Siarad â Phlant Gwasanaeth am eu Hanghenion

- Trefnodd Cyngor Sir Swydd Rhydychen cynhadledd ar gyfer plant Gwasanaeth i rannu eu profiadau o fywyd mewn teulu Lluoedd, a sut y gallai plant eu cefnogi

nhw. Cododd y plant Gwasanaeth nifer o anawsterau, a dywedon nhw yr hoffent i benaethiaid:

- Gwrando ar bob plentyn Gwasanaeth, cynnig rhywun i siarad â nhw, a chreu cyngor disgyblion Gwasanaeth sy'n cwrdd â'r Pennaeth.
- Lleddfu pontio rhwng ysgolion a galluogi cyflwyniadau gydag athrawon.
- Darparu system gyfeillio i rai sy'n newydd i'r ysgol.
- Darparu gofod i blant Gwasanaeth feddwl a gweithio drwy deimladau.
- Trefnu clwb ysgol i blant Gwasanaeth ar gyfer gweithgareddau a rhannu teimladau.
- Penodi athro yn Hyrwyddwr Disgyblion Gwasanaeth.
- Dod o hyd i ffyrdd i rannu sut beth yw bywyd Gwasanaeth gyda disgyblion a staff nad ydynt yn rhai Gwasanaeth.
- Trefnu diwrnodau lle mae'r ysgol yn dathlu'r Lluoedd Arfog.

Ymatebodd Cyngor Sir Swydd Rhydychen i'r adborth hwn a chreu Addewid Disgyblion Gwasanaeth yn nodi sut bydden nhw'n gweithredu'r adborth a dderbyniwyd.

Darparu Fforwm ar gyfer Plant Gwasanaeth

- Ym mis Hydref 2017, cynhaliodd Ymddiriedolaeth Addysg Royal Caledonian (sydd bellach yn cael ei alw'n Plant Lluoedd yr Alban) cyfres o gynadleddau disgyblion 'Teen Talks' ar draws yr Alban, gan roi cyfle i deuluoedd Gwasanaeth ddod at ei gilydd a thrafod materion sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd llawer iawn o gyfranogwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei diystyru mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio arnyn nhw. Mewn ymateb i hyn, sefydlodd yr Ymddiriedolaeth Raglen Cyfranogiad Ieuenctid, y mae bellach yn ei rheoli, sy'n gweithio'n agos â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, gweithwyr cymunedol ac ysgolion, gyda chymorth cyllid allanol. Mae gan y rhaglen saith o fforymau lleol a fforwm cenedlaethol. Arweinir y grwpiau gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc, a'r nod yw cynyddu hyder ymysg pobl ifanc, sgiliau, rhwydweithio a chyfleoedd i gael mynegi barn ar bolisïau a gwasanaethau. Arweiniodd y rhaglen at ddatblygu'r prosiect 'Your Mind Matters' i gynorthwyo plant Gwasanaeth gyda'u hiechyd meddwl, y prosiect 'Our Forces Life' i godi ymwybyddiaeth o blant Gwasanaeth ymysg cyfoedion dinesig, a'r 'Manifesto for Service children' a gyhoeddwyd cyn etholiadau Senedd yr Alban yn 2021.

Rhannu Gwybodaeth

- Mae gan Gyngor yr Ucheldiroedd grwp penodol, y Grwp Cyswllt Milwrol (Addysg), sy'n bartneriaeth o gynrychiolwyr Lluoedd Arfog lleol, darparwyr arbenigol ac arbenigwyr. Mae'r Grwp yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn gwrando ac yn gweithredu ar eu barn. Mae gan y Grŵp wefan Lluoedd Arfog pwrpasol yn rhannu gwybodaeth, adnoddau, cymorth a chyfleoedd hyfforddiant i deuluoedd, plant ac ysgolion. Mae'r Grwp yn cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd gyda diweddariadau gwybodaeth, dolenni ac adnoddau i deuluoedd, ysgolion a Chymuned y Lluoedd Arfog, sydd â chyrhaeddiad lleol a chenedlaethol.

Pecyn Cymorth Bywydau sy'n Ffynnu i Ysgolion

- Partneriaeth o sefydliadau yw Cynghrair Cynnydd Plant Gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau i blant Gwasanaeth, a gynhelir gan Brifysgol

Winchester ac sy'n cael ei gefnogi gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Cynhaliodd y Gynghrair waith ymchwil helaeth a thargedig, gan gydweithio ag ysgolion a phartneriaid eraill ledled y DU i bennu pecyn cymorth. Mae'r pecyn cymorth hwn yn helpu ysgolion i sicrhau eu bod nhw'n darparu cymorth effeithiol i blant Gwasanaeth. Mae'n darparu adnoddau manwl gan gynnwys y sail dystiolaeth, yr hyn gall ysgolion ei wneud i gefnogi eu plant Gwasanaeth, pwy all helpu, ac ystod o astudiaethau achos. Mae'r pecyn cymorth yn darparu fframwaith o 7 o egwyddorion sy'n cynorthwyo ysgolion i fyfyrio ar eu hymarfer a chyfres 3 haen o adnoddau DPP. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

1. Eglurder dull - Mae dealltwriaeth a dull dysgwyr yn sicrhau bod adnoddau a pholisïau yn gwella deilliannau plant Gwasanaeth.
2. Cefnogir lles - Mae darpariaeth fugeiliol wedi'i teilwra yn cefnogi iechyd meddwl a lles plant Gwasanaeth.
3. Manteisio i'r eithaf ar gyrhaeddiad - Mae addysgu, asesu a chymorth yn sicrhau parhad dysgu a chynnydd plant Gwasanaeth.
4. Mae pontio'n effeithiol - Mae systemau a chymorth yn sicrhau pontio rhwydd i blant Gwasanaeth sy'n gadael ac yn cyrraedd yr ysgol.
5. Mae plant yn cael eu clywed - Mae lleisiau amrywiol plant Gwasanaeth yn cael eu clywed ac yn llywio'r gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn.
6. Mae rhieni'n cael eu cynnwys - Mae partneriaethau cartref-ysgol cryf yn helpu teuluoedd Gwasanaeth i deimlo wedi'u gwerthfawrogi yn rhan o gymuned yr ysgol.
7. Mae gan staff ddealltwriaeth dda - Mae hyfforddiant a rhwydweithiau cefnogol yn sicrhau bod staff yn deall ac yn cefnogi pob plentyn Gwasanaeth.

Gallwch weld enghreifftiau pellach yn ymwneud â gwella lles plant Gwasanaeth yn adran 3I.

3E2. Diogelu

3.21. Os yw plant Gwasanaeth yn symud rhwng ysgolion yn rheolaidd, bydd hi'n benodol bwysig fod unrhyw wybodaeth ynghylch diogelu/amddiffyn plant yn cael ei rhannu rhwng ysgolion. Cyfrifoldeb yr arweinydd diogelu yw hyn, fel y'i nodir ar gyfer Lloegr yn y canllaw statudol Keeping Children Safe in Education, ac i Gymru, y person diogelu dynodedig fel y'i nodir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth am y materion lles a nodir uchod yn cefnogi staff ysgol wrth ystyried y ffordd orau i ddiogelu plentyn Gwasanaeth. Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Lloegr ar *Working Together to Safeguard Children,* ac ar gyfer yr Alban, *National Guidance for Child Protection in Scotland 2021,* yn cynnwys adrannau ar blant Gwasanaeth. Ar gyfer Cymru, mae Cydweithio i Ddiogelu Pobl: Rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant, a'i adnoddau ategol, yn darparu cyngor anstatudol ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant.

3F. Cludiant

3.22. Os oes angen i blentyn Gwasanaeth symud ysgolion y tu allan i'r cylch derbyniadau arferol, mae'n bosibl na fydd yr awdurdod lleol yn gallu sicrhau lle iddynt mewn ysgol yn agos at eu cartref newydd, gan arwain atynt yn profi **taith hirach i'r ysgol, neu daith anoddach.**

3.23. Gellid lleddfu hyn drwy ddefnydd arferol o'r polisi cludiant ysgol am ddim - mae'n bosibl y bydd y plentyn Gwasanaeth yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cludiant ysgol am ddim yn Lloegr, Cymru, Yr Alban, a G Iwerddon.

3.24. Os oes angen i blentyn Gwasanaeth, sy'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim rhwng yr ysgol a'r cartref, symud o fewn ardal leol, ond mae'n gallu parhau yn yr un ysgol, efallai na fyddant bellach yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim i'r ysgol honno. Yn 2015, bu i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol (fel yr oedd yn cael ei alw bryd hynny) gadarnhau cwyn am gyngor yn Lloegr a wnaeth ddirymu cludiant ysgol am ddim i blentyn Gwasanaeth wedi i'r teulu orfod symud i rywle arall yn yr ardal am resymau Gwasanaeth. Roedd un o ganfyddiadau'r Ombwdsmon yn nodi nad oedd y cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Roedd yn argymell y dylai'r cyngor wneud yn iawn am hyn drwy sicrhau cludiant ysgol am ddim i'r plentyn cyn gynted â phosibl, a thalu £2,000 i'r teulu i ad-dalu'r costau yr oeddent wedi'u talu ac i gydnabod y straen a achoswyd yn sgil methiannau'r cyngor.

3.25. Mae'n bosibl y bydd cyrff sy'n gyfrifol am gludiant rhwng yr ysgol a'r cartref ddefnyddio eu pwerau ar ddisgresiwn i ddarparu cludiant am ddim neu ar bris is i blant Gwasanaeth nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Yn Lloegr, gallai hyn gynnwys plant Gwasanaeth 16 ac 17 oed sy'n mynd i'r ysgol neu addysg bellach yn rhan o'u dyletswydd statudol i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant nes eu pen-blwydd yn 18, gan fod y lefel o gefnogaeth i ddarparu iddynt yn benderfyniad i'r awdurdodau lleol, ac nid oes angen i'r trefniadau gynnwys cludiant am ddim neu ar bris is.

3.26. Os nad yw'r plentyn Gwasanaeth yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim, mae'n bosibl na fydd y person Gwasanaeth yn gallu helpu gyda chludo'r plentyn i'r ysgol, oherwydd y rhwymedigaethau a'r cyfaddawdau unigryw o ran *gwahanu* ac *oriau gwaith.* Hefyd, mae'n bosibl na fydd strwythurau cymorth eraill megis neiniau a theidiau ar gael, a gall hyn roi **baich sylweddol ar y partner Gwasanaeth.** Gall hyn fod yn waeth os yw brodyr a chwiorydd wedi'u lleoli mewn ysgolion gwahanol yn bell oddi wrth ei gilydd, oherwydd diffyg lleoedd ysgol, gan fod hyn yn golygu ceisio taro balans rhwng trefniadau cludiant. Mae'n bosibl y bydd yr angen i reoli trefniadau cludiant ysgol yn ei gwneud hi'n anodd i'r partner Gwasanaeth barhau â'i gyflogaeth ei hun, gan y gallai effeithio ar ei oriau gwaith. Gall yr heriau hyn fod yn waeth i deuluoedd Gwasanaeth gyda phlant ag anghenion ychwanegol.

Camau Gweithredu sy'n Lleddfu

- Ar ôl symud i ardal newydd, cafodd dau o blant Gwasanaeth, a oedd yn frodyr a chwiorydd, eu lleoli mewn ysgolion gwahanol. Disgrifiodd eu mam yr heriau o ran cael y ddau blentyn i'r ysgol ar amser. Cawsant wasanaeth tacsi am ddim i un plentyn, a oedd yn ei galluogi hi i gerdded gyda'r plentyn arall i'r ysgol. Roedd yr ysgolion hefyd yn cynnig gofal ar ôl ysgol am ddim nes y gallai gasglu un plentyn, a nes ei bod hi gartref i'r tacsi ollwng y plentyn arall.

Diwygio'r Polisi Cludiant Ysgol

- Mewn ymateb i'r penderfyniad yn 2015 gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol (fel yr oedd yn cael ei alw bryd hynny) a nodwyd uchod, ymrwymodd y Cyngor i wella ei ymarfer drwy:

- sicrhau bod swyddogion a phaneli yn nodi a yw'r Cyfamod yn berthnasol i gais ar gam cynnar;
- diwygio ei bolisi cludiant ysgol i bwysleisio nad yw'r rhestr o enghreifftiau y mae'n ei darparu (o amgylchiadau eithriadol lle bydd yn arfer ei ddisgresiwn o ran darparu cludiant) yn rhestr gynhwysfawr, ac i wahodd rhieni i nodi os yw eu hamgylchiadau yn debyg i'r amgylchiadau a restrir;
- diwygio ei ffurflenni apêl cludiant ysgol i ofyn i rieni nodi unrhyw resymau pam na fyddent o bosibl yn gallu cynnal unrhyw drefniadau sydd ganddynt ar waith i sicrhau bod y plentyn yn cyrraedd yr ysgol.

Addasu i Amgylchiadau Lleol

- Pan ddarperir cludiant i ddisgyblion yng Ngogledd Iwerddon, yn y rhan fwyaf o achosion maen nhw'n cael eu cludo'n uniongyrchol o'r safle milwrol i'r ysgol. Mae Adran Addysg Gogledd Iwerddon yn trafod â Swyddog Teuluoedd dynodedig y Lluoedd Arfog i sicrhau bod yr Awdurdod Addysg a gyrwyr tacsis yn cyflawni'r gwiriadau cydymffurfiaeth cywir i gael mynediad i'r safle milwrol.

3G. Presenoldeb

3.27. Oherwydd rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw o ran *gwahanu*, mae'n bosibl na fydd teuluoedd Gwasanaeth **yn gallu mynd ar wyliau, neu dreulio amser gyda'i gilydd, yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol arferol.** Mae'n bosibl y bydd plant Gwasanaeth yn nodi fod ganddynt amser cyfyngedig gyda'u rhiant/rhieni sy'n gwasanaethu os gall y rhiant ddychwelyd yn ystod y tymor ysgol yn unig. Gall y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *oriau gwaith* olygu, hyd yn oed os yw'r person Gwasanaeth yn parhau ar leoliad y safle yn y DU, bod eu dyletswyddau'n eu hatal nhw rhag cymryd gwyliau yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol arferol. Felly, mae'n bosibl y bydd y teulu Gwasanaeth yn gofyn i'r ysgol am ganiatâd i fynd ar wyliau yn ystod y tymor ysgol.

3.28. Fel pob plentyn, mae'r penderfyniad ar p'un a ddylid awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor i blant Gwasanaeth yn benderfyniad i bennaeth yr ysgol. Er y bydd anghenion addysgol y plentyn Gwasanaeth yn ffactor hanfodol wrth bennu a ddylid caniatáu absenoldeb yn ystod y tymor, dylid ystyried hefyd effeithiau ehangach ar y teulu Gwasanaeth. Gall fod yn anodd i rieni sy'n gwasanaethu gael caniatâd i dynnu eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor os yw polisi presenoldeb yr ysgol a phroses benderfynu'r ysgol yn methu ag ystyried natur bywyd Gwasanaeth.

3.29. Dylai teuluoedd Gwasanaeth wneud cais i'r ysgol ymlaen llaw, gan gyflwyno tystiolaeth o sut mae anghenion gweithredol y Lluoedd Arfog wir wedi atal teulu Gwasanaeth rhag mynd ar wyliau yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol arferol.

3.30. Yn y gorffennol, mae penaethiaid wedi ceisio cyngor ar geisiadau am absenoldeb ysgol gan Swyddogion Awdurdodol Unedau a'u staff Lles, a oedd yn gallu rhoi cyngor, gwerthusiad a chefnogaeth fel bo angen. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi creu Canllaw sy'n rhoi cyngor i benaethiaid ar absenoldeb yn ystod yr tymor ysgol i blant Gwasanaeth. Mae'n cynnwys manylion cyswllt a all gael eu defnyddio os nad yw penaethiaid yn siwr sut i gysylltu â'r uned berthnasol yn y Lluoedd Arfog.

Cod Presenoldeb

- Mae Adran Addysg Gogledd Iwerddon wedi creu cod presenoldeb disgyblion penodol, sy'n cael ei alw yn Cod J (Absenoldeb Estynedig), y gall ysgolion ei ddefnyddio mewn amgylchiadau lle bo angen bod i ffwrdd o'r ysgol er mwyn mynd i'r afael ag ystod o faterion domestig a'r teulu. Nid yw defnyddio'r cod yn cael effaith andwyol ar gofnod presenoldeb y disgybl.

3H. Cymorth anghenion ychwanegol

3.31. 'Anghenion ychwanegol' yw'r term a ddefnyddir yma i ddisgrifio plant sydd angen cymorth ychwanegol. Gelwir hyn yn Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND) yn Lloegr, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALN) yng Nghymru, Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu (ASL) yn yr Alban, ac Anghenion Addysgol Arbennig (SEN) yng Ngogledd Iwerddon.

3.32. Gall plant Gwasanaeth ag anghenion ychwanegol deimlo effaith yr heriau y mae pob plentyn Gwasanaeth yn eu teimlo o ganlyniad i orfod symud ysgolion yn aml yn fwy sylweddol. Os oes cynllun statudol eisoes ar waith, gall gymryd peth amser i'r awdurdod lleol roi trefniadau tebyg ar waith, fel y trefniadau a oedd ar waith yn yr hen leoliad. Gellid lleddfu hyn os yw'r awdurdod gwreiddiol yn gallu rhannu holl gofnodion angenrheidiol y plentyn gyda'r awdurdod newydd mewn modd amserol. Mae rhai teuluoedd Gwasanaeth wedi nodi fod eu plant wedi treulio amser allan o'r ysgol, neu'n derbyn darpariaeth amhriodol (megis cael eu lleoli mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion), oherwydd anawsterau'r awdurdod lleol yn sicrhau lle mewn ysgol a allai gynnig darpariaeth berthnasol.

3.33. Mae'n bosibl y bydd angen i blant Gwasanaeth symud rhwng gwledydd y DU i leoliadau tramor, lle mae darpariaeth a phrosesau lleol o ran trefnu cymorth priodol yn wahanol i'r hyn yr oedd y plant a'r teulu wedi arfer gydag ef gynt. Gall rheoli cynlluniau anghenion ychwanegol fod yn anodd i deuluoedd Gwasanaeth sydd wedi'u lleoli yn rhywle arall yn y DU neu dramor - pan fyddant yn dychwelyd, efallai y bydd angen iddynt fynd drwy broses asesu newydd.

3.34. Gall oedi o ran cael mynediad i gymorth a darpariaeth arbenigol i blant Gwasanaeth achosi heriau ychwanegol i deuluoedd Gwasanaeth. Yn ogystal, dros gyfnod o sawl adleoliad, gall y tarfu posibl ar wasanaethau effeithio ar gynnydd a lles y plentyn Gwasanaeth.

3.35. Yn Lloegr, mae cod ymddygiad SEND, sydd â grym statudol yn Lloegr, yn cynnwys canllawiau ynghylch plant a theuluoedd Gwasanaeth.

3.36. Yng Nghymru, mae pennod 18 o God ADY Cymru yn cynnwys canllawiau ynghylch darpariaeth addysgol i blant Gwasanaeth gydag ADY. Hefyd, mae'r Cod ADY yn nodi dyletswyddau penodol i ysgolion a gynhelir, colegau ac awdurdodau lleol wrth benderfynu ar ADY ac wrth baratoi neu adolygu cynllun datblygu unigol i blentyn neu berson ifanc Gwasanaeth.

3.37. Yn yr Alban, mae Deddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu) (Yr Alban) 2004 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau dysgu y mae plentyn neu person ifanc yn eu profi. Gall y rhwystrau hyn ddigwydd am unrhyw reswm, a gallent fod yn hirdymor neu'n fyrdymor. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, y gorbryder y mae plentyn yn ei deimlo pan fo rhiant yn cael ei leoli, neu effaith tarfu ar ddysgu oherwydd gorfod symud yn rheolaidd. Mae'r canllawiau statudol yn y Cod Ymarfer sy'n ategol i Ddeddf 2004 hefyd yn darparu cymorth yn hyn o beth, ac yn cyfeirio'n benodol at deuluoedd Lluoedd Arfog a phontio. Mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu ystod o wasanaethau sy'n ceisio cefnogi teuluoedd i gael mynediad i gyngor a chymorth ar ASL. Mae hyn yn cynnwys Enquire, y gwasanaeth cyngor a gwybodaeth cenedlaethol i rieni ar ASL, a My Rights, My Say, sy'n darparu cymorth i blant sy'n ceisio arfer eu hawliau dan Ddeddf 2004.

3.38. Does dim modd trosglwyddo cynlluniau statudol i Ogledd Iwerddon, felly os yw plentyn Gwasanaeth ag anghenion ychwanegol yn symud i Ogledd Iwerddon, byddai angen mynd drwy broses ffurfiol o Asesiad Statudol o'r dechrau er mwyn cael Datganiad SEN.

Sawl Awdurdod Lleol yn Lloegr yn Cytuno ar Egwyddorion

- Mae Partneriaeth Awdurdod Lleol y Weinyddiaeth Amddiffyn (MODLAP) yn bartneriaeth rhwng MOD ac awdurdodau lleol yn Lloegr sydd wedi ymrwymo i gydweithio i wella profiad a deilliannau plant Gwasanaeth gyda SEND. Sefydlodd MODLAP gyfres o egwyddorion i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli trosglwyddiadau plant Gwasanaeth â SEND yn effeithiol. Mae'r egwyddorion yn adeiladu ar god ymddygiad SEND.

3I. Defnyddio cyllid Premiwm Disgybl Gwasanaeth (Lloegr yn unig)

3.39. Yn Lloegr, mae cyllid ychwanegol i ysgolion â phlant Gwasanaeth ar y gofrestr ar gael drwy'r Premiwm Disgybl Gwasanaeth (SPP). Felly, gall helpu i ddileu anfanteision. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o arfer gorau wrth ddefnyddio'r cyllid hyn a chyfathrebu â rhieni sy'n poeni i roi gwybod sut mae'r cyllid yn cael ei wario. Dim ond yn Lloegr y mae'r SPP ar gael.

3.40. Mewn ymateb i bryderon rhieni o ran defnydd o'r SPP, gweithiodd Llywodraeth y DU ag ysgolion i bennu'r ffyrdd gorau y mae ysgolion wedi defnyddio cyllid SPP. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y canfyddiadau hyn er budd pob ysgol.

3.41. Ymhlith yr enghreifftiau o ddefnydd da o SPP mae:

a. Monitro cynnydd plant Gwasanaeth yn erbyn plant eraill
b. Datblygu strategaethau ymyrraeth
c. Darparu cynorthwywyr addysgu cymwys a mentoriaid cymorth bugeiliol
d. Teithiau ysgol i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Lluoedd Arfog
e. Aelodaeth o Arwyr Clwb Plant Milwrol - rhwydwaith i blant Gwasanaeth ym maes addysg
f. Gweithgareddau trawsgwricwlaidd
g. Bod mewn cyswllt rheolaidd â rhieni Gwasanaeth
h. Meithrin cysylltiadau â safleoedd Lluoedd Arfog lleol

3.42. Bellach, mae'r templed y mae angen i ysgolion ei lenwi a'i gyhoeddi, gan nodi eu strategaeth Premiwm Disgyblion, yn cynnwys maes dewisol ar sut cafodd yr SPP ei wario yn y flwyddyn academaidd blaenorol, a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar ddisgyblion cymwys.

3.43. Yng Nghymru, caiff plant Gwasanaeth eu cefnogi gan y Rhaglen Cefnogi Plant Gwasanaeth mewn Addysg Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid targedig i gefnogi ysgolion unigol ac awdurdodau lleol.

3.44. Er nad oes gan yr Alban opsiwn cyfwerth i'r SPP, mae pob plentyn yn yr Alban gydag angen cymorth ychwanegol yn gymwys am gymorth. Mae hyn yn cynnwys anghenion yn deillio o symudedd rhieni a lleoliadau yn y Lluoedd Arfog.

Cyfeirlyfr Adnoddau SPP

- Cynhyrchwyd Cyfeirlyfr Adnoddau Premiwm Disgyblion Gwasanaeth Gorllewin Swydd Efrog yn rhan o Brosiect Cyfamod Lluoedd Arfog Gorllewin Swydd Efrog. Mae'r Cyfeirlyfr yn dwyn ynghyd gwybodaeth gan yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Plant Gwasanaeth mewn Ysgolion Gwladol, a Chynghrair Cynnydd Plant Gwasanaeth. Mae wedi cael ei greu i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu dealltwriaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog, Cymuned y Lluoedd Arfog a'r Premiwm Disgyblion Gwasanaeth.

- Mae gan Gyngor Sir Amwythig borth ar gyfer cymorth Lluoedd Arfog i'w ddefnyddio gan Gymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau cyhoeddus. Mae un adran yn darparu eglurder o ran pwrpas yr SPP a'i ddefnyddiau a argymhellir, gan awgrymu cyngor swyddogol gan y llywodraeth.

Rhannu Arfer Gorau

- Cydweithiodd ysgolion lleol yn Swydd Gaerloyw i sefydlu rhwydwaith o adnoddau rhannu, hyfforddiant a syniadau ynghylch helpu plant Gwasanaeth i lwyddo ym maes addysg. Crëwyd diwylliant rhannu cryf a thyfodd dealltwriaeth well o ddulliau a sut i feithrin disgyblion Gwasanaeth ledled y clwstwr. Roedd hyn yn benodol fuddiol i ysgolion llai gyda llai o chyllid a llai o blant Gwasanaeth.

4. Tai

Crynodeb

4.1. Dim ond lleiafrif bach o Gymuned y Lluoedd Arfog fydd angen defnyddio gwasanaethau tai a ddarperir gan gyrff tai y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt (adran 4A). Pan fydd angen i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ddefnyddio gwasanaethau tai, mae'r anfanteision y gallent brofi, yn deillio o rwymedigaethau a chyfaddawdau bywyd Gwasanaeth yn cynnwys y canlynol. Pan brofir yr anfanteision hyn, maen nhw'n fwy tebygol o gael eu profi gan gyn-filwyr, personél Gwasanaeth sydd ar fin gadael Gwasanaeth a dod yn gyn-filwyr, a theuluoedd Gwasanaeth.

a. **Diffyg gwybodaeth am y gwasanaethau tai cymdeithasol yn eu hardal leol, neu sut i fanteisio arnynt.** Gall hyn eu gwneud nhw'n llai tebygol o geisio'r gwasanaethau tai y mae ganddynt hawl iddynt. (Adran 4C1)

b. **Methu ag adeiladu 'cysylltiad lleol' digonol** yn unol â chynllun dyrannu awdurdod lleol, gan leihau eu mynediad at dai cymdeithasol yn yr ardal ble maen nhw'n byw. (Adran 4C2)

c. **Ddim yn cael eu blaenoriaethu i dderbyn tai cymdeithasol addas, neu ddiffyg gwybodaeth am dai cymdeithasol,** sy'n bodloni anghenion tai penodol a achosir gan anafiadau corfforol neu feddyliol yn deillio o'r Gwasanaeth. (Adran 4C3)

d. **Ei chael hi'n anos cyfathrebu â chorff tai,** tra ar leoliad tramor, o gymharu â chleientiaid corff tai nad ydynt yn rhai Gwasanaeth, sydd yn y DU. (Adran 4C4)

e. **Diffyg gwybodaeth am sut i lywio'r sector tai dinesig, y system les a chyllidebu**, gan arwain at anawsterau'n cael neu'n cynnal tenantiaeth dai cymdeithasol (adran 4D) neu gynyddu eu tebygolrwydd o ddod yn ddigartref (adran 4E).

f. **Amharodrwydd i geisio cymorth cynnar i osgoi digartrefedd**, am resymau megis stigma, cywilydd, neu gred na fydd cyrff dinesig yn deall eu profiadau, a allai hefyd gynyddu eu tebygolrwydd o ddod yn ddigartref. (Adran 4E)

g. **Angen addasiadau i'w tai pan fyddant yn symud i ardal newydd, neu ddiffyg gwybodaeth o ran pa grantiau sydd ar gael**, sut i wneud cais ar eu cyfer, a pha wybodaeth sydd ar gael i gefnogi'r cais. Gallai hyn arwain atynt yn treulio mwy o amser mewn cartref nad yw'n bodloni eu hanghenion. (Adran 4F)

4.2. Bydd gwybodaeth o ran pa bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau sy'n aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn ategu ymatebion llwyddiannus i'r materion hyn gan gyrff tai penodedig. (Adran 4B)

4A. Cymuned y Lluoedd Arfog a gwasanaethau tai cyhoeddus

4.3. Mae rhai **personél Gwasanaeth llawn amser** yn byw mewn tai perchnogaeth breifat, neu rhentu preifat. Os nad yw personél Gwasanaeth gyda rhywun ar leoliad (naill ai gan eu bod nhw'n sengl neu gan fod y teulu'n byw yn rhywle arall), mae'r Lluoedd Arfog yn cynnig Llety Byw Unigol, fel arfer mewn fflat a rennir neu floc llety, neu lety amgen addas. Os yw personél Gwasanaeth yn byw gyda'u teulu ar leoliad, mae'r Lluoedd Arfog yn cynnig Llety Teulu Gwasanaeth, neu lety amgen addas. Felly, fel arfer nid oes angen tai cymdeithasol ar bersonél Gwasanaeth.

4.4. Fodd bynnag, os yw nad yw **teuluoedd** personél Gwasanaeth yn dod gyda nhw ar leoliad, efallai y byddant yn parhau i fyw mewn tai cymdeithasol ymhell oddi wrth y person Gwasanaeth, a derbyn llai o gymorth gan y Lluoedd Arfog. Mae'n bosibl y bydd **Milwyr Wrth Gefn** hefyd yn byw gyda theulu mewn tai cymdeithasol.

4.5. Mae'r rhan fwyaf o **gyn-filwyr** yn pontio'n rhwydd o fywyd milwrol i fywyd dinesig. Dim ond lleiafrif bychan o gyn-filwyr sy'n ei chael hi'n anodd i setlo a chynnal llety. Mae'n bosibl y bydd cyn-filwyr angen gwasanaethau tai o ran tai cymdeithasol, tenantiaethau ac addasiadau (fel y'i nodir isod).

4.6. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rhai o'r ffyrdd y gall Cymuned y Lluoedd Arfog brofi anfantais ym meysydd tai amrywiol. Nid yw'r materion a ddisgrifiwyd yn gynhwysfawr gan y gallai materion eraill godi am amryw resymau.

4.7. Mae astudiaethau achos mewn bocsys testun wedi'u cynnwys i ddangos ffyrdd defnyddiol y mae cyrff wedi helpu i leddfu'r anfanteision hyn, neu, ble bo'n briodol, wedi cyflwyno darpariaethau arbennig. **Nid yw'r astudiaethau achos hyn yn nodi camau gweithredu gorfodol,** ond maent wedi'u cynnwys i ddarparu enghreifftiau a syniadau am y math o ymddygiad a chamau gweithredu sydd wedi arwain at brofiadau gwell i Gymuned y Lluoedd Arfog, y gallai cyrff fod eisiau eu hystyried wrth gydymffurfio â'r Ddyletswydd.

4B. Nodi Defnyddwyr Gwasanaeth o Gymuned y Lluoedd Arfog

4.8. Bydd ymwybyddiaeth ymysg y cyrff penodedig o'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau tai sy'n aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn helpu i wella'r ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni.

4.9. Ym mis Mehefin 2020, cyhoeddwyd canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr, o'r enw 'Improving access to social housing for members of the Armed Forces'. Mae hyn yn cynnwys adran o sut gall awdurdodau lleol yn Lloegr nodi ceisiadau gan aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hystyried ar wahân.

Adnabod yn Well Aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog

- Bellach, mae ffurflenni cais i Wigan and Leigh Housing yn cynnwys y cwestiwn, 'If you or your partner are serving or have formerly served in the Armed Forces, please provide details of your service number'. Mae hyn er mwyn cynorthwyo'r broses o nodi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog i wella'r ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni.

- Nod Ymgyrch No Homeless Veterans Clwstwr Tai Cobseo yw sicrhau bod cyn-filwyr yn cael eu hadnabod ar bwynt angen, ac yn cael eu cyfeirio i'r gwasanaethau cymorth gwell sydd ar gael. Mae'n annog cyrff cyhoeddus i 'Ystyried Cyn-filwyr' drwy:
    - Adnabod - gofyn yn rheolaidd i bawb sy'n gwneud cais am dai os ydyn nhw'n gyn-filwr, cefnogi a chynnal y data hwnnw, a labelu gwybodaeth penodol i gyn-filwyr ar y wefan.
    - Cymorth - ystyried a allant fodloni'r anghenion tai ac unrhyw anghenion unigryw yn deillio o Wasanaeth, gan eu cyfeirio nhw at y Porth Cyn-filwyr pan fydd pob llwybr wedi'i droedio, a phenodi hyrwyddwr atebol i sicrhau bod ymrwymiadau'n cael eu bodloni.

  Mae straeon cymorth a ddarperir i gyn-filwyr a'u teuluoedd ar gael.

4C. Polisi dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol

4C1. Mynediad i wasanaethau tai

4.10. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig*,[20] mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth **ddiffyg gwybodaeth am wasanaethau tai cymdeithasol ar gael yn yr ardal leol, neu sut i'w defnyddio.** Gallai hyn eu gwneud nhw'n llai tebygol o geisio gwasanaethau tai y mae ganddynt hawl i'w cael.

4.11. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *perygl,* mae'n bosibl y bydd cyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth yn profi problemau iechyd meddwl sy'n gwaethygu eu heriau o ran cael mynediad i wasanaethau a allai fod o fudd iddynt.

Cyflogaeth Swyddogion Allgymorth

- Yn 2012, nododd Cyngor Gateshead ddiffyg aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog a oedd yn defnyddio gwasanaethau tai'r awdurdod lleol. Cafodd swyddog Allgymorth y Lluoedd Arfog ei benodi i gysylltu'r cyngor â Chymuned y Lluoedd Arfog yn lleol, gan arwain at gynnydd o 25% o aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn dod at Gyngor Gateshead am gyngor ar dai. Yn 2020/21, yn rhan o Wasanaeth Allgymorth Lluoedd Arfog rhanbarthol mwy, gan gynnwys awdurdodau lleol Newcastle, Durham a Northumberland a Believe Housing, cynigiodd y gwasanaeth rhanbarthol gymorth i 424 o aelodau'r Gymuned, gan godi £61,979 i dalu ôl-ddyledion rhent, penodi blaenoriaeth tai cymdeithasol i 93 o aelodau, a chynorthwyo 76 o aelodau i symud i dai cymdeithasol.

- Yn Glasgow, mae hwb cyn-filwyr y ddinas, Helping Heroes, yn penodi arbenigwr tai a ariennir gan Gymdeithas Tai Glasgow, landlord cymdeithasol cofrestredig mwyaf y ddinas. Nododd y rhai a gyfwelwyd â nhw yn Glasgow fod cael gweithiwr proffesiynol a gyflogir gan landlord cymdeithasol mwyaf y ddinas yn golygu bod y camau y mae'n rhaid i lawer yn y Gymuned fynd drwyddynt i gael y cyngor cywir yn sylweddol llai o ran nifer.

[20] Eglurir y rhwymedigaethau a'r cyfaddawdau mewn ffont *italig* yn y bennod hon yn adran 1G.

- Mae cynghorau Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi nodi bwlch yn narpariaeth cyngor a gwybodaeth wedi'u teilwra. Mae negeseuon wedi'u creu i ddarparu cymorth a chyngor uniongyrchol i Gymuned y Lluoedd Arfog ar bynciau amrywiol, gan gynnwys tai, a chyfeirio syml i sicrhau y gall Cymuned y Lluoedd Arfog gael mynediad i'r gwasanaethau sector cyhoeddus a thrydydd sector cywir iddyn nhw. Mae'r swyddogion yn bresennol yn y gymuned ac yn trefnu boreau coffi a digwyddiadau eraill. Cefnogir hyn gan wasanaeth gwefan, ffôn ac e-bost. Gellir bwcio apwyntiadau wyneb yn wyneb yn y cyngor neu gartref. Ers i'r Gwasanaeth Cyngor i Gyn-filwyr hwn lansio yn 2017 yng Nghaerdydd, yn 2018 ym Mro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, mae dros 4,000 o ymholiadau wedi'u derbyn dros y pedwar awdurdod.

Cyfeirio i Wasanaethau

- Gan gydnabod nad yw llawer o Gymuned y Lluoedd Arfog wedi gwneud cais am dai cymdeithasol o'r blaen, mae Cyngor Dinas Hull wedi creu gwefan benodol, yn nodi'n glir sut i wneud cais am dai cymdeithasol, y meini prawf (gan gynnwys cysylltiad lleol), blaenoriaethu ceisiadau, a manylion am hawliau a gofynion statudol.

- Yn Wigan, mae'r cyngor yn cyflogi gweithiwr allweddol ar gyfer cyn-filwyr a'u teuluoedd, a all eu helpu nhw i lywio'r dirwedd gwasanaethau cyhoeddus. Maent hefyd wedi mapio'r holl elusennau yn y fwrdeistref. Mae hyn yn golygu y gallent ymateb i anghenion yn effeithiol ac yn gyflym. Er enghraifft, os yw llety'n cael ei ddarparu heb ddodrefn, gall y gweithiwr allweddol edrych ar y Map Elusennau i deall sut y gallent drefnu i gael dodrefn.

Rheoli Tenantiaethau

- Roedd cyn-filwr wedi cael ei ryddhau'n feddygol o'r Fyddin ar ôl dioddef gwaedlif ar yr ymennydd. Roedd y cyn-filwr yn byw'n annibynnol, nes i straen ac iselder arwain at drafferthion gyda chymdogion, ac aeth i fyw gyda'i fam. Yn ystod y cyfnod hwn, derbyniodd gymorth gan ei feddyg teulu i reoli ei iselder. Gan fod ei fam yn dioddef o ddementia, dechreuodd y broses o drosglwyddo ei chytundeb tenantiaeth iddo ef. Fodd bynnag, arweiniodd ei anaf ar yr ymennydd ato'n anghofio i gyflwyno'r cais. Ni chafodd y denantiaeth ei throsglwyddo, ac roedd yn wynebu prosesau cyfreithiol i'w droi allan. Gweithiodd y cyngor a'r Lleng Prydeinig Brenhinol gyda'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i alluogi iddo aros nes iddo sicrhau tenantiaeth arall.

4C2. Cysylltiad lleol

4.12. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl na fydd cyn-filwyr neu deuluoedd Gwasanaeth wedi **meithrin digon o 'gysylltiad lleol'** yn unol â chynllun dyraniadau awdurdod lleol, gan leihau eu mynediad id ai cymdeithasol yn yr ardal maen nhw'n byw ynddi. Gallai hyn eu hatal rhag mynd ar restrau aros am dai cymdeithasol unwaith iddynt adael y Lluoedd Arfog, ac ni fyddant yn gymwys am lety Gwasanaeth mwyach.

4.13. Bu i reoliadau, a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn 2012 nodi meini prawf sy'n golygu nad oes modd diystyru aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yn Lloegr o ran tai cymdeithasol oherwydd gofyniad cysylltiad lleol. Mae canllawiau statudol mis Mehefin 2020 i awdurdodau lleol yn Lloegr yn ei gwneud hi'n glir fod awdurdodau lleol yn Lloegr yn gorfod diystyru'r gofyniad cysylltiad lleol o ran pobl sydd wedi ysgaru neu wahanu, neu bartneriaid sifil personél Gwasanaeth sydd angen symud allan o lety a ddarperir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

4.14. Mae eithriadau i feini prawf cysylltiadau lleol hefyd yn bodoli yng Nghymru, os oes modd i'r ymgeisydd ddangos tystiolaeth ei fod wedi cael ei leoli mewn ardal yng Nghymru yn ystod ei gyfnod yn y Lluoedd Arfog. Nodir yr eithriadau hyn yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

4.15. Mewn ymateb i argymhellion Comisiynydd Cyn-filwyr yr Alban, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban Ganllaw Ymarfer i landlordiaid cymdeithasol ar ddyraniadau i bobl yn gadael y Lluoedd Arfog. Mae'n cynnwys canllawiau ar roi blaenoriaeth i rai sy'n gadael Gwasanaeth a sicrhau nad yw cyn-filwyr dan anfantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol oherwydd amser wedi'i dreulio y tu allan i ardal. Yn dilyn ymgynghoriad, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ddatganiad gweinidogol, ym mis Mawrth 2021, sy'n nodi'r amgylchiadau a'r meini prawf cyffredinol a fyddai'n gweithredu fel pwynt cyfeirio wrth arfer y pŵer i addasu cysylltiad lleol.

Eithriadau o Feini Prawf Preswylfa

- Mae gan Gyngor Canol Swydd Bedford bolisi dyraniadau tai sy'n cynnwys eithriad preswylfa a meini prawf cyflogaeth i bob personél Rheolaidd sy'n gwasanaethu, a chyn-aelodau. Fel arfer, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod wedi byw yn yr ardal am dair blynedd, neu weithio yno am chwe mis. Fodd bynnag, mae personél presennol a chyn-bersonél wedi'u heithrio o hyn, a hefyd, does dim terfyn amser pum mlynedd ar gyn-bersonél sy'n ymgeisio.

4C3. Argaeledd tai cymdeithasol addas

4.16. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *perygl*, mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr anghenion tai cymdeithasol penodol oherwydd anaf corfforol neu feddyliol yn deillio o'u cyfnod yn y Gwasanaeth. Er enghraifft, llety â chymorth, neu gartref sydd â mynediad i gadair olwyn. Mae'n bosibl y bydd gan aelodau eraill Cymuned y Lluoedd Arfog, megis teuluoedd Gwasanaeth, anghenion tai cymdeithasol brys. Fodd bynnag, efallai y byddant yn dod i'r casgliad **nad ydynt yn cael eu blaenoriaethu wrth geisio derbyn tai cymdeithasol addas, neu'n profi diffyg tai cymdeithasol.**

4.17. Mae canllawiau statudol ar ddyrannu llety yn Lloegr, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Mehefin 2012, a chanllawiau statudol ar ddyrannu llety yng Nghymru, a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Mawrth 2016, yn sicrhau bod 'blaenoriaeth ychwanegol' - blaenoriaeth uchel - am dai cymdeithasol yn cael ei rho ii grwpiau penodol yng Nghymuned y Lluoedd Arfog. Hefyd, mae canllawiau statudol mis Mehefin 2020 yn nodi sut y gall awdurdodau lleol yn Lloegr sicrhau bod aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sy'n dioddef iechyd meddwl gwael (yn rhannol neu'n bennaf oherwydd Gwasanaeth) yn cael blaenoriaeth briodol o ran tai

cymdeithasol. Dylid nodi y gall problem iechyd meddwl o ganlyniad i Wasanaeth barhau neu ddechrau blynyddoedd ar ôl i'r unigolyn adael y Lluoedd Arfog.

4.18. Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ganllawiau newydd a mwy diweddar er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o anghenion tai Cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'r Canllawiau Strategaeth Tai Lleol yn annog awdurdodau lleol i ystyried yn llawn gofynion tai Cymuned y Lluoedd Arfog. Cafodd ei gryfhau hefyd i annog ymgysylltiad priodol â sefydliadau perthnasol, megis Veterans Scotland, i ddeall yn well anghenion y Gymuned hon wrth ddatblygu'r Strategaethau.

4.19. Mae amrywiaeth o adroddiadau eraill ar gael, megis adroddiad Comisiynydd Cyn-filwyr yr Alban, Getting Transition Right in Scotland, adroddiad FiMT Working Together to Meet the Housing Needs of Ex-Service Personnel, ac Accommodation for Single Veterans, gan Riverside a Stoll.

Blaenoriaethu

- Rhoddir blaenoriaeth i gyn-filwyr yn Wigan ag anghenion meddygol yn ymwneud â'r Gwasanaeth ar y rhestr aros am dai, a bydd gwyr/gwragedd sydd yng nghanol ysgariad hefyd yn cael blaenoriaeth.

- Yn Welwyn Hatfield, mae'r rhestr aros am dai cymdeithasol oddeutu tair blynedd. Gall y rhai nad ydynt yng Nghymuned y Lluoedd Arfog wneud cais am dai cymdeithasol gan gadw hyn mewn cof, gan wybod y bydd yn cymryd oddeutu tair blynedd i gael llety. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn addas i gyn-filwyr, gan y gallai'r Lluoedd Arfog fod wedi'u symud nhw i'r ardal (pan roeddent yn dal yn Gwasanaethu) yn ddiweddar. Newidiodd Cyngor Welwyn Hatfield ei bolisi tai cymdeithasol. Cafodd y broses fandio ar gyfer rhai sy'n gadael Gwasanaeth drwy roi rhybudd (un o'r llwybrau ymadael) ei addasu i ystyried y terfyn amser byrrach y mae cyn-filwyr yn ei wynebu wrth ddefnyddio'r llwybr hwn.

- Pan gyflwynwyd polisi dyrannu tai Cyngor De Swydd Lanark yn 2009, cafodd ymgeiswyr o'r Gwasanaeth y dyfarniad unigol uchaf o bwyntiau a oedd ar gael dan y polisi. Y nod oedd y byddai hyn yn galluogi cynnig llety pan fyddai'r ymgeisydd yn cael ei ryddhau. Fodd bynnag, yn 2010, nodwyd fod y pwyntiau a roddwyd i ymgeiswyr Gwasanaeth yn annigonol weithiau er mwyn cyflwyno cynnig am lety. Rhoddwyd diwygiad i'r polisi dyraniadau ar waith, i alluogi ymgeiswyr Gwasanaeth a oedd yn bodloni meini prawf penodol gael y flaenoriaeth uchaf posibl o ran tai, a chael eu rhoi ar y rhestr Angen Tai Brys, gydag ymgeiswyr digartref a'r rhai gydag anghenion meddygol brys. Yn 2019, diwygiwyd ymhellach y meini prawf cymhwysedd o ran ymgeiswyr Gwasanaeth, i alluogi cysylltiad â'r ardal drwy drefniadau gofal perthnasoedd, ac i ymestyn y terfyn amser er mwyn dyfarnu blaenoriaeth am dai ar ôl dyddiad ymadael, o chwe wythnos i chwe mis.

Darpariaeth Tai â Chymorth

- Daeth cyngor yn ymwybodol o gyn-filwr 82 oed a'i wraig, a oedd ar fin dod yn ddigartref o'u carafán statig a oedd wedi'i leoli am gyfnod ar safle deithio, nid safle preswyl. Roedd gan y wraig ddementia a chlefyd Alzheimer ac, yn unol â pholisi tai y Lluoedd Arfog lleol, cawsant eu blaenoriaethu ar gyfer llety â chymorth.

Darparwyd llety digartref iddynt, ac aseswyd eu hawl i gael budd-daliadau. Gweithiodd y cyngor gyda'r grwpiau lleol a'r Lleng Prydeinig Brenhinol i ddodrefnu'n llawn y cartref gyda llenni, dodrefn a pheiriannau gwyn, tra bod y wraig wedi'i lleoli mewn cartref gofal am ddeuddydd. Mae'r cwpl o'r farn fod y cymorth a'r caredigrwydd a roddwyd iddynt wedi ymestyn eu hamser gyda'i gilydd.

Stoc Tai Dynodedig

- Mae gan Swydd Henffordd ddiffyg sylweddol o stoc tai er mwyn ateb y galw. Nododd Cyngor Swydd Henffordd llain o dir yn Leominster, a rhoi'r tir hwn yn rhodd i brosiect hunan-adeiladu cyn-filwyr blaengar, gan weithio mewn partneriaeth â Stonewater Housing (darparwr tai cymdeithasol), adeiladwyr lleol, Harpers, ac elusen Alabare. Torrwyd tir newydd ar ddiwedd 2018, a daeth y prosiect i ben ar ddiwedd 2020. Cymrodd naw o gyn-filwyr, yr oedd chwech ohonynt yn cael eu hystyried yn ddigartref ag ystod o anghenion cymhleth, ran, gan adeiladu eu tai eu hunain ac ennill profiad, hyfforddiant a chymwysterau adeiladu. Cafodd effaith bositif a sylweddol ar eu bywydau. Adeiladwyd cyfanswm o 19 o gartrefi, gan leihau amseroedd aros am dai cymdeithasol yn y sir. Bellach, mae Cyngor Swydd Henffordd yn chwilio am safleoedd eraill er mwyn gwneud yr un peth.

- I helpu cyn-filwyr sengl gwrywaidd, a rhai gyda chofnod troseddol, a gwrywaidd sengl eraill gyda statws heb flaenoriaeth dan ddeddfwriaeth digartrefedd, sefydlwyd y Watling Street Project gan Gyngor Bwrdeistref Gogledd Swydd Warwick a Veterans Contact Point, gyda chyllid gan Gyngor Swydd Warwick. Gweithiodd gyda Cornerstone Partnership (menter cymdeithasol tai lleol) i brydlesu eiddo â 5 ystafell wely i letya gwrywod sengl. Mae pedwar o gyn-filwyr a naw o ddinasyddion wedi defnyddio'r cartref, ac mae'r elusen hefyd yn cefnogi nhw am hyd at 12 mis ar ôl iddynt adael.

- Creodd Cyngor Dwyrain Lothian rhai eiddo newydd sbon ar gyfer cyn-filwyr, yn cynnwys chwech o fflatiau â dwy ystafell wely, ac mae tri ohonynt yn unedau hygyrch i gadeiriau olwyn ar y llawr gwaelod. Tenantiaethau'r cyngor yw'r rhain sydd wedi'u clustnodi i gyn-filwyr, a gafodd eu hadnabod a'u henwebu gan Veterans Housing Scotland. Mae pob un o'r chwech eiddo wedi'u haseinio. Mae'r tenantiaethau i gyd wedi cael eu cynnal ac mae'r preswylwyr wedi integreiddio'n dda i'r gymuned leol.

4C4. Cyfathrebu â theuluoedd Gwasanaeth

4.20. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*, mae'n bosibl y bydd teuluoedd Gwasanaeth sy'n gleientiaid corff tai yn byw dramor. Efallai y byddant yn **ei chael hi'n anos cyfathrebu â chorff tai na chleientiaid y corff tai nad ydynt yn rhai Gwasanaeth,** sydd wedi'u lleoli yn y DU. Er enghraifft, efallai na fyddant yn gallu cael mynediad i ffurflenni ar-lein gan fod gofynion gweithredol milwrol yn atal mynediad i'r rhyngrwyd, neu efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd yn ffonio llinellau cymorth arferol y corff tai yn ystod oriau swyddfa arferol y DU oherwydd gwahaniaethau mewn amser.

Mabwysiadu Dull Hyblyg

- Bu i Wasanaeth Allgymorth y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr gefnogi person Gwasanaeth, a oedd wedi'i leoli yn yr Almaen, a oedd ar fin gadael y Lluoedd Arfog ac a oedd eisiau symud yn ôl i'r Gogledd Ddwyrain wedi hyn. Defnyddiwyd dull hyblyg a phwrpasol. Defnyddiwyd swyddfeydd y Cyngor fel cyfeiriad cyswllt, gan nad oedd y system gyfrifiadurol wedi'i dylunio i gofrestru cyfeiriadau tramor. Unwaith y cafodd eiddo addas ei nodi, darparwyd ymweliad rhithwir â'r eiddo, ac anfonwyd lluniau a fideos. Aeth aelod o'r teulu hefyd i weld yr eiddo ar ei ran cyn iddo dderbyn cynnig am yr eiddo. Cofrestrodd am yr eiddo dros e-bost, ac roedd yr allweddi mewn bocs dan glo iddo eu casglu ar ôl dychwelyd. Mae rhai o'r arferion hyn bellach wedi cael eu mabwysiadu yn ymarfer gwaith prif-ffrwd i rai sy'n gwneud cais am dai wrth fod tramor, gan fod yn hynod fuddiol i Gymuned y Lluoedd Arfog wrth wneud cais am dai mewn amgylchiadau o'r fath.

4D. Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig)

4.21. Mae dyletswydd ar awdurdodau tai lleol yn Lloegr i gyhoeddi strategaeth yn nodi'r materion y mae'n rhaid i ddarparwyr tai cymdeithasol cofrestredig yn y rhanbarthol eu hystyried. Efallai y bydd cyrff cyhoeddus yn awyddus i gael golwg ar strategaethau sector preifat neu drydydd sector sy'n trafod Cymuned y Lluoedd Arfog, megis Strategaeth Cyn-filwyr Riverside.

4.22. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig*, mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth **ddiffyg gwybodaeth am y sector tai dinesig, system les a chyllidebu,** gan arwain at anawsterau yn cael neu'n cynnal tenantiaeth tai cymdeithasol, neu efallai y byddant yn meddu ar synnwyr cyffredinol o fod yn ddatgysylltiedig o ran cymdeithas ddinesig ac angen tai â chymorth oherwydd hynny.

4.23. Gall cyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth fod ag anghenion amrywiol o ran tenantiaethau tai cymdeithasol. Mae rhai aelodau, megis tenantiaid agored i niwed, angen llety pontio byrdymor â chymorth gyda thenantiaethau hyblyg o lai na phum mlynedd, tra y gallai rhai eraill elwa ar denantiaethau diogel a hirdymor, neu hyd yn oed am oes.

Tenantiaethau am Oes

- Mae Strategaeth Denantiaethau Cyngor Dyfnaint 2012-16 yn nodi y dylai cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n gymwys am dai cymdeithasol gael cynnig tenantiaethau am oes.

Cynnig Amrywiaeth o Denantiaethau

- Mae Strategaeth Denantiaethau Cyngor Ealing (Drafft) 2021 yn nodi y gallai cyn-filwyr agored i niwed fod angen llety pontio byrdymor â chymorth, sy'n golygu bod angen tenantiaethau hyblyg o lai na phum mlynedd. Mae hefyd yn golygu bod angen i landlordiaid ddarparu cymorth cynnal tenantiaethau.

Gwella Dealltwriaeth o Faterion

- Nododd cymdeithas dai nid er elw yng Ngogledd Lloegr, Johnnie Johnson Housing, angen i wella tai ar gyfer cyn-filwyr ac ymwybyddiaeth o faterion Lluoedd Arfog. Ochr yn ochr â darparwyr tai eraill, awdurdodau lleol ac elusennau Gwasanaeth, maen nhw'n ceisio nodi meysydd ar gyfer gwella gwasanaeth, rhannu arfer da a chlywed gan siaradwyr lleol a chenedlaethol ar faterion y Lluoedd Arfog. Mae'r grwp hefyd yn cyflogi rhwydwaith o bencampwyr sy'n bodloni ac yn rhannu arfer gorau, sydd yna'n cael ei rannu ar draws eu sefydliadau nhw. Dyma rai o'r mentrau allweddol:
  - Creu prosiectau e-ddysgu i wella ymwybyddiaeth staff o faterion Lluoedd Arfog.
  - Creu porth ar-lein lleol i gyfeirio gwasanaethau allweddol y gall cyn-filwyr gael mynediad ato.
  - Pennu pump o eiddo newydd sbon i gyn-filwyr sy'n bodloni meini prawf penodol.
  - Sicrhau bod cyn-filwyr yn gategori anghenion blaenoriaeth lefel uchel ar gyfer tai cymdeithasol.

4E. Digartrefedd

4.24. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig,* mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr **ddiffyg gwybodaeth am sut i lywio'r sector tai dinesig,** a allai gynyddu eu tebygolrwydd o ddod yn ddigartref ar ryw bwynt yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd cyn-filwyr digartref yn llai ymwybodol o'u hawliau neu'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Fel arall, efallai y byddant yn **amharod ceisio cymorth cynnar i osgoi digartrefedd** am resymau megis stigma, cywilydd, neu gred na fydd cyrff dinesig yn deall eu profiadau, a allai gynyddu eu tebygolrwydd o ddod yn ddigartref.

4.25. Mae'r rhan fwyaf o gyn-filwyr yn pontio'n rhwydd o fywyd milwrol i fywyd dinesig. Mae gan llai na 1% o aelwydydd yn Lloegr y mae dyletswydd digartrefedd yn berthnasol iddynt angen cymorth o ganlyniad i wasanaethu yn y Lluoedd Arfog.[21] Hefyd, daeth astudiaeth gan y Lleng Prydeinig Brenhinol i'r casgliad 'Does dim llawer o dystiolaeth i gefnogi'r ffaith fod bywyd milwrol…yn achosi digartrefedd ymysg cyn-filwyr'.[22] Fodd bynnag, mae'r rhwymedigaethau a chyfaddawdau unigryw o ran *symudedd daearyddol* a *bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig* o bosibl yn lleihau gallu cyffredinol cyn-filwyr i ymdopi mewn bywyd dinesig, a gwaethygu sefyllfa unigolyn sy'n agored i niwed. Mae angen i bersonél Gwasanaeth adael eu llety ar ôl gadael y Gwasanaeth, felly ni ddylid ystyried y rhai sy'n dod yn ddigartref yn bobl sydd wedi dod yn ddigartref ar bwrpas.

4.26. Mae personél Gwasanaeth yn derbyn lefel uchel o gymorth i gynllunio a pharatoi ar gyfer gadael y Lluoedd Arfog, a gallent ddefnyddio nifer o wasanaethau cymorth sydd ar gael i gyn-filwyr sydd, neu sydd mewn perygl o ddod, yn ddigartref. Fel arfer, rhaid i bersonél Gwasanaeth roi cyfnod o 12 mis o rybudd cyn diwedd eu Gwasanaeth, sy'n

[21] Tablau byw ar ddigartrefedd, Tabl A3 – Nifer yr aelwydydd y mae'r ddyletswydd ddigartrefedd yn berthnasol iddynt, yn ôl anghenion cymorth yr aelwyd.
[22] Tudalen 1 o'r astudiaeth Lleng Prydeinig Brenhinol.

cynnwys cyfnodau dynodedig ar gyfer adsefydliad i'w galluogi nhw i baratoi ar gyfer bywyd dinesig, gan gynnwys dod o hyd i lety preifat. Mae personél Gwasanaeth yn derbyn tri mis o rybudd cyn gorfod gadael eu llety, a diwedd y cyfnod rhybudd fydd y diwrnod olaf o Wasanaeth, ac mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd rhai sydd ei angen yn cael rhagor o amser. Yn y rhan fwyaf o achosion o ryddhau ar fyr rybudd, rhoddir y tri mis o rybudd o ran gadael hyd yn oed os yw hyn yn mynd y tu hwnt i'r dyddiad gadael. Mae eithriadau i hyn yn cynnwys achosion o ryddhau ar sail disgyblu neu gamymddwyn, lle rhoddir o leiaf 28 diwrnod o rybudd. Mae cyngor tai ar gael i'r holl bersonél Gwasanaeth a'u teuluoedd, yn ystod ac ar ôl Gwasanaeth.

4.27. Mae'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn gyfeirio aelodau'r Lluoedd Arfog Rheolaidd yn Lloegr, a allai fod yn ddigartref neu ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, at awdurdod tai lleol.

4.28. Gan weithio gyda rhanddeiliaid Lluoedd Arfog, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu llwybr tai cenedlaethol ar gyfer cyn-filwyr y Lluoedd Arfog er mwyn darparu eglurder a chymorth i gyn-filwyr a'u teuluoedd naill ai i fod yn berchen ar aelwyd, neu rentu yn y sectorau preifat neu gymdeithasol.

4.29. Yn yr Alban, dylid trin unigolyn yn ddigartref, hyd yn oed os oes ganddo lety, os na fyddai'n rhesymol iddo barhau ynddo. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref.

Ymchwil i Ddigartrefedd a'r Lluoedd Arfog

- Mae elusen Riverside yn gwneud gwaith ymchwil gyda Phrifysgol Efrog i archwilio'r ddarpariaeth bresennol ac effeithiolrwydd gwybodaeth am dai, a chyngor a roddir i Gymuned y Lluoedd Arfog, gyda'r nod o greu cynllun gweithredu i ddatrys digartrefedd ymysg cyn-filwyr. Bydd Riverside yn cynnal adolygiad o lenyddiaeth ryngwladol, gwaith maes gyda phersonél a chyn-filwyr sy'n gwasanaethu, er mwyn nodi a mapio effeithiau. Bydd hyn yn mapio'r daith o rywun yn ymuno â'r Lluoedd Arfog hyd at eu profiadau o ddigartrefedd, gan alluogi barn am y math cywir o ymyriadau i'w roi ar waith, a phryd.

Cyfeirio at Wasanaethau am Ddigartrefedd

- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Rugby wefan sy'n darparu cyngor i Gymuned y Lluoedd Arfog sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, neu sydd yn ddigartref. Mae'n rhannu cyngor clir, gan egluro hawliadau, blaenoriaeth ychwanegol, cyngor ar sut i ryngweithio gyda'u gwasanaethau, a chymorth arall sydd ar gael gan drydydd partïon.

4F. Grantiau Cyfleusterau Anableddau

4.30. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *perygl,* mae'n bosibl y bydd aelodau'r Lluoedd Arfog yn dioddef anafiadau sy'n golygu fod angen addasiadau sylweddol yn eu cartrefi pan fyddant yn gadael y Gwasanaeth.

4.31. Mae'n bosibl y bydd aelodau teulu Gwasanaeth sy'n anabl angen addasiadau ar eu cartrefi pan fyddant yn symud i ardal newydd, yn ystod cyfnod y person Gwasanaeth yn y Gwasanaeth. Er y gallai hyn fod yn broblem hefyd i deuluoedd nad ydynt yn rhai Gwasanaeth, gall teuluoedd Gwasanaeth symud yn amlach oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *symudedd daearyddol*. Gallai hyn arwain atynt yn **treulio rhagor o amser mewn cartref nad yw'n bodloni eu hanghenion.**

4.32. Oherwydd y rhwymedigaeth a chyfaddawd unigryw o ran *bod yn anghyfarwydd â bywyd dinesig,* mae'n bosibl y bydd gan gyn-filwyr a theuluoedd Gwasanaeth **ddiffyg gwybodaeth am ba grantiau sydd ar gael** iddyn nhw eu hunain neu aelodau'r teulu, sut i wneud ceisiadau amdanynt, a pha wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi eu ceisiadau.

4.33. Pan fydd teulu Gwasanaeth cymwys sydd angen addasiadau yn byw yn llety'r Weinyddiaeth Amddiffyn, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu, yn unol â'i bolisïau. Hefyd, ar adegau, mae'n bosibl y bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ariannu addasiadau i lety preifat ar gyfer personél wedi anafu a sâl sy'n pontio allan o'r Gwasanaeth.

4.34. Mae gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru a Lloegr ddyletswydd statudol i ddarparu addasiadau i gartrefi i bobl o bob oed a daliadaethau sy'n gymwys am Grant Cyfleusterau Anableddau, yn amodol ar asesiad o anghenion, meini prawf cymhwysedd a phrawf modd. Gall hyn gynnwys personél y Lluoedd Arfog neu eu teuluoedd sy'n byw yn eu llety eu hunain, a chyn-filwyr.

4.35. Gall awdurdodau tai lleol yng Nghymru a Lloegr hefyd gyhoeddi polisi cymorth tai lleol dan bwerau'r Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (RRO) i ddefnyddio cyllid y Llywodraeth ar gyfer Grantiau Cyfleusterau Anabledd yn fwy hyblyg i fodloni orau anghenion lleol, gan gynnwys darpariaeth addasiadau tai i grwpiau penodol. Wrth greu polisïau lleol, dylai awdurdodau lleol ystyried sut i ddatrys anghenion penodol personél y Lluoedd Arfog neu eu teuluoedd sy'n byw yn eu llety eu hunain, a chyn-filwyr hefyd.

4.36. Mae canllawiau wedi'u cyhoeddi ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr ar gyflawniad effeithiol y Grant Cyfleusterau Anabledd. Mae'n cynnwys adran ar Gymuned y Lluoedd Arfog.

4.37. Yn yr Alban, gelwir hyn yn Gynllun Cynorthwyo. Mae Rheoliadau Deddf Tai (Yr Alban) (Cynllun Cynorthwyo) 2008 yn nodi lle bo angen addasiadau sy'n hanfodol i anghenion y person anabl ac mae'r gwaith gofynnol yn strwythurol (neu'n golygu newidiadau parhaol i'r tŷ) mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gael grant mandadol.

Atodiad 1: Cyrff a swyddogaethau yng nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod

A1.1. Rhestrir y **cyrff penodedig** y mae'r Ddyletswydd Cyfamod yn berthnasol iddynt yn Neddf Lluoedd Arfog 2006 yn adran 343AA(3) o ran Lloegr, adran 343AB(3) o ran Cymru, adran 343AC(3) o ran yr Alban, ac adran 343AD(3) o ran Gogledd Iwerddon. Maent wedi'u rhestru yn y tabl isod, yn ôl gofal iechyd, addysg a thai.

A1.2. Mae'r **swyddogaethau perthnasol** yng nghwmpas y Ddyletswydd Cyfamod yn swyddogaethau sy'n cael eu harfer dan neu ar ran y darpariaethau deddfwriaethol a restrir yn Neddf Lluoedd Arfog 2006 yn adran 343AA(4-6) o ran Lloegr, adran 343AB(4-6) o ran Cymru, adran 343AC(4-6) o ran yr Alban, ac adran 343AD(4-6) o ran Gogledd Iwerddon. Mae'r swyddogaethau hyn ym meysydd gofal iechyd, addysg a thai wedi'u rhestru yn y tabl isod.

A1.3. Pan fydd termau'n ymwneud â'r cyrff penodedig a swyddogaethau perthnasol wedi'u diffinio ymhellach yn adrannau 343AA i 343AD o'r Ddeddf, mae'r diffiniadau hynny hefyd wedi'u cynnwys yn y tabl isod er mwyn ei gwneud hi'n hawdd cyfeirio atynt.

Gwlad	**Cyrff penodedig**	**Mae swyddogaethau perthnasol yn swyddogaethau dan neu yn rhinwedd y darpariaethau deddfwriaethol canlynol**
Gofal iechyd		
Lloegr	• GIG Lloegr • Byrddau gofal integredig, sy'n golygu corff a sefydlwyd dan adran 14Z25 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006. • Ymddiriedolaethau Sefydliadau'r GIG • Ymddiriedolaethau'r GIG • Awdurdodau Lleol, sy'n golygu cyngor sir yn Lloegr, cyngor ardal, cyngor bwrdeistref Llundain,	• Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 • Unrhyw ddarpariaeth o Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (plant a phobl ifanc yn Lloegr ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau), cyn belled ag y bo'n berthnasol i ddarpariaeth gofal iechyd. Dylid dehongli 'darpariaeth gofal iechyd' fel y mae yn Rhan 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (gweler adran 21 o'r Ddeddf honno).

	Cyngor Cyffredin Dinas Llundain, neu Gyngor Ynysoedd Scilly.[23]	
Cymru	• Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd dan adran 11 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 • Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd dan adran 22 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, heblaw am Awdurdod Iechyd Arbennig traws-ffiniol. Mae 'Awdurdod Iechyd Arbennig Traws-ffiniol' yn golygu Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlwyd dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn rhinwedd (a) paragraff 1 (2) o Atodlen 2 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Dilynol) 2006, neu (b) y pŵer dan adran 28 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 a'r pŵer dan adran 22 o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn cael ei arfer eto. • Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. • Awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n golygu cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.	• Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
Yr Alban	• Awdurdod integreiddio (o fewn ystyr adran 59 Deddf Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (Yr Alban) 2014 (asp 9)) • Bwrdd Iechyd a gyfansoddwyd dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978 • Bwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddwyd dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978.	• Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978

[23] Nid yw awdurdodau unedig wedi'u rhestru'n glir yn niffiniad 'awdurdod lleol yn Lloegr' yn adran 343AA(8) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006, ac felly nid yw wedi'u rhestru'n glir yn y tabl hwn, oherwydd yn gyfreithiol maen nhw'n parhau i fod yn gyngor sir neu'n gyngor rhanbarth, felly maent yn dod o dan gwmpas y Ddyletswydd hon drwy gynnwys y termau hyn.

	• Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin Gwasanaeth Iechyd yr Alban	
Gogledd Iwerddon	• Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon), ond dim ond wrth arfer swyddogaethau gofal iechyd perthnasol yng nghwmpas y Ddyletswydd a gafodd eu harfer gan y cyn-Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol cyn iddo gael ei ddirymu.[24] • Grwp Comisiynu Lleol a benodir dan adran 9 o'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009 • Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd yn rhinwedd Erthygl 10 o'r Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991 (S.I. 1991/194 (N.I. 1)), oni bai am Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans a Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon.	Swyddogaethau dan neu yn rhinwedd unrhyw rai o'r canlynol, cyn belled ag y bo'r swyddogaeth yn ymwneud â gofal iechyd, lle bo 'gofal iechyd' yn golygu pob math o ofal iechyd a ddarperir i unigolion, waeth os yw'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol: • Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1972 (S.I. 1972/1265 (N.I. 14)) • Gorchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991 (S.I. 1991/194 (N.I. 1)) • Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009 (c.1 (N.I.)).
Addysg		
Lloegr	• Awdurdodau Lleol, sy'n golygu cyngor sir yn Lloegr, cyngor rhanbarthol, cyngor bwrdeistref Llundain, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain, neu Gyngor Ynysoedd Scilly.[25] • Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, lle mae gan 'ysgol a gynhelir' yr un ystyr â'r hyn sydd wedi'i nodi yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler adran 20 o'r Ddeddf)	• Deddf Addysg 1996 • Rhan 3 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Addysg 1998 (derbyniadau i ysgolion) • a175 o Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o ran lles plant) • Unrhyw ddarpariaeth o Ran 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, cyn belled ag y bo'n ymwneud â darpariaeth addysgol arbennig. Dylid dehongli 'Darpariaeth addysgol

[24] Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at Fwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol Gogledd Iwerddon yn y rhestr o gyrff a nodir dan adran 343AD(3) y mae'r Ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Cafodd y Bwrdd hwn ei ddirymu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon) 2022, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2022, gyda'i swyddogaethau yn trosglwyddo i'r Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon). Dan ddarpariaethau pontio Deddf 2022, bydd y Ddyletswydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r swyddogaethau perthnasol a arferwyd yn flaenorol gan y Bwrdd, fel sydd bellach yn cael ei ymarfer gan yr Adran Iechyd (Gogledd Iwerddon).

[25] Nid yw awdurdodau unedig wedi'u rhestru'n glir yn niffiniad 'awdurdod lleol yn Lloegr' yn adran 343AA(8) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006, ac felly nid yw wedi'u rhestru'n glir yn y tabl hwn, oherwydd yn gyfreithiol maen nhw'n parhau i fod yn gyngor sir neu'n gyngor rhanbarth, felly maent yn dod o dan gwmpas y Ddyletswydd hon drwy gynnwys y termau hyn.

	• Perchnogion Academïau, lle mae gan 'Academi' yr un ystyr â Deddf Addysg 1996 (gweler adran 579(1) o'r Ddeddf honno), a 'pherchennog' mewn perthynas ag Academi, sydd â'r un Academi a roddir yn adran 579(1) o'r Ddeddf Addysg 1996. • Ysgolion arbennig nas cynhelir, sy'n golygu ysgol a gymeradwyir dan adran 342 o'r Ddeddf Addysg 1996. • Cyrff llywodraethu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, lle mae gan 'gorff llywodraethu' fan hyn yr un ystyr ag adran 90 o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a dylid dehongli 'sefydliad o fewn y sector addysg bellach' yn unol ag adran 91(3) o'r Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. • Sefydliadau ôl-16 arbennig - mae gan y term hwn yr un ystyr â'r hyn sydd yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 (gweler 83 o'r Ddeddf honno).	arbennig' yn yr un ffordd â Rhan 3 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (gweler adran 21 o'r Ddeddf)
Cymru	• Awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n golygu cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru. • Corff llywodraeth ysgol a gynhelir yng Nghymru, lle mae 'ysgol a gynhelir' yr un ystyr â'r hyn sydd yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (gweler adran 20 o'r Ddeddf honno).	• Deddf Addysg 1996 • Rhan 3 o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (derbyn i ysgolion) • Adran 175 o'r Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o ran lles plant) • Adrannau 2 i 7 a 9 o Fesur Cludiant Dysgwyr (Cymru) 2008 • Penodau 2 (cynlluniau datblygu unigol) a 3 (swyddogaethau atodol) o Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
Yr Alban	• Awdurdod lleol yn yr Alban, sy'n golygu cyngor a gyfansoddwyd dan adran 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac ati (Yr Alban) 1994. • Bwrdd Iechyd a gyfansoddwyd dan adran 2 o'r Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978	• Yn Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Yr Alban) 1980 (hawliau a dyletswyddau rheini a swyddogaethau awdurdodau addysg o ran disgyblion unigol), adrannau 28A, 28B, 42 a 51 • Adrannau 1 a 2 o Ddeddf Safonau Ysgolion yr Alban ac ati 2000 (asp 6) (darpariaeth addysg ysgol: hawl y

	• Person neu gorff yn rhinwedd ei swydd fel asiantaeth priodol at ddibenion adran 23 o'r Ddeddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu) (Yr Alban) 2004 (asp 4)	plentyn a dyletswydd yr awdurdod addysg) • Deddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu) (Yr Alban) 2004 (asp 4), heblaw am adrannau 15 i 21 o'r Ddeddf honno, ac Atodlen 1 • Rhannau 3 (cynllunio gwasanaethau plant) o'r Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014 (asp 8).
Gogledd Iwerddon	• Yr Awdurdod Addysg a sefydlwyd dan adran 1(1) o'r Ddeddf Addysg (Gogledd Iwerddon) 2014 (c. 12 (N.I.)) • Bwrdd Llywodraethwyr ysgol sy'n cael cymorth grantiau yng Ngogledd Iwerddon, lle mae 'ysgol sy'n cael cymorth grantiau' yn golygu ysgol sy'n cael cymorth grantiau fel yr hyn a nodir yng Ngorchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 1986. • Y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol a sefydlwyd dan adran 7 o'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009 (c.1 (N.I.)) • Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd yn rhinwedd Erthygl 10 o Orchymyn Iechyd a Gofal Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991 (S.I. 1991/194 (N.I. 1)), heblaw am Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Iwerddon.	• Erthygl 52 (cludiant ysgol) o Orchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 1986 (S.I. 1986/594 (N.I. 3) • Yn Rhan 2 (anghenion addysgol arbennig) o Orchymyn Addysg (Gogledd Iwerddon) 1996 (S.I. 1996/274 (N.I. 1)), Erthyglau 6 i 16 ac 19 i 20A • Erthygl 16(4) a (5) (meini prawf derbyn) o Orchymyn Addysg (ogledd Iwerddon) 1997 (S.I. 1997/866 (N.I. 5)) • Erthyglau 17 (dyletswydd ar fyrddau llywodraethwyr i ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion) a 22 (derbyn i ysgolion arbennig plant yn byw y tu allan i Ogledd Iwerddon) o Orchymyn Addysg a Llyfrgelloedd (Gogledd Iwerddon) 2003 (S.I. 2003/424 (N.I. 12)).
Tai		
Lloegr	• Awdurdodau Lleol, sy'n golygu cyngor sir yn Lloegr, cyngor ardal, cyngor bwrdeistref Llundain, Cyngor Cyffredin Dinas Llundain, neu Gyngor Ynysoedd Scilly.[26]	• Rhan 6 o'r Ddeddf Tai 1996 (dyrannu tai) • Rhan 7 o'r Ddeddf Tai 1996 (digartrefedd: Lloegr)

[26] Nid yw awdurdodau unedig wedi'u rhestru'n glir yn niffiniad 'awdurdod lleol yn Lloegr' yn adran 343AA(8) o'r Ddeddf Lluoedd Arfog 2006, ac felly nid yw wedi'u rhestru'n glir yn y tabl hwn, oherwydd yn gyfreithiol maen

		• Rhan 1 o'r Ddeddf Grantiau, Adeiladu ac Adnewyddu Tai 1996 (grantiau, ac ati, er mwyn adnewyddu'r sector tai preifat) • Adran 1 o'r Ddeddf Digartrefedd 2002 (dyletswydd yr awdurdod tai lleol yn Lloegr i greu strategaeth ddigartrefedd) • Adran 150 o'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 (strategaethau tenantiaeth) • Rheoliad 3 o Orchymyn Diwygio Rheoliadol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (S.I. 2002/1860) (pŵer awdurdodau tai lleol i roi cymorth), cyn belled ag y bo'r rheoliad yn ymdrin â darpariaeth cymorth ariannol at ddiben sy'n cyfateb i unrhyw ddiben a nodir yn a23 o'r Ddeddf Grantiau, Adeiladu ac Adnewyddu Tai 1996 (grantiau cyfleusterau anabledd: dibenion).
Cymru	• Awdurdod lleol yng Nghymru, sy'n golygu cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru.	• Rhan 6 o'r Ddeddf Tai 1996 (dyrannu llety) • Rhan 1 o'r Ddeddf Grantiau, Adeiladu ac Adnewyddu Tai 1996 (grantiau, ac ati, er mwyn adnewyddu tai'r sector preifat) • Rhan 2 o'r Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (anaw 7) • Rheoliad 3 o'r Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 (S.I. 2002/1860) (pŵer awdurdodau tai lleol i roi cymorth), cyn belled ag y bo'r rheoliad yn ymdrin â darpariaeth cymorth ariannol at ddiben sy'n cyfateb i unrhyw ddiben a nodir yn a23 o'r Ddeddf Grantiau, Adeiladu ac Adnewyddu Tai 1996 (grantiau cyfleusterau anabledd: dibenion).
Yr Alban	• Awdurdod lleol yn yr Alban, sy'n golygu cyngor a gyfansoddwyd dan adran 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac ati (Yr Alban) 1994. • Landlord awdurdod lleol - mae gan y term hwn yr un ystyr â'r hyn	• Adrannau 19 i 21 o'r Ddeddf Tai (Yr Alban) 1987 (rhestrau tai ac ati) • Rhan 2 o'r Ddeddf honno (pobl ddigartref) • Adrannau 1 a 2 (digartrefedd: strategaethau a chyngor) o'r Ddeddf Tai (Yr Alban) 2001 (asp 10)

nhw'n parhau i fod yn gyngor sir neu'n gyngor rhanbarth, felly maent yn dod o dan gwmpas y Ddyletswydd hon drwy gynnwys y termau hyn.

	a nodir yn Neddf Tai (Yr Alban) 2001 (asp 10) (gweler adran 11(3) o'r Ddeddf honno).	• Adran 71(2)(e) o'r Ddeddf Tai (Yr Alban) 2006 (asp 1) (addasu tŷ ar gyfer person anabl).
Gogledd Iwerddon	• Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon	• Erthyglau 22 (cynllun dyrannu tai) a 22A (dyrannu i bobl gymwys yn unig) o'r Gorchymyn Tai (Gogledd Iwerddon) 1981 (S.I. 1981/156 (N.I. 3)) • Rhan 2 (lletya'r digartref) o Orchymyn Tai (Gogledd Iwerddon) 1988 (S.I. 1988/1990 (N.I. 23)), heblaw erthygl 15 • Pennod 2 o Ran 3 o'r Gorchymyn Tai (Gogledd Iwerddon) 2003 (S.I. 2003/412 (N.I. 2)), cyn belled ag y bo'r Pennod hwnnw'n ymwneud â grantiau cyfleusterau anabledd. Mae 'Grantiau cyfleusterau anabledd' yn golygu'r hyn a nodir yn Erthygl 35(4) o'r Gorchymyn Tai (Gogledd Iwerddon) 2003.

Atodiad 2: Sut gall cyrff godi ymwybyddiaeth o faterion y Lluoedd Arfog

A2.1. Er nad yw'r Ddyletswydd yn nodi'n union y camau gweithredu y dylai cyrff eu rhoi ar waith er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd a'r materion y mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn eu hwynebu, rydym wedi cynnwys y mathau o gamau gweithredu y gallent fod eisiau eu hystyried isod. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr arfer da presennol cyrff sydd eisoes yn gweithio ar gyflawni'r Cyfamod Lluoedd Arfog yn eu hardal leol.

Penodi unigolion

- Gall awdurdodau lleol benodi hyrwyddwr sy'n aelod etholedig.
- Penodi swyddog dynodedig, grwp o staff neu unigolyn arweiniol arall a all roi cyngor ar faterion Lluoedd Arfog, a'u cydlynu, ledled y sefydliad cyfan.
- Hyrwyddo un pwynt cyswllt o fewn y sefydliad y gall aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog gysylltu ag ef os oes angen cymorth a chyngor.

Cyfathrebu ac Ymgysylltiad

- Trefnu a/neu mynd i gyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr o'r Lluoedd Arfog, elusennau, cynrychiolwyr y sector cyhoeddus, cynrychiolwyr lleol, presenoldeb y Lluoedd Arfog lleol, rhwydweithiau Cyfamod y Lluoedd Arfog, a/neu bencampwr/pencampwyr sefydliadau.
- Pennu a/neu fynd i fyrddau partneriaeth lleol i gydweithio gyda sefydliadau tebyg, rhannu arfer da a gwybodaeth.
- Cynnig gwefan o ddeunyddiau gyda gwybodaeth allweddol a dolenni i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog (megis enghreifftiau 1 2 3), gan gynnwys manylion ar weithdrefnau cwyno ac atgyfeirio at sefydliadau perthnasol megis ombwdsmyn.
- Datganiad clir o beth all aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog ei ddisgwyl gan y sefydliad o ran cymorth (megis yr enghraifft hon).
- Dull ar gyfer cofnodi camau gweithredu a llwyddiannau.
- Dull ar gyfer hyrwyddo ymchwil pellach.
- Hyfforddi staff rheng-flaen.

Cydweithio

- Rhannu ymwybyddiaeth, data ac arfer da ar Gymuned y Lluoedd Arfog o fewn y sefydliad a sefydliadau tebyg eraill.
- Gwneud cais am ragor o wybodaeth gan sefydliadau sydd wedi delio â Chymuned y Lluoedd Arfog o'r blaen.

Ymchwil

- Deall cyfansoddiad Cymuned y Lluoedd Arfog yn yr ardal leol.
- Nodi bylchau o ran gwybodaeth.
- Defnyddio gwybodaeth ac adnoddau ar-lein, megis y Porth Cyn-filwyr neu Rwydwaith Gwybodaeth Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

- Cynnal Asesiad o Anghenion Strategol ar y Cyd ar anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog lleol a, ble bo'n bosibl, rhagweld anghenion y rhai a fydd yn symud i'r ardal.
- Cynnal arferion casglu tystiolaeth cynradd, megis adroddiad arddull CHAIN i gasglu data am gyn-filwyr digartref.
- Casglu a dadansoddi data ar Gymuned y Lluoedd Arfog lleol, gan gynnwys drwy holi defnyddwyr gwasanaeth am eu statws Lluoedd Arfog.
- Defnyddio ffynonellau data cenedlaethol megis y cyfrifiad, ac ystadegau ar leoliadau'r derbynyddion pensiwn ac iawndal y Lluoedd Arfog, a'r rhai sy'n derbyn y Premiwm Disgyblion Gwasanaeth.
- Defnyddio ymchwil ar ein canllawiau arfer da, megis adroddiad 'Our Community Our Covenant' gan Forces in Mind.
- Ymgysylltu'n rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth a defnyddwyr sy'n aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog.

Gweledigaeth

- Bod â chynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson.
- Cynnal adolygiadau polisi rheolaidd.

Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth

A3.1. Mae'r cyhoeddiad hwn, ac adnoddau eraill sydd ynghlwm wrth y Cyfamod Lluoedd Arfog, ar gael ar wefan y Cyfamod: www.armedforcescovenant.gov.uk. Mae'r wefan yn cynnwys platfform dysgu sydd ar gael am ddim gydag adnoddau hyfforddiant, cyngor a chanllawiau pellach ar gyfer (ac sy'n cael ei lenwi gan) ddarparwyr gwasanaeth, i sicrhau bod ganddynt fynediad rhwydd i'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog, a mwy. Mae rhagor o ganllawiau ar gael ar Cyfamod y Lluoedd Arfog.

A3.2. I gael rhagor o gyngor, gwybodaeth neu ganllawiau ar faterion y Cyfamod, gallwch gysylltu â Thîm Cyfamod y Weinyddiaeth Amddiffyn ar: COVENANT-MAILBOX@mod.gov.uk.

Ffynonellau Defnyddiol Eraill

(Os nad yw'r ddolen wedi'i nodi'n Gymraeg, maent ar gael yn Saesneg yn unig)

Fframweithiau, Polisïau a Chanllawiau Statudol

Gofal Iechyd:

- Healthcare for the Armed Forces Community (NHS)
- Scotland's Health on the Web
- Health and Social Care Northern Ireland

Addysg:

- School Admissions Code and Fair Access Protocols (Lloegr)
- School Transport: A Guide for Parents (Lloegr)
- Derbyn i ysgolion (Cymru)
- Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)
- Attendance – Included, engaged and involved (Yr Alban) Rhan 1 a Rhan 2
- Getting it Right for Every Child (Yr Alban)
- Admissions (Gogledd Iwerddon)

Tai:

- Guidance on Allocations
- Improving Access to Social Housing for the Armed Forces
- Homelessness Code of Guidance for Local Authorities
- Armed Forces and ex-Service Personnel – A Scottish Housing Guide
- Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd Llywodraeth Cymru
- Llwybr tai cenedlaethol cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog, Llywodraeth Cymru

Arall:

- Scotland Armed Forces and Veterans Community
- Cyn-filwyr Cymru
- Local Government and Social Care Ombudsman's Armed Forces Covenant guidance to councils

Dogfennau ac Ymchwil

- Adroddiad Blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog a chyhoeddiadau defnyddiol eraill
- Canllaw i Awdurdodau Lleol ar y Cyfamod Lluoedd Arfog ac adnoddau defnyddiol eraill

- Armed Forces Families Strategy
- Duty and Care: Armed Forces Family Mobility and Health Care Report
- The Emotional Cycle of Deployment
- Forces Additional Needs and Disability Forum 30th Anniversary Report
- Forces In Mind Trust 'Our Community Our Covenant' Report
- Living in our shoes: Understanding the needs of UK Armed Forces families
- Greater Manchester Armed Forces Covenant Guide
- Relocating to Scotland
- Reserve Forces Review 2030
- Voice of Schools Survey

Cysylltiadau, Rhanddeiliaid a Hyfforddiant

- ABF The Soldiers' Charity
- Armed Forces Covenant Fund Trust
- Army Families Federation
- Association of Directors of Education in Scotland (ADES)
- ADES Forces Children's Education
- BLESMA: The Military Charity for Limbless Veterans
- Children's Education Advisory Service CEAS (MOD)
- Confederation of Service Charities (COBSEO)
- Defence Medical Welfare Service
- Forces Children Scotland
- Forces in Mind Trust
- Housing e-Learning for Frontline Workers (Greater Manchester Housing Partnership)
- Joint Services Housing Advice Office
- The Military Human: Understanding Military Culture and Transition (York St John University)
- Naval Families Federation
- National and Regional Schools Commissioners (England)
- Northern Ireland Housing Executive
- Northern Ireland Veterans Commissioner's Office
- Northern Ireland Veterans' Support Office
- RAF Benevolent Fund
- RAF Families Federation
- Reserve Forces' and Cadets' Associations
- Royal British Legion
- Royal Naval Benevolent Trust
- Scottish Veterans Commissioner
- Service Children's Progression Alliance a SCiP Alliance Map o blant Gwasanaeth
- Service Children in State Schools
- SSAFA The Armed Forces Charity
- Supporting Service Children in Education Cymru
- Veterans Advisory and Pensions Committees (VAPCs)
- Veterans Covenant Healthcare Alliance
- Veterans' Gateway
- Veterans UK
- War Widows Association

Atodiad 4: Datrys anghydfodau

Y Broses Gwynion

A4.1. Nid yw'r Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn cyflwyno unrhyw ddull gorfodaeth newydd.

A4.2. Yn achos anghydfod o ran a yw corff wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Cyfamod, dylai hyn gael ei drafod gyda'r corff perthnasol, yn dilyn proses gwynion safonol y corff hwnnw. Dylai cyrff cyhoeddus roi gwybod am eu gweithdrefnau cwyno er mwyn sicrhau bod y broses yn hawdd ei defnyddio. Mewn llawer o achosion, dylai cyfathrebu'n glir ac yn rhagweithiol gyda'r achwynydd drwy gydol y broses am y penderfyniad a wnaethpwyd a'r rhesymau pam helpu i leddfu pryderon.

Cwynion Heb eu Datrys

A4.3. Os yw proses gwynion safonol y corff yn methu â chyflawni datrysiad digonol, mae'n bosibl y bydd achwynwyr yn gallu cymryd rhan mewn proses cyfryngu, apelio neu dribiwnlys, neu gyfeirio'r mater at yr ombwdsmon perthnasol lle bo'n briodol. Dylai cyrff gyfathrebu'n glir am y dulliau unioni hyn er mwyn gwneud y broses yn hawdd ei defnyddio.

A4.4. Ombwdsmyn:

- **Lloegr:** Yn Lloegr, mae gwasanaethau ombwdsmyn amrywiol am wasanaethau cyhoeddus amrywiol. Os oes gennych gwyn am y canlynol, efallai yr hoffech ymweld â'r gwefannau:
  - Digartrefedd, Cludiant Ysgol, Derbyn i Ysgolion neu SEND: Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol
  - Tai: Ombwdsmon Tai
  - Gofal Iechyd: Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd
- **Cymru:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- **Yr Alban:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban
- **Gogledd Iwerddon:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Iwerddon
- **Cwynion Gwasanaeth:** Ombwdsmon Cwynion Gwasanaeth ar gyfer y Lluoedd Arfog

A4.5. Anogir achwynwyr a chyrff i ymgysylltu â Thîm Cyfamod y Lluoedd Arfog yn y Weinyddiaeth Amddiffyn i sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o broblem. Does gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ddim pwerau ffurfiol i farnu ar anghydfodau. Fodd bynnag, mae ganddo brofiad sylweddol o ddelio â materion Cyfamod, a thrwy weithio gydag achwynwyr, cyrff yn y cwmpas a rhanddeiliaid eraill megis Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog lleol, mae wedi gallu datrys llawer o anghydfodau'n ymwneud â'r Cyfamod neu gyfryngu sefyllfa.

Cyngor pellach:

- Tîm Cyfamod y Lluoedd Arfog (DU)
- Swyddfa ar gyfer Materion Cyn-filwyr (DU)
- Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog (Cymru)
- Comisiynydd Cyn-filwyr yr Alban

- Swyddfa Comisiynydd Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon
- Swyddfa Cymorth Cyn-filwyr Gogledd Iwerddon

Cwynion Heb eu Datrys: Adolygiad Barnwriaethol

A4.6. Gall fod yn bosibl ceisio herio unrhyw achos o beidio â chydymffurfio â'r Ddyletswydd Cyfamod drwy wneud cais i adolygu'n farnwriaethol camau gweithredu neu esgeulustra corff. Mae terfynau amser yn berthnasol i adolygiadau barnwriaethol ac, felly, dylid ceisio cyngor cyfreithiol yn gynnar. Gall rheolau a gweithdrefnau amrywio ledled gwledydd gwahanol y DU. Mae rhagor o ganllawiau ar y broses adolygu barnwriaethol ar gael ar y ffynonellau amrywiol:

- Canllaw 'Judge Over Your Shoulder'
- Canllaw ar gyfer Cymru a Lloegr
- Canllaw ar gyfer yr Alban
- Canllaw ar gyfer Gogledd Iwerddon